

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo gynadledda drwy Zoom	Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 16 Tachwedd 2020	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.30	SeneddDCC@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu’n fyw ar www.Senedd.TV

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00–09.30)

- 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
09.30
- 2 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i
gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B
09.30–09.35 (Tudalennau 1 – 3)
CLA(5)–33–20 – Papur 1 – Offerynnau statudol negyddol arfaethedig sydd ag
adroddiadau clir
 - 2.1 pNeg(5)36 – Rheoliadau Aseidiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020
 - 2.2 pNeg(5)37 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau
Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru)
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020



2.3 pNeg(5)38 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

2.4 pNeg(5)39 – Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

3 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

09.35–09.40

(Tudalennau 4 – 5)

CLA(5)–33–20 – Papur 2 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir
Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

3.1 SL(5)645 – Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020

3.2 SL(5)646 – Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020

4 Offerynnau a drafodwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn destun gwaith craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

09.40–09.45

4.1 SL(5)650 – Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 6 – 20)

CLA(5)–33–20 – Papur 3 – Adroddiad

CLA(5)–33–20 – Papur 4 – Rheoliadau

CLA(5)–33–20 – Papur 5 – Memorandwm Esboniadol

5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

09.45–09.55

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

- 5.1 SL(5)643 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020**
(Tudalennau 21 – 56)
- CLA(5)–33–20 – Papur 6 – Adroddiad
CLA(5)–33–20 – Papur 7 – Rheoliadau
CLA(5)–33–20 – Papur 8 – Memorandwm Esboniadol
- 5.2 SL(5)647 – Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**
(Tudalennau 57 – 69)
- CLA(5)–33–20 – Papur 9 – Adroddiad
CLA(5)–33–20 – Papur 10 – Rheoliadau
CLA(5)–33–20 – Papur 11 – Memorandwm Esboniadol
- 5.3 SL(5)648 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020**
(Tudalennau 70 – 80)
- CLA(5)–33–20 – Papur 12 – Adroddiad
CLA(5)–33–20 – Papur 13 – Rheoliadau
CLA(5)–33–20 – Papur 14 – Memorandwm Esboniadol
- 5.4 SL(5)651 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020**
(Tudalennau 81 – 93)
- CLA(5)–33–20 – Papur 15 – Adroddiad
CLA(5)–33–20 – Papur 16 – Rheoliadau
CLA(5)–33–20 – Papur 17 – Memorandwm Esboniadol
CLA(5)–33–20 – Papur 18 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 6 Tachwedd 2020
CLA(5)–33–20 – Papur 19 – Datganiad ysgrifenedig, 6 Tachwedd 2020
- 5.5 SL(5)652 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020**
(Tudalennau 94 – 108)

CLA(5)–33–20 – Papur 20 – Adroddiad

CLA(5)–33–20 – Papur 21 – Rheoliadau

CLA(5)–33–20 – Papur 22 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–33–20 – Papur 23 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 6 Tachwedd 2020

CLA(5)–33–20 – Papur 24 – Datganiad ysgrifenedig, 5 Tachwedd 2020

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

5.6 SL(5)649 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

(Tudalennau 109 – 180)

CLA(5)–33–20 – Papur 25 – Adroddiad

CLA(5)–33–20 – Papur 26 – Rheoliadau

CLA(5)–33–20 – Papur 27 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–33–20 – Papur 28 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 5 Tachwedd 2020

CLA(5)–33–20 – Papur 29 – Datganiad ysgrifenedig, 2 Tachwedd 2020

5.7 SL(5)653 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020

(Tudalennau 181 – 197)

CLA(5)–33–20 – Papur 30 – Adroddiad

CLA(5)–33–20 – Papur 31 – Rheoliadau

CLA(5)–33–20 – Papur 32 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–33–20 – Papur 33 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 7 Tachwedd 2020

6 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

10.00

6.1 SL(5)636 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020

(Tudalennau 198 – 201)

CLA(5)-33-20 – Papur 34 – Adroddiad

CLA(5)-33-20 – Papur 35 – Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.2 SL(5)638 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

(Tudalennau 202 – 206)

CLA(5)-33-20 – Papur 36 – Adroddiad

CLA(5)-33-20 – Papur 37 – Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.3 SL(5)641 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3)
(Cymru) 2020

(Tudalennau 207 – 216)

CLA(5)-33-20 – Papur 38 – Adroddiad

CLA(5)-33-20 – Papur 39 – Ymateb Llywodraeth Cymru

7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

10.00-10.05

- 7.1 WS-30C(5)199 – Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a
Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE)
2020

(Tudalennau 217 – 222)

CLA(5)-33-20 – Papur 40 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-33-20 – Papur 41 – Sylwebaeth

- 7.2 WS-30C(5)201 – Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion
Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 223 – 227)

CLA(5)-33-20 – Papur 42 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-33-20 – Papur 43 – Sylwebaeth

- 7.3 WS-30C(5)202 – Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron
mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau
Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol)
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 228 – 233)

CLA(5)-33-20 – Papur 44 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-33-20 – Papur 45 – Sylwebaeth

**7.4 WS-30C(5)203 – Rheoliadau Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 234 – 237)

CLA(5)-33-20 – Papur 46 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-33-20 – Papur 47 – Sylwebaeth

8 Papurau i'w nodi

10.05–10.10

**8.1 Llythyr gan y Prif Weinidog: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau
Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 238 – 240)

CLA(5)-33-20 – Papur 48 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 9 Tachwedd 2020

**8.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Memorandwm Cydsyniad
Offeryn Statudol – Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r
UE) 2020**

(Tudalen 241)

CLA(5)-33-20 – Papur 49 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 12
Tachwedd 2020

**8.3 Llythyr gan y Prif Weinidog: Craffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y DU
â'r Undeb Ewropeaidd**

(Tudalen 242)

CLA(5)-33-20 – Papur 50 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 12 Tachwedd 2020

**9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

10.10

**10 Y Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig: Y wybodaeth
ddiweddaraf am gynnydd y Bil yn Nhy'r Arglwyddi**

10.10–10.15

(Tudalennau 243 – 258)

CLA(5)-33-20 – Papur 51 – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

11 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018:

Diweddariad

11.15-11.20

(Tudalennau 259 – 260)

CLA(5)-33-20 – Papur 52 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 12
Tachwedd 2020

12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y

DU – trafod yr adroddiad drafft

10.20-10.45

(Tudalennau 261 – 293)

CLA(5)-33-20 – Papur 53 – Adroddiad drafft

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 23 Tachwedd 2020

Offerynnau statudol negyddol arfaethedig sydd ag adroddiadau clir

16 Tachwedd 2020

Pn(5)36 – Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Gweithdrefn: Negyddol arfaethedig

Mae'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018") er mwyn mynd i'r afael â methiant cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol oherwydd ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n ofynnol, felly, eu gosod at ddibenion sifftio. Yn unol â gofynion Deddf 2018, mae'r Gweinidog wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y nodir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddau offeryn statudol:

- SL(5)328 – Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("OS Brexit cyntaf")
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("ail OS Brexit").

Roedd y ddau OS Brexit cyntaf yn gwneud diwygiadau amrywiol i ddeddfwriaeth yn ymwneud ag asesiadau o effaith amgylcheddol a chynllunio gwlad a thref i sicrhau bod modd parhau i weithredu'r llyfr statud ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, ac roeddent yn ymdrin â diffygion yn neddfwriaeth ddomestig Cymru sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Gwnaeth yr OS Brexit cyntaf hefyd fân ddiwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol sy'n deillio o ofynion yr UE.

Mae'r diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau'n adlewyrchu'r cyfnod pontio yn Erthygl 127 o'r Cytundeb Ymadael. Bydd y cyfeiriadau presennol at "y diwrnod ymadael," sef 31 Ionawr 2020, yn cael ei newid i "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu", sef 11pm ar 31 Rhagfyr 2020.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.



Y Ddeddf Wreiddiol: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
Gofynion sifftio wedi'u bodloni? Ydynt

Pn(5)37 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) (Diwygio) 2013

Gweithdrefn: Negyddol arfaethedig

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc) (Cymru) 2004 (y Prif Reoliadau)

Mae'r Prif Reoliadau'n gwneud darpariaeth o ran y cyffuriau, meddyginiaethau neu sylweddau eraill y caniateir eu harchebu ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn ystyr adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r diwygiadau hyn i'r Prif Reoliadau'n angenrheidiol i gywiro cyfeiriadau'r UE i sicrhau bod modd parhau i weithredu'r Prif Reoliadau'n ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn newid cyfeiriadau at y "diwrnod ymadael" i "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Y Ddeddf Wreiddiol: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
Gofynion sifftio wedi'u bodloni? Ydynt

Pn(5)38 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

Gweithdrefn: Negyddol arfaethedig

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") i wneud newidiadau technegol angenrheidiol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth a ddiwygiwyd gan Reoliadau 2019 yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad i weithredu deddfwriaeth yr UE ers i Reoliadau 2019 gael eu gwneud, gan gynnwys diwygiadau i amrywiol



Gyfarwyddbau'r UE a wnaed o dan Becyn Economi Gylchol yr UE, nid yw'r darpariaethau cywiro a wnaed gan Reoliadau 2019 bellach yn mynd i'r afael yn llawn â'r diffygion yng ngweithrediad cyfraith yr UE a ddargedwir a fydd yn codi o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac y bwriadwyd iddynt eu cywiro.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu mân ddarpariaethau penodol yn Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 a fydd yn peidio â gweithredu'n effeithiol ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae Rheoliadau 2019 mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r diwygiadau hynny, i'r graddau y cânt eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, yn ymwneud â Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004, Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 a Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ydynt

Pn(5)39 – Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Gweithdrefn: Negyddol arfaethedig

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, ym maes bwyd a materion gwledig, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn adlewyrchu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael â'r UE, ac er mwyn gwneud darpariaeth drosiannol.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ydynt



Eitem 3

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

16 Tachwedd 2020

SL(5)645 – Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau drafft yn ategu adran 60 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (ar wahân i ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi person (neu bersonau) yn gydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol, i gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion a myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi'r cymwysterau neu'r profiad y mae'n rhaid i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol eu cael ac yn rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â darparu ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 03 Tachwedd 2020

Yn dod i rym ar: 4 Ionawr 2021

SL(5)646 – Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n nodi'r diffiniadau cyffredinol o dermau a ddefnyddir yn Neddfau Senedd Cymru ac mewn is-offerynnau Cymreig.

Mae'r Rheoliadau yn mewnosod darpariaethau yn Atodlen 1 ynghylch ystyr yr ymadroddion a ganlyn—

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;



Ymddiriedolaeth Genedlaethol;

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:

Cod Dedfrydu.

Maent hefyd yn diwygio'r diffiniad o'r "graddfa safonol" o ddirwyon am droseddau diannod o ganlyniad i'r Cod Dedfrydu (yr ailddatganiad o'r ddeddfwriaeth ddedfrydu a nodir yn Neddf Dedfrydu 2020).

Rhiant-Ddeddf: Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 03 Tachwedd 2020

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 5

Eitem 4.1

SL(5)650 – Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") wedi eu gwneud o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 iddi.

Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE.

Gwnaeth Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") ddiwygiadau i Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 (OS 2010/1433), gan drosi gofynion Cyfarwyddebau 2008/50/EC a 2004/107/EC ar ansawdd aer yr amgylchedd yn Ewrop.

Mae Rheoliad 2(5)(a) o Reoliadau 2019 yn cyfeirio at Gyfarwyddeb 2008/1/EC ynghylch atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig. Nid yw'r Gyfarwyddeb hon mewn grym mwyach.

Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2019 drwy ddileu pob cyfeiriad at Gyfarwyddeb 2008/1/EC ac, yn ei lle, roi Cyfarwyddeb 2010/75/EU sy'n ymwneud ag allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio erthyglau 11 ac 11A o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydлу) 2012 yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn yn y gorffennol at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE. Daw rheoliadau 1 a 2 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, sef 23:00 ar 31 Rhagfyr 2020. Daw Rheoliad 3 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Bydd hyn yn cychwyn y gofyniad ymgynghori a nodir ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud. Mae'r Rheoliadau'n cadarnhau bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

10 Tachwedd 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 7

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1215 (Cy. 274)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau'r Amgylchedd
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903 (C.230)).

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/390 (C.95)), sydd ei hun yn diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1433 (C.126)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1215 (Cy. 274)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

Rheoliadau'r Amgylchedd
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2020

Gofynion *sifftio* *wedi* *eu*
bodloni *2 Tachwedd 2020*

Gwnaed *4 Tachwedd 2020*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *6 Tachwedd 2020*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni(2).

Yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

(1) 2018 p. 16.

(2) Mae'r cyfeiriad yn Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael effaith bellach fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac eithrio rheoliad 3 a ddaw i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Diwygio Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012

2.—(1) Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle erthygl 11(3), rhodder—

“(3) Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i'r Corff er mwyn—

- (a) sicrhau y bodlonir unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau UE a ddargedwir, neu
- (b) gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig.”

(3) Yn lle erthygl 11A(2)(b), rhodder—

“(b) o dan unrhyw ddeddfiad arall at ddiben—

- (i) sicrhau y bodlonir unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau UE a ddargedwir, neu
- (ii) gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig.”.

(4) Yn lle erthygl 11A(4), rhodder—

“(4) Mae paragraff (4A) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn amrywio neu'n dirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Corff (boed o dan erthygl 11 neu o dan unrhyw ddeddfiad arall) at ddiben—

- (a) sicrhau y bodlonir unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau UE a ddargedwir, neu
- (b) gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig.

(1) O.S. 2012/1903 (Cy. 203), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/755 (Cy. 90) ac O.S. 2013/1821 (Cy. 1821).

(4A) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r person sy'n gwneud yr amrywiad neu'r dirymiad—

- (a) cyhoeddi'r amrywiad neu'r dirymiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- (b) sicrhau bod copïau o'r amrywiad neu'r dirymiad ar gael ar gais."

Diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

3. Yn rheoliad 2(5)(a) o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(1), yn lle "Chyfarwyddeb 2008/1/EC" rhodder "Chyfarwyddeb 2010/75/EU".

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
4 Tachwedd 2020

(1) O.S. 2019/390 (Cy. 95).

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Amgylchedd a Chymunedau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gellir gweld y datganiadau yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lesley Griffiths AS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

6 Tachwedd 2020

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae'r offeryn hwn yn diwygio rheoliad 2(5)(a) o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, yn benodol drwy ddileu pob cyfeiriad at Gyfarwyddeb 2008/1/EC ac, yn ei lle, roi Cyfarwyddeb 2010/75/EU.

Diwygiodd Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r offeryn hefyd yn diwygio erthyglau 11 ac 11a o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Daw rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Diben hyn yw caniatáu i'r diwygiad i Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ddod i rym ac i'r diwygiadau yn yr offeryn statudol hwnnw ddod yn weithredol ar unwaith ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p.16) ("Deddf 2018") er mwyn mynd i afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Fel y nodir yn natganiad y Gweinidog yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, cynigir y dylai'r offeryn hwn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae'r offeryn yn gwneud mân ddiwygiad ac, felly, dylid ei ddirymu.

Er mwyn i'r ddarpariaeth hon ddod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu (ac yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu mewn perthynas â rheoliad 3), bydd angen i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn pen 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Daw rheoliad 3 o reoliadau 2020 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Bydd hyn yn cychwyn y gofyniad ymgynghori a nodir ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud.

Ystyriodd y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ddrafft o'r rheoliadau hyn ar 2 Tachwedd 2020, a chytunodd fod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn. Gellir gweld copi o adroddiad y LJCC a gyhoeddwyd drwy ddilyn y linc a ganlynol:

<https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13657/cr-ld13657-w.pdf>

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae angen diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o gyfraith yr UE er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r Ddeddf Ymadael yn trosi'r mwyafrif o gyfraith uniongyrchol gymwys yr UE fel y mae yn union cyn y diwrnod ymadael yn gyfraith ddomestig ac yn cadw deddfau a wnaed yn y DU sy'n rhoi rhwymedigaethau'r UE ar waith. Mae'r Ddeddf Ymadael hefyd yn creu pwerau dros dro i wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn ymdrin â diffygion a fyddai'n deillio o ymadawiad y DU. Mae adran 11 o baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Ymadael yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â diffygion.

Yn unol â gofynion y Ddeddf Ymadael, mae Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y'u nodir yn Rhan 2 i'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

Diben yr offeryn yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Golyga hyn gadw elfennau pwysig cyfundrefn ddeddfwriaethol yr UE ym meysydd pysgodfeydd a rheoli'r môr (yn dilyn y gwaith o fynd i'r afael â diffygion a nodwyd).

Diwygiodd Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 (OS 2010/1433) a drosodd ofynion Cyfarwyddebau 2008/50/EC a 2004/107/EC ar ansawdd aer yr amgylchedd yn Ewrop.

Cyfeiriodd rheoliad 2(5)(a) o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 at Gyfarwyddeb 2008/1/EC ynghylch atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig. Nid yw'r Gyfarwyddeb hon mewn grym mwyach.

Mae rheoliad 3 o Reoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 drwy ddileu pob cyfeiriad at Gyfarwyddeb 2008/1/EC ac, yn ei lle, roi Cyfarwyddeb 2010/75/EU sy'n ymwneud ag allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig).

Mae'r offeryn hefyd yn diwygio erthyglau 11 ac 11a o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

5. Ymgynghori

Am nad oes unrhyw newid i bolisi, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus. Unig ddiben yr offeryn hwn yw ei gwneud yn bosibl i'r ddeddfwriaeth ddomestig a'r fframwaith polisi presennol aros yn ddigyfnewid yn sgil ymadawiad y DU â'r UE.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni luniwyd unrhyw asesiad o'r risg mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn am na ragwelir y bydd unrhyw effaith ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

Atodiad: Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Rhan 1: Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau y gall fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru eu gwneud o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny y gall fod yn ofynnol i Weinidogion y Goron eu gwneud o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Gellir gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Ble y ceir y gofyniad	I bwy y mae'n gymwys	Yr hyn y mae'n gofyn amdano
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7 Paragraff 3(7) (disgwylir iddo fod yn ofyniad ar Weinidogion Cymru yn y Rheolau Sefydlog)	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud OS negyddol Mae paragraff 3(7) yn gymwys i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad	Datganiad i esbonio pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n gymwys, pam maent yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (fel y pwyllgor sifftio)
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad nad yw'r OS yn gwneud mwy nag sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae	Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gam gweithredu rhesymol.

		Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	
Cydraddoldebau	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i esbonio pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau sy'n cael eu gwneud i Ddeddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddeddfwriaeth a wnaed oddi tanynt, os o gwbl. Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i esbonio'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, e.e. a fwriedir gwneud mân newidiadau neu newidiadau technegol yn unig i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Mae'n gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad sy'n nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm wrthi.
Is-ddirprwyo	Paragraff 30, Atodlen 7	Mae'n gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a	Datganiad i esbonio pam mae'n briodol creu pŵer is-ddatganoledig o'r fath.

		<p>pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol nad yw'n arferadwy gan un o Weinidogion y Goron nac Awdurdod Datganoledig.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol nad yw'n arferadwy gan un o Weinidogion y Goron nac Awdurdod Datganoledig.</p>	
Brys	Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond sy'n defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad

Rhan 2

Datganiadau sydd angen eu gwneud wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Datganiad(au) sifftio

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, dylid dirymu Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru (h.y. y weithdrefn negyddol). Y rheswm dros hyn yw bod y newidiadau yn rhai mân a thechnegol eu natur.”

2. Datganiad priodoldeb

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud mwy nag sy'n briodol. Y rheswm dros hyn yw bod yr holl newidiadau yn cael eu gwneud at ddibenion mynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE yn unig.”

3. Rhesymau da

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn gam gweithredu rhesymol. Mae manteision i sicrhau bod deddfwriaeth ynglŷn â safonau ansawdd aer yn parhau'n weithredol ar ôl ymadael â'r UE.”

4. Cydraddoldebau

4.1 Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol:

“Nid yw'r offeryn yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth na darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny.”

- 4.2 Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â'r offeryn, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

5. Esboniadau

Mae'r datganiad esboniadau wedi'i wneud ym mharagraff 4 (Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth) o brif gorff y memorandum esboniadol hwn.

6. Troseddau

Ddim yn gymwys/gofynnol.

7. Is-ddirprwyo ddeddfwriaethol

Ddim yn gymwys/gofynnol.

8. Brys

Ddim yn gymwys/gofynnol.

SL(5)643 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn atodol i Reoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau'r DU") ac mae'n ofynnol eu cael er mwyn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol a is-ddeddfwriaeth penodol Cymru, i sicrhau cysondeb, ac er mwyn trosi newidiadau a gyflwynwyd gan Becyn Economi Gylchol yr UE ("y Pecyn").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddarau cyfeiriadau yn neddfwriaeth Cymru at ddwy o Gyfarwyddebau'r UE sydd wedi'u diwygio fel rhan o'r Pecyn, er mwyn cyfeirio at y fersiynau diweddaraf o'r Cyfarwyddebau hynny. Maen nhw hefyd yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 er mwyn rhoi rhwymedigaethau eraill yr UE ar waith sy'n deillio o'r Pecyn.

Mae'r ddarpariaeth a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gyfwerth, i bob pwrpas, â'r ddarpariaeth a wneir gan Reoliadau'r DU mewn perthynas â deddfwriaeth Lloegr yn unig.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Yn y fersiwn Saesneg o reoliad 4(7)(a), nid yw'r dyfynodau sy'n dynodi'r geiriad sydd i'w amnewid yn y lle cywir – dylai'r dyfynnod agoriadol ddod o flaen "Council", nid "for". Er y gall y darlennydd gasglu'r hyn sydd i'w amnewid, nid yw'r ddarpariaeth fel y'i drafftiodd yn mynegi hyn yn glir.

Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd



Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Penderfynodd llywodraethau Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU y bydd y mesurau hyn yn cael eu trosi fel y disgrifir yn y [datganiad cyhoeddus ar y cyd](#), heb ymgynghoriad ffurfiol, o ystyried bod y newidiadau'n gymharol fân a thechnegol.

Fodd bynnag, cynhaliwyd rhywfaint o ymgysylltu ysgafn â chynrychiolwyr o'r sector tirlenwi a llosgi ledled Cymru a Lloegr. Nod y trafodaethau hyn oedd rhoi gwybod i'r diwydiant am y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a sut byddent yn cael eu rhoi ar waith, ac i ofyn am eu barn ar y newidiadau hynny."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r troednodyn i reoliad 5(1) yn cyfeirio at Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011, ond ymddengys ei fod yn dyfynnu'r rhif OS anghywir. Rydym yn tybio y dylai'r cyfeirnod fod yn "O.S. 2011/725 (Cy.152)" [ychwanegwyd y pwyslais] nid "O.S. 2011/725 (Cy.154)".

Derbynnir nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben ei gynnwys yw cynorthwyo darlennydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyfeirnod yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r rheoliadau cywir.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1:

Er bod Llywodraeth Cymru yn credu bod y bwriad yn glir, mae'r pwynt yn tynnu sylw at wall drafftio y byddwn yn ei gywiro pan ddaw'r cyfle addas nesaf.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Mae'r pwynt yn tynnu sylw at wall drafftio, er nad yw'n newid y gyfraith, fel y nodir. Yn wir, o gofio bod y troednodyn yno i gynorthwyo'r darlennydd, credwn bod rhif yr O.S. yn cyflawni hyn, heb berygl o ddryswch difrifol. Serch hynny, byddwn yn cywiro hyn pan ddaw'r cyfle addas nesaf, er mwyn cynorthwyo'r darlennydd.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 5 Tachwedd 2020



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1179 (Cy. 265)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth Gymreig benodol drwy ddiweddarau cyfeiriadau yn y deddfwriaeth at ddwy Gyfarwyddeb gan yr UE sydd wedi eu diwygio fel rhan o'r Pecyn Economi Gylchol ("PEG") Ewropeaidd, fel eu bod yn cyfeirio at y fersiynau diweddaraf o'r Gyfarwyddebau hynny. Mae'r PEG yn cynnwys diwygio nifer o Gyfarwyddebau gan yr UE at ddiben symud tuag at economi gylchol sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau. Mae diwygiadau ychwanegol i Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1806 (Cy. 138)), sy'n gweithredu rhwymedigaethau UE eraill sy'n deillio o'r Pecyn Economi Gylchol.

Y Cyfarwyddebau yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 ynghylch gwastraff a diddymu Cyfarwyddebau penodol (OJ L 312 22.11.2008, t. 3) ("y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff") a Chyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC dyddiedig 26 Ebrill 1999 ynghylch tirlenwi gwastraff (OJ L 182 16.7.1999, t. 1) ("y Gyfarwyddeb Dirlenwi").

Diwygiwyd y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/851 (OJ L 150 14.6.2018, t. 109) a'r Gyfarwyddeb Dirlenwi gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/850 (OJ L 150 14.6.2018, t. 100).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru. Ar y cyd â rheoliadau'r DU a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, maent yn ffurfio rhan o drosi i gyfraith ddomestig y diwygiadau a wnaed i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r Gyfarwyddeb Dirlenwi.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (2010 mccc 8) er mwyn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Dirlenwi a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1490 (Cy. 155)), er mwyn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Dirlenwi a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1806 (Cy. 138)). Mae diwygiadau i reoliadau 2, 47 a 48 yn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r Gyfarwyddeb Dirlenwi. Mae'r diwygiad i reoliad 5 yn rhoi effaith i newidiadau yn y diffiniad o "rheoli" gwastraff. Mae diwygiadau i reoliadau 19 a 20 yn rhoi effaith i newidiadau a wneir gan y PEG mewn perthynas â chymysgu olewau gwastraff a chymysgu gwastraff peryglus, yn y drefn honno.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1014 (Cy. 152)), er mwyn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/567 (Cy. 136)), er mwyn diweddarau cyfeiriadau at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Nid oes asesiad effaith llawn wedi ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir y bydd yn cael unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol, na'r sector cyhoeddus.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1179 (Cy. 265)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) 2020**

Gwnaed *27 Hydref 2020*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *28 Hydref 2020*

Yn dod i rym *19 Tachwedd 2020*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) ("DCE 1972") mewn perthynas â mesurau ynghylch atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff(3) ac atal, lleihau a rheoli gwastraff(4).

-
- (1) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("DLIC 2006") caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) ("DCE 1972") mewn perthynas ag unrhyw fater, neu at unrhyw ddiben, os ydynt wedi eu dynodi mewn perthynas â'r mater hwnnw neu at y diben hwnnw. Mae paragraff 28(1) o Atodlen 11 i DLIC 2006 yn darparu bod dynodiadau a wnaed o dan adran 2(2) o DCE 1972 yn rhinwedd adran 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) sydd mewn grym yn union cyn cychwyn diddymu'r is-adran honno gan DLIC 2006 yn parhau i gael effaith ar ôl cychwyn y diddymiad hwnnw fel pe baent wedi eu gwneud yn rhinwedd adran 59(1) o DLIC 2006.
- (2) 1972 p. 68. Diddymwyd DCE 1972 gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae DCE 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o DCE 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.
- (3) O.S. 2005/850.
- (4) O.S. 2010/1552.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o DCE 1972, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Tachwedd 2020.

Diwygio Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

2.—(1) Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 9(3), yn lle “Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/850”.

(3) Yn adran 17(2), yn lle “Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/851”.

Diwygio Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004

3.—(1) Mae Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi 2004(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “cyfleuster gwastraff” yn lle “Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/851”.

(3) Yn rheoliad 7(10), yn lle “Reoliad y Cyngor 2011/97/EU” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/850”.

Diwygio Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

4.—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)(a), yn lle “Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997” rhodder “Gyfarwyddeb (EU) 2018/851”.

(3) Yn rheoliad 5(2), yn y diffiniad o “rheoli”, ar ôl “adfer” mewnosoder “(gan gynnwys sortio)”.

(4) Yn lle rheoliad 19(4) rhodder—

-
- (1) 2010 mecc 8. Diwygiwyd gan O.S. 2019/414 (Cy. 96). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
- (2) O.S. 2004/1490 (Cy. 155) a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/1820 (Cy. 148), 2015/1417 (Cy. 141) a 2019/414 (Cy. 96). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
- (3) O.S. 2005/1806 (Cy. 138) a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/2861 (Cy. 250), 2011/971 (Cy. 141), 2013/755 (Cy. 90), 2018/721 (Cy. 140) a 2019/414 (Cy. 96). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

“(4) Mae paragraff (1) yn gymwys i gymysgu olew gwastraff dim ond pan fyddai cymysgu olew o’r fath yn rhwystro atgynhyrchu neu weithrediad ailgylchu arall sy’n cyflawni canlyniad cyffredinol sy’n gyfwerth neu’n well nag atgynhyrchu.

(5) Ym mharagraff (4)—

- Adroddiad yr adolygiad o'r Cynllun
- Trefniadau ar gyfer Adolygu'r Cynllun
- Ymgynghori ar Gynllun drafft
- Amseriad y Cynllun a'r ffordd y caiff ei gyhoeddi
- Dirymu, gydag arbedion, Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Nid oes unrhyw wybodaeth benodol y mae'r Gweinidog am ei dwyn i sylw'r Pwyllgor.

Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y rheoliadau diwygio hyn o dan adrannau 87 a 97 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

Mae adran 84 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("y Cynllun") ac mae'n nodi y dylai Cynllun gynnwys y canlynol:

- a. cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn:
 - i. gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei darparu yn ei ardal;
 - ii. gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;
- b. targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;

- c. adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

Mae adran 84 hefyd yn nodi gyda phwy y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori wrth lunio neu ddiwygio ei Gynllun ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi personau eraill y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â nhw.

O dan adran 85 o Ddeddf 2013, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei Gynllun i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo. Gall Gweinidogion Cymru gymeradwyo, addasu neu wrthod Cynllun (gan lunio ei gynllun ei hun yn ei le). Mae is-adran (7) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei Gynllun a gymeradwywyd.

Mae adran 87 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaethau pellach ar faterion fel ffurf a chynnwys Cynllun, ei amseriad a'i hyd, cadw golwg ar y Cynllun, ymgynghori a chyflwyno'r Cynllun i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo, a'r broses o'i gyhoeddi. Gall y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth i alluogi dau neu fwy o awdurdodau lleol i lunio cydgynllun.

Mae adran 87 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt wrth arfer eu swyddogaethau.

Gwnaed Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") o dan y gwahanol bwerau hyn. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 yn diwygio'r gofynion a nodwyd yn Rheoliadau 2019.

Gwneir Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 o dan y weithdrefn negyddol.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r rheoliadau diwygio hyn yn gwneud tri newid i'r amserlenni yn Rheoliadau 2019.

1. Cyfnod para Cynllun deng mlynedd – cyfnod para'r cynllun fydd 1 Medi 2022 i 31 Awst 2032 yn lle 1 Medi 2021 i 31 Awst 2031. (rheoliad 4)
2. Y dyddiad y dylid cyflwyno'r cynllun deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru ei ystyried – sef 31 Ionawr 2022 yn lle 31 Ionawr 2021 (rheoliad 5)
3. Y dyddiad y mae'n rhaid cyflwyno'r adroddiad adolygu blynyddol cyntaf i Weinidogion Cymru – 31 Gorffennaf 2021 yn lle 31 Gorffennaf 2022 (rheoliad 7)

Gwneir y newidiadau hyn mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi awdurdodau addysg lleol i flaenoriaethu'r cymorth y maent yn ei roi i ysgolion – a strategaethau ehangach ar gyfer ymateb i COVID-19 yn ystod gweddill 2020/21. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, drefniadaeth

ysgolion; iechyd a diogelwch mewn ysgolion, asesiadau risg, PYD, trefniadau cyfarpar diogelu personol, cludiant o'r cartref i'r ysgol, rhaglenni dysgu rhithwir.

Bydd cynlluniau a gymeradwywyd o dan Reoliadau 2013 yn parhau'n weithredol nes y bydd Cynllun 10 mlynedd cyntaf yr awdurdod lleol, o dan reoliadau diwygio arfaethedig 2020, yn weithredol.

Risgiau os na chaiff y Rheoliadau eu gwneud

Mae risg y caiff cyfle ei golli i wneud cyfraniad sylweddol a phwysig at y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg os na chaiff y rheoliadau hyn eu gwneud.

Mae trefniadau newydd yn Rheoliadau 2019 yn pennu disgwyliad uwch i awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg dros dymor hwy (10 mlynedd) ac ar sail targed cyffredinol, a gyfrifir yn unigol gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r targedau cenedlaethol a bennwyd yn Cymraeg 2050. Fel rhan o'r broses o lunio a chynllunio'r Cynllun newydd, byddai wedi bod yn ofynnol i rai awdurdodau lleol fabwysiadu dull gweithredu gwahanol.

Er enghraifft, byddem wedi disgwyl y byddai'r paratodau hyn wedi dechrau ym mis Ebrill 2020 ac wedi cynnwys cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg lleol yn ogystal â'r gwaith o ddadansoddi ac ystyried tueddiadau a rhagolygon data CYBLD; tueddiadau a rhagolygon arolwg o'r gweithlu addysg; hynt rhaglen gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif ac anghenion ac effeithiau yn y dyfodol. Hefyd, (yn unol â gofynion Rheoliadau 2019) byddai disgwyl bod awdurdodau lleol wedi cyflwyno eu Cynllun drafft i'w cabinet yn ystod tymor yr hydref er mwyn bwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chyflwyno eu Cynlluniau terfynol i Weinidogion Cymru eu hystyried erbyn mis Ionawr 2021.

Mae pandemig COVID-19 wedi amharu ar yr amserlen arfaethedig hon o ddiwyddiadau. Os na chaiff y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 eu gwneud, mae risg na fydd awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno eu Cynllun deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru erbyn 31 Ionawr 2021 fel y nodir yn Rheoliadau 2019. Y prif nod wrth gyflwyno Rheoliadau 2019 oedd annog awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gyda mwy o uchelgais a diben, yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn ein strategaeth genedlaethol ar gyfer y Gymraeg, Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr. Mae'r newidiadau eraill yn cael eu gwneud o ganlyniad i newid y dyddiad cyflwyno o 31 Ionawr 2021 i 31 Ionawr 2022.

Ymgynghori

Caiff y diwygiadau hyn eu gwneud mewn ymateb i bandemig COVID-19. Dim ond ers pedwar mis yr oedd Rheoliadau 2019 wedi bod yn weithredol pan

darodd y pandemig. Bu Rheoliadau 2019 yn destun ymgynghoriad 15 wythnos rhwng 30 Mai a 13 Medi 2019, gan gynnwys pedwar digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol a fynychwyd gan tua 100 o randdeiliaid yn ogystal â thrafodaeth fforwm ieuenctid a gynhaliwyd gan yr Urdd.

Oherwydd natur y gwelliant sy'n cael ei gynnig, sydd ond yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno a dechrau cylch nesaf y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a dim darpariaeth arall yn y rheoliadau, ni wnaed ymgynghoriad ychwanegol nac asesiad effaith integredig. Fodd bynnag, ystyriwyd barn Cyfarwyddwyr Addysg yr awdurdodau lleol, a gasglwyd drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Yn eu plith roedd yr amser a neilltuwyd i lunio Cynllun drafft mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori ar Gynllun drafft ar adeg pan fyddai'r holl adnoddau addysg sydd ar gael yn cael eu hatgyfeirio er mwyn darparu ymatebion lleol i COVID-19.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

1. Opsiynau

Ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1: Gwneud dim – cadw Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 fel ag y maent.
- Opsiwn 2: Cyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

Risgiau a Manteision

OPSIWN 1: Gwneud dim – cadw Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 fel ag y maent.

Arweiniodd yr Adolygiad Cyflym o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017 ac yna'r broses o sefydlu Bwrdd Cynghori annibynnol at wneud Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019"). Maent yn disodli rheoliadau 2013 a wnaed o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013").

Y prif nod wrth gyflwyno rheoliadau 2019 oedd annog awdurdodau lleol i ddangos mwy o uchelgais a diben wrth gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau ei bod yn gyson â'r disgwyliadau a nodwyd yn ein strategaeth genedlaethol ar gyfer y Gymraeg, Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr.

Y ddau newid mwyaf sylweddol a gyflwynwyd gan reoliadau 2019 oedd – (1) newid y cylch tair blynedd blaenorol ar gyfer Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i 10 mlynedd a (2) disodli'r gofyniad blaenorol i gynnal asesiadau o ofnyion rhieni â gofyniad i gynllunio yn unol â thargedau. Cyfrifwyd y targedau hyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu'r cerrig milltir yn Cymraeg 2050. Byddai'r trefniadau statudol hyn yn parhau o dan y ddau opsiwn.

Fodd bynnag, roedd rheoliadau 2019 yn pennu amserlen ar gyfer llunio Cynllun drafft ac ar gyfer cyflwyno Cynllun i Weinidogion Cymru ei ystyried. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar allu awdurdodau lleol i gydymffurfio â'u dyletswydd statudol yn hyn o beth, sef:

- Mae rheoliadau 2019 yn pwysleisio bod angen i awdurdodau lleol fynd ati i lunio eu Cynlluniau mewn partneriaeth â'u fforymau cynllunio Cymraeg mewn addysg lleol sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan benaethiaid, rhanddeiliaid o'r gymuned Gymraeg, consortia rhanbarthol, addysg bellach a phrifysgolion. O ystyried bod angen i awdurdodau lleol, cynrychiolwyr ysgolion a chyrrff addysgol a phartneriaid trydydd sector eraill a nodir uchod ymateb i bandemig COVID-19, ni fu'r elfen hanfodol

hon o'r broses o gynllunio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn bosibl yn y mwyafrif o achosion, neu yn sicr nid i'r graddau a fyddai'n bodloni ein disgwyliadau.

- Mae rheoliadau 2019 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar Gynlluniau drafft lleol, cyn eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Gallai heriau, fel llai o gapasiti (o ran amser ac adnoddau staffio), blaenoriaethau croes ac ansicrwydd ynghylch y gallu i ymrwmo i gynigion hirdymor yn ystod y cyfnod cyn etholiadau lleol, effeithio ar safon gyffredinol y Cynlluniau a gyflwynir i'w cymeradwyo.
- Ymhlith y pwysau eraill sy'n effeithio ar allu awdurdodau lleol i gynllunio mewn modd hyderus ac uchelgeisiol mae llithriant o ran datblygiadau yn ymwneud ag adeiladau ysgolion/gwelliannau i ysgolion o ganlyniad i rwymedigaethau COVID-19 contractwyr, a allai hefyd effeithio ar gynigion eraill o ran trefniadaeth ysgolion.

OPSIWN 2: Cyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Byddai diwygio'r rheoliadau 2019 yn y ffordd a ddisgrifir yn Rhan 1 yn sicrhau ein bod yn parhau i fodloni amcanion polisi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r opsiwn hwn yn ystyried y cyd-destun y cyflwynir y diwygiad hwn oddi mewn iddo. Am y rhesymau a nodir yn Opsiwn 1 uchod, credwn fod angen gohirio'r cylch nesaf o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn rhoi'r rheoliadau 2019 ar waith yn ôl y bwriad. Yn ein barn ni, bydd hyn yn arwain yn y pen draw at gyflwyno Cynlluniau gwell ar adeg pan y dylai fod llai o bwysau ar adnoddau. Yn ogystal, drwy gyflwyno Cynlluniau newydd a'u rhoi ar waith ar ôl yr etholiadau lleol pan fydd Llywodraeth newydd mewn grym, bydd awdurdodau lleol yn gallu cynllunio mewn ffordd fwy hyderus ac uchelgeisiol.

Costau

OPSIWN 1

Dyma'r opsiwn dim newid ac fel y cyfryw, nid oes unrhyw gostau ychwanegol i'r rhai a amcangyfrifwyd eisoes yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol¹ ar gyfer Rheoliadau 2019.

OPSIWN 2

Gan mai'r unig newid y mae'r opsiwn hwn yn ei gynnig yw symud yr amserlen ar gyfer dechrau'r cylch newydd o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ymlaen blwyddyn, heb effeithio ar unrhyw ddarpariaeth arall yn rheoliadau 2019, nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn ychwaith.

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-05/asesiad-ffaith-rheoleiddiol-drafft.pdf>

Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod effeithiau ehangach pandemig COVID-19 ar awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy na £260 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru i gydnabod y pwysau ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig ac, o ran cymorth i ysgolion, mae £29 miliwn ychwanegol wedi'i neilltuo i recriwtio mwy o athrawon a chynorthwyr addysgu o fis Medi.

Er y byddai'r cynllun cyntaf yn cael ei gyflwyno flwyddyn yn ddiweddarach o dan yr opsiwn hwn, mae'n rhaid cydbwyso effaith hyn yn erbyn y manteision sy'n gysylltiedig â rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddefnyddio eu hadnoddau i ateb heriau eraill a'r tebygolrwydd hefyd y bydd yr amser ychwanegol a fydd ar gael yn arwain at gynlluniau o ansawdd gwell.

Casgliad

Fel y nodwyd uchod, er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol yn dangos yr uchelgais a'r diben a ragwelwyd ar gyfer ymateb i strategaeth Cymraeg 2050, fel y bwriadwyd yn rheoliadau 2019, cred Llywodraeth Cymru fod yn rhaid dewis yr opsiwn o gyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

Asesu'r Gystadleuaeth

Ni fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol ac felly ni ddisgwylir iddi gael unrhyw effaith ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru.

Adolygiad ar ôl gweithredu

Nid yw'r diwygiad hwn yn effeithio ar y mesurau sydd ar waith i sicrhau bod y broses o roi'r rheoliadau hyn ar waith yn cael ei hadolygu'n gyson. Mae'r broses o ddatblygu Cynlluniau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth yn dal i alluogi lefel gymesur o fonitro. Caiff cynllun 10 mlynedd ei lunio a chaiff adroddiad adolygu blynyddol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i nodi'n gyflym unrhyw anawsterau o ran y ddeddfwriaeth, ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i nodi'r cymorth sydd ei angen ar awdurdodau lleol.

Eitem 5.3

SL(5)648 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrï Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestrï Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau"), yn benodol Rhan 4 o'r prif Reoliadau sy'n ymwneud â rhestrï cyflawnwyr deintyddol, er mwyn adlewyrchu'r newid yn sefyllfa cyflogaeth deintyddion sylfaen.

Ar hyn o bryd, mae'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddeintydd sylfaen, at ddibenion ymgymryd â hyfforddiant sylfaen, fod wedi ei gyflogi o dan gontract ar gyfer gwasanaethau gyda hyfforddwr cymeradwy, sy'n ddeintydd at ddibenion y prif Reoliadau.

O 1 Medi 2020, nid oes gan ddeintyddion sylfaen gontract cyflogaeth gyda hyfforddwr cymeradwy mwyach. Yn hytrach, bydd eu contract cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o dan gyfarwyddyd pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a fydd yn gweithredu fel un cyflogwr arweiniol dros bob deintydd sylfaen yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol cymwys yn cyd-fynd â'r newid mewn polisi.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



“The 2020 Regulations will not be subject to public consultation. The Statutory Instrument concerns the principle of amending operational procedures which affect a small number of key stakeholders who have participated in the development of the proposal with HEIW from its inception.

Key stakeholder representatives were invited by HEIW to discuss and develop the draft proposal with the finally agreed proposal published inviting colleagues with an interest across Wales to provide their comments.

The British Dental Association (Wales) have noted the introduction of the amending Regulations.”

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei baratoi mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“On this occasion, a Regulatory Impact Assessment has not been carried out. The 2020 Regulations support an administrative change and not a change in policy. There are no additional costs associated with the 2020 Regulations with no impact on the private, local government or third sector foreseen.”

Fodd bynnag, ar y wyneb, ymddengys bod y Rheoliadau yn cefnogi newid mewn polisi drwy sicrhau mai gydag un cyflogwr arweiniol yw’r contract cyflogaeth ar gyfer deintyddion sylfaen, yn hytrach na gydag unrhyw hyfforddwr cymeradwy arall. Nodir hefyd bod yr adran *“Purpose & intended effect of the legislation”* yn y Memorandwm Esboniadol yn datgan:

*“The Principal Regulations allow NWSSP to accept FDs onto the Performer Lists subject to a 3 months ‘grace period’ but currently require the FD to have a contract of employment with an approved training practice. The Regulations will make the required amendments to the Principal Regulations to facilitate FDs full inclusion to the Dental Performers List from 1 December 2020 and to align the applicable legislative provisions with the **change to policy**.”* [ychwanegwyd pwyslais]

Mae’r Nodyn Esboniadol sy’n cyd-fynd â’r Rheoliadau hefyd yn nodi:

“Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r prif Rheoliadau er mwyn sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol cymwys yn cyd-fynd â’r newid mewn polisi.” [ychwanegwyd pwyslais]

Gofynnir am eglurhad pellach, felly, o’r cyfiawnhad ar gyfer diffyg asesiad effaith rheoleiddiol.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru



O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â'r ail bwynt rhinweddau.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Tachwedd 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 72

Legislation, Justice and Constitution Committee

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1207 (Cy. 272)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr)
(Cymru) (Diwygio) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau"), yn benodol Rhan 4 o'r prif Reoliadau sy'n ymwneud â rhestri cyflawnwyr deintyddol, er mwyn adlewyrchu'r newid yn sefyllfa cyflogaeth deintyddion sylfaen.

Ar hyn o bryd, mae'r prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddeintydd sylfaen, at ddibenion ymgymryd â hyfforddiant sylfaen, fod wedi ei gyflogi o dan gontract ar gyfer gwasanaethau gyda hyfforddwr cymeradwy, sy'n ddeintydd at ddibenion y prif Reoliadau.

O 1 Medi 2020, nid oes gan ddeintyddion sylfaen gontract cyflogaeth gyda hyfforddwr cymeradwy mwyach. Yn hytrach, bydd eu contract cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o dan gyfarwyddyd pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a fydd yn gweithredu fel un cyflogwr arweiniol dros bob deintydd sylfaen yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol cymwys yn cyd-fynd â'r newid mewn polisi.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 28 (dehongli) o'r prif Reoliadau. Mae'n diwygio'r diffiniadau o "approved trainer" a "foundation training" i adlewyrchu'r symud i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o dan gyfarwyddyd pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fel un cyflogwr arweiniol dros ddeintyddion sylfaen. Mae diffiniadau o "HEIW", "NWSSP committee" a "Velindre University NHS Trust" hefyd wedi eu mewnosod yn rheoliad 28 o'r prif Reoliadau.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 30 o'r prif Reoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol na chaiff deintyddion sylfaen, fel rhan o'r ymgymeriadau y mae'n ofynnol i'r deintydd sylfaen eu rhoi yn rheoliad 30(2), gyflawni unrhyw wasanaethau deintyddol sylfaenol ac eithrio wrth weithredu yn unol â'u contract cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1207 (Cy. 272)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr)
(Cymru) (Diwygio) 2020**

Gwnaed 3 Tachwedd 2020

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 5 Tachwedd 2020

Yn dod i rym 1 Rhagfyr 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 63 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004(2).

Diwygio rheoliad 28 o'r prif Reoliadau

2.—(1) Mae rheoliad 28 (dehongli) o'r prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 28(2)—

-
- (1) 2006 p. 42. *Gweler* adran 206(1) am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
- (2) O.S. 2004/1020 (Cy. 117). Mewnosodwyd Rhan 4 o'r prif Reoliadau gan reoliad 11 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/945 (Cy. 94)) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2016/101 (Cy. 49). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

- (a) yn y diffiniad o “approved trainer”—
 - (i) yn lle “a postgraduate dental dean or a director of postgraduate dental education” rhodder “HEIW”, a
 - (ii) yn lle “him or her” rhodder “the dentist”;
- (b) hepgorer y diffiniad o “postgraduate dental dean or director of postgraduate dental education”;
- (c) yn y diffiniad o “foundation training”—
 - (i) ar ôl “service by” mewnosoder “Velindre University NHS Trust under the direction of the NWSSP committee, and during that period the dentist must attend the practice of”,
 - (ii) ar ôl “trainer” mewnosoder “who has agreed with HEIW to supervise the provision by the dentist of”,
 - (iii) hepgorer “to provide”, a
 - (iv) ar ôl “treatment and” mewnosoder “for the dentist”;
- (d) ar ôl y diffiniad o “Health Committee” mewnosoder—

““HEIW” means Health Education and Improvement Wales, the Special Health Authority established by article 2 of the Health Education and Improvement Wales (Establishment and Constitution) Order 2017⁽¹⁾, which must exercise its functions in relation to the planning, commissioning, delivery and quality assurance of education and training for persons engaged in the provision of health services in Wales and which, for the purposes of this Part, is responsible for the arrangement and provision of a suitable learning environment for dentists performing primary dental services to enable dentists to meet the requirements and standards of the General Dental Council and Welsh Government;

“NWSSP committee” means NHS Wales Shared Services Partnership, established by the Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee (Wales) Regulations 2012⁽²⁾, which is responsible for exercising functions of Velindre University NHS Trust in relation to shared services, policy and strategy, and the management and provision of shared services to the health service in Wales;”;

- (e) yn y diffiniad o “scheme”, hepgorer “and”;

(1) O.S. 2017/913 (Cy. 224).
 (2) O.S. 2012/1261 (Cy. 156).

- (f) ar ôl y diffiniad o “scheme” mewnosoder—
““Velindre University NHS Trust” means the NHS trust(1) established by article 2 of the Velindre National Health Service Trust (Establishment) Order 1993(2);”.

(3) Yn rheoliad 28(3)—

- (a) yn is-baragraff (a), ar ôl “employment” mewnosoder “with Velindre University NHS Trust under the direction of NWSSP”;
- (b) yn y geiriau ar ôl is-baragraff (c)(v)—
- (i) yn lle “a postgraduate dental dean or director of postgraduate dental education” rhodder “HEIW”, a
- (ii) yn lle “he or she” rhodder “the dentist”.

Diwygio rheoliad 30 o’r prif Reoliadau

3.—(1) Mae rheoliad 30 o’r prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 30(2)(b)(i), ar ôl “acting” mewnosoder “in accordance with the terms of the contract of employment for service with Velindre University NHS Trust and”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
3 Tachwedd 2020

(1) Gweler adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).

(2) O.S. 1993/2838, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/887 (Cy. 176); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn .

Explanatory Memorandum to accompany the National Health Service (Performers Lists) (Wales) (Amendment) Regulations 2020

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Primary Care Division of the Directorate of Primary Care and Health Science and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the National Health Service (Performers Lists) (Wales) (Amendment) Regulations 2020. I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Vaughan Gething
Minister for Health and Social Services
5 November 2020

1. Description

The National Health Service (Performers Lists) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (“the Regulations”) amend Part 4 of the National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004 (“the Principal Regulations”) in relation to Dental Performers Lists.

2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

None.

3. Legislative background

The Regulations will be made pursuant to the Welsh Ministers’ powers under sections 63 and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006. Section 63(3) includes that Regulations under section 63(1) may include provision as to eligibility for inclusion into a list. Section 18 of the Legislation (Wales) Act 2019 provides that the power to make subordinate legislation includes the power to amend it.

The Regulations are being made under the negative resolution procedure.

4. Purpose & intended effect of the legislation

The purpose of the Regulations is to align the legislation with the policy position with regard to new arrangements managed by Health Education and Improvement Wales (HEIW) which commenced on 1 September 2020, whereby Foundation Dentists (FDs – (trainees)) no longer hold a contract of employment with an individual dentist (the trainer) in a training practice.

From 1 September 2020, all FDs have moved to a single lead employer (SLE), operated and administered by the NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP), who already administer the GP specialty employment contract in Wales. As well as releasing time for the training practices and trainees, this arrangement also has additional benefits in terms of centralisation and consistency with regard to human resources, including employment conditions and performance management.

The purpose of the Dental Performers List established by the Principal Regulations is to ensure that dentists are suitable to undertake primary dental services and to protect patients from any performers who are not suitable, or whose efficiency to perform those services may be impaired.

The Principal Regulations allow NWSSP to accept FDs onto the Performer Lists subject to a 3 months ‘grace period’ but currently require the FD to have a contract of employment with an approved training practice. The Regulations will make the required amendments to the Principal Regulations to facilitate

FDs full inclusion on to the Dental Performers List from 1 December 2020 and to align the applicable legislative provisions with the change to policy. The relevant definitions applicable to Part 4 in regulation 28 of the Principal Regulations are amended by the Regulations to reflect the move to Velindre University NHS Trust under the direction of the NWSSP committee as single lead employer for foundation dentists. The Regulations also insert new definitions of HEIW, NWSSP committee and Velindre University NHS Trust into regulation 28 of the Principal Regulations.

5. Consultation

The 2020 Regulations will not be subject to public consultation. The Statutory Instrument concerns the principle of amending operational procedures which affect a small number of key stakeholders who have participated in the development of the proposal with HEIW from its inception.

Key stakeholder representatives were invited by HEIW to discuss and develop the draft proposal with the finally agreed proposal published inviting colleagues with an interest across Wales to provide their comments.

The British Dental Association (Wales) have noted the introduction of the amending Regulations.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

On this occasion, a Regulatory Impact Assessment has not been carried out. The 2020 Regulations support an administrative change and not a change in policy. There are no additional costs associated with the 2020 Regulations with no impact on the private, local government or third sector foreseen.

SL(5)651 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") i dynnu Denmarc oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y Rheoliadau hynny ac i wneud darpariaethau trosiannol.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4:00am ar 6 Tachwedd 2020. Nodir bod darpariaethau deddfwriaethol pellach mewn perthynas â theithio o Ddenmarc wedi dod i rym am 4:00 am ar 7 Tachwedd 2020 trwy'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio a Chyfyngiadau Rhyngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2020.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Mae'r 5 pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Hawliau Dynol

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020:



“Nid yw'r diwygiadau yn y ddau set o Reoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.”

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Ymgynghoriad

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau Rhif 18 [...].”

Mewn llythyr at y Llywydd oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd dyddiedig 6 Tachwedd 2020, eglurir hefyd:

“Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.”

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn, nac ar gyfer y prif Reoliadau, a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn neu'r prif Reoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Torri'r rheol 21 diwrnod a dod i rym cyn gosod

Nodwn:

- Daeth y Rheoliadau hyn i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd; a
- Torri'r rheol 21 diwrnod (hynny yw, y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym).

Mae esboniad wedi'i roi gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 6 Tachwedd 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:



“Dros nos, daeth yn angenrheidiol i wneud y Rheoliadau uchod, ac yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn heb gadw at y confensiwn 21 diwrnod a wedi dod i rym cyn y gellid ei osod. [...]

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i dynnu Denmarc oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newid hwn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan y rhai sy'n cyrraedd o'r wlad hon.”

Rydym hefyd yn nodi esboniad y Llywodraeth yn y Memorandwm Esboniadol sef ei bod hi'n angenrheidiol *“i dynnu Denmarc ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig”* oherwydd *“bod risgiau iechyd yn dod i'r amlwg yn cael eu hadrodd o ffermydd mincod yn Nenmarc, a'r angen i weithredu cyn i fwy o deithio rhyngwladol o Ddenmarc gyrraedd y DU.”*

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Dogfen eglurhaol

Rydym yn nodi ac yn croesawu cyhoeddi [dogfen eglurhaol](#) gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi'r amryw ddiwygiadau a wnaed i'r prif Reoliadau er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y prif Reoliadau.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r trydydd pwynt rhinweddau a nodwyd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Tachwedd 2020



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1223 (Cy. 277)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 18) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) er mwyn hepgor Denmarc o restr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y Rheoliadau hynny ac i wneud darpariaeth drosiannol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1223 (Cy. 277)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 18) 2020

Gwnaed 5 Tachwedd 2020

Yn *dod*
i rym *am 4.00 a.m. ar 6 Tachwedd 2020*

Gossodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *am 3.00 p.m. ar 6 Tachwedd 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 6 Tachwedd 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(2).

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(2) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190),

Heggor Denmarc o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt Darpariaeth drosiannol

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), heggorer "Denmarc".

Darpariaeth drosiannol

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 6 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod yn Nenmarc ddiwethaf—
 - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
 - (ii) cyn 4.00 a.m. ar 6 Tachwedd 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn Nenmarc, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Iechyd, un o
Weinidogion Cymru
5 Tachwedd 2020

O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263) ac O.S. 2020/1191 (W. 269).

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Tachwedd 2020

1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, roedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r ddau set o Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r "Rheoliadau Rhif 18 yn ystyried y risg sy'n dod i'r amlwg sy'n codi yn Nenmarc, a'r "Rheoliadau Rhif 19" yn gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn dod i rym

Yn unol ag adranau 491) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bod y Rheoliadau Rhif 18 wedi dod i rym cyn iddynt gael eu gosod. Hysbyswyd y Llywydd hefyd fod Rheoliadau Rhif 19 am ddod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn yn y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y ddau set o Reoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

Dogfen enghreifftiol o welliannau

Mae dogfen enghreifftiol sy'n dangos diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi'i chyhoeddi ar wefan llyw.cymru:

<https://llyw.cymru/rheoliadau-diogelu-iechyd-coronafeirws-teithio-rhyngwladol-cymru-2020-fel-yu-diwygiwyd>

<https://gov.wales/health-protection-coronavirus-international-travel-wales-regulations-2020-amended>

Bydd yn cael ei diweddarau i gynnwys y diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y ddau set o Reoliadau hyn.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r manau hynny – yn fwyaf diweddar yn hwyr neithiwr pryd a wneud y Rheoliadau Rhif 19 i dynnu Denmarc ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig o 04:00am heddiw, dydd Gwener 6 Tachwedd 2020. Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd bod risgiau iechyd yn dod i'r amlwg yn cael eu hadrodd o ffermydd mincod yn Nenmarc, a'r angen i weithredu cyn i fwy o deithio rhyngwladol o Ddenmarc gyrraedd y DU.

Hefyd mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Biddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi cynyddu yn yr Almaen a Sweden. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gofynion i ynysu yn awr gael eu cyflwyno i deithwyr sy'n dod i Gymru o'r gwledydd hynny hefyd.

Bydd y gofynion diwygiedig hyn yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r Almaen a Sweden hyn am 4:00am neu wedi hynny ar ddydd Sul 7 Tachwedd 2020.

Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a wnaed gan y Rheoliadau diwygio diweddaraf yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau Rhif 18 a Rhif 19.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau Rhif 18 a Rhif 19 oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Ein cyf/Our ref: RE-379-20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Tachwedd 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 18) 2020**

Dros nos, daeth yn angenrheidiol i wneud y Rheoliadau uchod, ac yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn heb gadw at y confensiwn 21 diwrnod a wedi dod i rym cyn y gellid ei osod. Gosodaf yr offeryn a Memorandwm Esboniadol yn ddiweddarach heddiw.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i dynnu Denmarc oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newid hwn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan y rhai sy'n cyrraedd o'r wlad hon.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG

GAN

LYWODRAETH CYMRU

TEITL Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)

DYDDIAD 6 Tachwedd 2020

GAN Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, a darparu gwybodaeth am deithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau hyn i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i hunanynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth am deithwyr.

Ers hynny, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Ddoe, derbyniais lythyr gan Grant Schapps, Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth Llywodraeth y DU, yn rhoi gwybod i mi am adroddiadau gan awdurdodau iechyd Denmarc ynghylch achosion eang o SARS-CoV-2 ar ffermydd minc, a bod amrywiolyn minc o'r feirws wedi lledaenu i'r gymuned leol. Nodwyd o leiaf saith mwtaniad unigryw i'r feirws mewn minc. Mae un o'r amrywiolion firsau hyn, gyda phedwar newid yn y protein sbigyn, wedi'i ganfod ar bum fferm minc ac mewn 12 o bobl yn y gymuned gyfagos.

Cyfarfu'r pedwar Prif Swyddog Meddygol neithiwr i drafod y datblygiad hwn, a phenderfynwyd y dylid cymryd camau i dynnu Denmarc o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig o 04:00am heddiw, dydd Gwener 6 Tachwedd. Daeth rheoliadau a oedd yn gweithredu'r newid hwnnw i rym am 04:00am y bore yma. Bydd yn ofynnol i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru o Ddenmarc ar ôl yr amser hwn ddilyn yr gofynion hunanynysu a'r gofynion eraill a nodir yn y Rheoliadau.

Mae hyn yn ychwanegol at y penderfyniad i dynnu'r Almaen a Sweden o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig, a ddaw i rym am 04:00am ddydd Sadwrn 7 Tachwedd fel y nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ddoe.

Eitem 5.5

SL(5)652 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") er mwyn hepgor yr Almaen a Sweden o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y prif Reoliadau ac i wneud darpariaethau trosiannol. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad technegol i destun Cymraeg y prif Reoliadau er mwyn rhoi effaith i ddarpariaethau Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 am ar 7 Tachwedd 2020.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau hyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Hawliau Dynol

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, rydym yn nodi eglurhad y Llywodraeth a gynhwyswyd yn y Memorandwm Esboniadol bod cyngor "sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Biddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi cynyddu yn yr Almaen a Sweden".



Yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y canlynol:

Nid yw'r diwygiadau yn y ddau set o Reoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Ymgynghoriad

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau [...] Rhif 19"

Mewn llythyr at y Llywydd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, dyddiedig 6 Tachwedd 2020, eglurir y canlynol hefyd:

"Oherwydd natur frys y Rheoliadau ni chynhaliwyd ymgynghoriad."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn, nac ychwaith ar gyfer y prif Reoliadau, a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn neu'r prif Reoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Torri'r rheol 21 diwrnod

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a roddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 6 Tachwedd 2020.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:



“Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.”

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Dogfen eglurhaol

Rydym yn nodi ac yn croesawu cyhoeddiad [dogfen eglurhaol](#) gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi'r amrywiol ddiwygiadau a wnaed i'r prif Reoliadau er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y prif Reoliadau.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â'r trydydd pwynt rhinweddau.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 11 Tachwedd 2020



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1232 (Cy. 278)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 19) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosoglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau

sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor yr Almaen a Sweden o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad technegol i destun Cymraeg Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn rhoi effaith i ddarpariaethau Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020. Mae'r Gorchymyn hwnnw'n gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn dilyn uno'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1232 (Cy. 278)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 19) 2020

Gwnaed am 2.10 p.m. ar 6 Tachwedd 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 3.00 p.m. ar 6 Tachwedd 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd
2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1).

RHAN 2

Heggor gwledydd o’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Heggor gwledydd o’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i’r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

“Yr Almaen”

“Sweden”.

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod yn yr Almaen neu yn Sweden ddiwethaf—
 - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy’n dod i ben â’r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
 - (ii) cyn 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn yr Almaen neu yn Sweden, i’w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw’n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o’r fath.

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/942, O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269) ac O.S. 2020/1223 (Cy. 277).

RHAN 3

Diwygiadau i destun Cymraeg Rhan 1 o
Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiadau i Ran 1 o Atodlen 2 (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 4, 5, 7 nac 8)

4. Yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 4, 5, 7 nac 8), yn y testun Cymraeg, ym mharagraff 1(2)(a) a (b), yn lle “Swyddfa Dramor a Chymanwlad” rhodder “Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu”.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 2.10 p.m. ar 6 Tachwedd 2020

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Tachwedd 2020

1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, roedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r ddau set o Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r "Rheoliadau Rhif 18 yn ystyried y risg sy'n dod i'r amlwg sy'n codi yn Nenmarc, a'r "Rheoliadau Rhif 19" yn gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn dod i rym

Yn unol ag adranau 491) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bod y Rheoliadau Rhif 18 wedi dod i rym cyn iddynt gael eu gosod. Hysbyswyd y Llywydd hefyd fod Rheoliadau Rhif 19 am ddod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn yn y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y ddau set o Reoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

Dogfen enghreifftiol o welliannau

Mae dogfen enghreifftiol sy'n dangos diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi'i chyhoeddi ar wefan llyw.cymru:

<https://llyw.cymru/rheoliadau-diogelu-iechyd-coronafeirws-teithio-rhyngwladol-cymru-2020-fel-yu-diwygiwyd>

<https://gov.wales/health-protection-coronavirus-international-travel-wales-regulations-2020-amended>

Bydd yn cael ei diweddarau i gynnwys y diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y ddau set o Reoliadau hyn.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r manau hynny – yn fwyaf diweddar yn hwyr neithiwr pryd a wneud y Rheoliadau Rhif 19 i dynnu Denmarc ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig o 04:00am heddiw, dydd Gwener 6 Tachwedd 2020. Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd bod risgiau iechyd yn dod i'r amlwg yn cael eu hadrodd o ffermydd mincod yn Nenmarc, a'r angen i weithredu cyn i fwy o deithio rhyngwladol o Ddenmarc gyrraedd y DU.

Hefyd mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Boddlogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi cynyddu yn yr Almaen a Sweden. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gofynion i ynysu yn awr gael eu cyflwyno i deithwyr sy'n dod i Gymru o'r gwledydd hynny hefyd.

Bydd y gofynion diwygiedig hyn yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r Almaen a Sweden hyn am 4:00am neu wedi hynny ar ddydd Sul 7 Tachwedd 2020.

Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a wnaed gan y Rheoliadau diwygio diweddaraf yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau Rhif 18 a Rhif 19.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau Rhif 18 a Rhif 19 oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Ein cyf/Our ref: MA/VG/3770/20

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru

6 Tachwedd 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 19) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er eich gwybodaeth, byddwch yn nodi bod hyn hefyd yn cynnwys y Rheoliadau a wnaed dros nos a ysgrifennais atoch yn gynharach heddiw oddeutu.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i dynnu'r Almaen a Sweden oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd hynny.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG

GAN

LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)
DYDDIAD	5 Tachwedd 2020
GAN	Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, a darparu gwybodaeth am deithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau hyn i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i hunanynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth am deithwyr.

Ers hynny, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch ac rwyf wedi penderfynu y bydd yr Almaen a Sweden yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Felly bydd rhaid i deithwyr o'r gwledydd hynny hunanynysu pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Yfory, byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a ddaw i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 7 Tachwedd.

SL(5)649 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod nifer o gyfyngiadau a gofynion mewn ymateb i'r risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r Coronafeirws, ar ôl i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 ddod i ben ar 8 Tachwedd.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 9 Tachwedd 2020 a byddant yn dod i ben ar 19 Chwefror 2021, oni bai eu bod yn cael eu dirymu cyn hynny. Rhaid adolygu'r Rheoliadau erbyn 19 Tachwedd, o leiaf unwaith rhwng 20 Tachwedd a 3 Rhagfyr, o leiaf unwaith rhwng 4 Rhagfyr a 17 Rhagfyr ac o leiaf unwaith bob 21 diwrnod ar ôl hynny.

Mae 9 Rhan i'r Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth yn y meysydd allweddol a ganlyn:

- a) gwahardd cynullïadau mewn annedd preifat, ac eithrio gydag aelodau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig, heb esgus rhesymol;
- b) caniatáu i hyd at ddwy aelwyd gytuno i ffurfio aelwyd estynedig (ni fydd hyn yn gyfyngedig i amgylchiadau lle mae gan un aelwyd dim ond un aelod sy'n oedolyn);
- c) gwahardd cynullïadau mewn mannau cyhoeddus heb esgus rhesymol, ond
 - a. caniatáu i hyd at bedwar o bobl o unrhyw aelwyd, neu unrhyw nifer o aelodau o'r un aelwyd, ymgynnull yn yr awyr agored neu mewn mangre reoledig;
 - b. caniatáu i aelwyd estynedig ymgynnull yn yr awyr agored;
 - c. caniatáu cynullïadau o hyd at 15 y tu mewn neu 30 yn yr awyr agored gymryd rhan mewn gweithgaredd a drefnir gan gorff cyfrifol;
- d) caniatáu teithio o fewn ac ar draws Cymru, ond gwahardd teithio allan o Gymru ac i mewn heb esgus rhesymol;
- e) cyflwyno gofynion i bobl hunanynysu os ydyn nhw wedi cael canlyniad prawf positif am y Coronafeirws, neu wedi cael eu hysbysu i wneud hynny gan swyddog olrhain cysylltiadau;
- f) gosod rhwymedigaethau ar bersonau sy'n gyfrifol am fangre sy'n agored i'r cyhoedd, neu am waith sy'n cael ei wneud mewn unrhyw fangre, i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â, neu ledaenu'r Coronafeirws – gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr alluogi neu ganiatáu i weithwyr hunanynysu pan fydd yn ofynnol i'r gweithiwr wneud hynny gan swyddog olrhain cysylltiadau;



- g) ei gwneud yn ofynnol i wisgo gorchuddion wyneb ar drafndiaeth gyhoeddus ac yn ardaloedd cyhoeddus mangroedd dan do, yn ddarostyngedig i rai esemptiadau ac eithriadau.

I grynhoi:

Mae Rhan 2 yn gosod cyfyngiadau ar gyfarfod â phobl eraill. Fodd bynnag, gall person fod mewn cynulliad os oes ganddo esgus rhesymol, naill ai pan fydd yn rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall yn rhesymol ymarferol, neu mewn amgylchiadau penodol fel yr amlinellir yn y rheoliadau. Mewn anheddau preifat (gan gynnwys gerddi), dim ond gydag aelodau o'u haelwyd a'u haelwyd estynedig y gall pobl ymgynnull. Gall pob oedolyn ffurfio aelwyd estynedig mewn uchafswm o ddwy aelwyd sy'n cytuno. Y tu allan i anheddau preifat, gall pobl ymgynnull yn yr awyr agored mewn grwpiau o hyd at bedwar (nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cyfrif), neu gydag aelodau o'u haelwyd eu hunain ac aelwyd estynedig (waeth beth yw'r nifer). Mewn llety mewn gwesty neu lety gwyliau arall, dim ond gydag aelodau o'u haelwyd eu hunain y gall pobl ymgynnull. Mewn mannau dan do eraill, gall pobl ymgynnull gydag aelodau o'u haelwyd eu hunain neu mewn grwpiau o hyd at bedwar (nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cyfrif). Mae Rhan 2 hefyd yn gwahardd trefnu digwyddiadau a gynhelir yn bennaf y tu mewn ar gyfer mwy na 15 o bobl, neu yn yr awyr agored ar gyfer mwy na 30 o bobl, yn amodol ar eithriadau. Gwaherddir digwyddiadau cerddoriaeth penodol sydd heb eu trwyddedu hefyd.

Mae Rhan 3 yn gwahardd pobl rhag mynd i Gymru neu ymadael â Chymru, yn amodol ar eithriadau. Mae'r Rheoliadau'n darparu enghreifftiau o ddibenion y gallai fod yn rhesymol angenrheidiol i berson fynd i Gymru neu ymadael â Chymru, ac maent yn darparu amgylchiadau penodol lle caniateir teithio. Caniateir teithio o fewn Cymru.

Mae Rhan 4 yn gosod gofynion newydd ar bobl sydd wedi cael canlyniad positif am y Coronafeirws a'u cysylltiadau agos. Mae'n ofynnol i oedolion a phlant sydd wedi cael canlyniad positif, a phobl sydd wedi cael "cysylltiad agos" â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif, ac sydd wedi cael eu hysbysu gan swyddog olrhain cysylltiadau i beidio â gadael y lle maen nhw'n byw tan ddiwedd y diwrnod olaf o'u hynysiad. Y cyfnod ynysu yn gyffredinol yw 10 diwrnod i'r rheini sydd wedi cael canlyniad positif a 14 diwrnod i'r rheini sydd wedi cael cysylltiad agos, ond mae dechrau'r cyfnodau hynny'n amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau (er enghraifft; a yw'r person wedi adrodd ar symptomau neu beidio). Mae'n ofynnol i oedolion sydd â chyfrifoldeb am blentyn y mae'n ofynnol iddo ynysu, i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y plentyn yn hunanyysu. Mae'r rheoliadau'n galluogi swyddogion olrhain cysylltiadau i rannu gwybodaeth i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu a gorfodi'r system hunanyysu.

Mae Rhan 5 ac Atodlen 1 yn ymwneud â busnesau a gwasanaethau y mae'n rhaid i'w mangroedd fod ar gau i'r cyhoedd. Ymhlith y rhai y mae'n ofynnol iddynt gau at aelodau'r cyhoedd mae neuaddau cyngerdd, lleoliadau adloniant i oedolion, theatrau a chlybiau nos. Mae Rhan 5 hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n gwahardd alcohol rhag cael ei werthu, ar



fangreoedd sydd â thrwydded i'w werthu, ar ôl 10.00 p.m. ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r fangreoedd fod ar gau erbyn 10.20 p.m. ar yr hwyraf.

Mae Rhan 6 ac Atodlen 2 yn cynnwys darpariaeth sy'n gosod gofynion ar "fangre reoleiddiedig" (mangre sydd ar agor i'r cyhoedd neu lle mae gwaith yn cael ei gynnal) i gymryd mesurau rhesymol at ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r Coronafeirws, a lledaeniad y feirws. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r gofynion i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mewn tacsis, ac mewn mannau penodol o dan do, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau.

Mae Rhan 7 ac Atodlen 3 yn ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion, gan gynnwys pwy all gymryd camau gorfodi, cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio, pwerau i symud a gwasgaru cynullïadau, pwerau i atal digwyddiadau, pwerau i gyfarwyddo pobl sy'n torri cyfarwyddyd i hunanynysu i ddychwelyd adref a gorfodi'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb. Mae'n darparu ar gyfer pŵer i fynd i fangre, i'r heddlu gynnal archwiliadau ar y ffyrdd ac i ddefnyddio grym rhesymol mewn rhai amgylchiadau.

Mae Rhan 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau a chosbau. Mae hyn yn cynnwys troseddau y gellir cyhoeddi rhybudd cosb benodedig ar eu cyfer fel dewis arall yn lle dwyn achos llys.

Mae Rhan 9 yn gwneud diwygiad canlyniadol ac yn cynnwys termau diffiniedig, gan gynnwys y diffiniad o weithgaredd "wedi ei drefnu" at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Nid oes unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt wedi eu nodi o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



“Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae angen i unrhyw ymyrraeth yn yr hawliau hyn hefyd gael ei gydbwysu yn erbyn rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae gweithredu cyfyngiadau a gofynion cenedlaethol newydd o dan y Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad cynyddol y Coronafeirws dros yr wythnosau diwethaf. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y Coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i leihau'r cynnydd yng nghyfradd drosglwyddo'r Coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.”

2. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol a achosir gan y Coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Wrth benderfynu ar yr angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau hyn, a'u manylion, yr wyf i, ynghyd â Gweinidogion eraill a swyddogion Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol, arweinwyr busnes ac undebau llafur yng Nghymru, ac rydym yn parhau i gynnal trafodaethau o'r fath. Cyhoeddais yn fy natganiad i'r Aelodau ar 3 Tachwedd fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r newidiadau a gyflawnir yn y Rheoliadau hyn, ac adroddwyd am hynny yn eang wedyn.”

3. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn mynd i'r



afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu bod crynodeb o'r asesiad effaith integredig wedi'i baratoi ac y bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan llyw.cymru: <https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws>.

4. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y darn canlynol o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyfeirio at dystiolaeth wyddonol a dynnwyd arni er mwyn asesu'r risg i iechyd y cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu fel a ganlyn:

"Er na fydd effaith y cyfnod atal byr ar gyfradd atgynhyrchu COVID-19 yn gwbl hysbys am rai wythnosau, diben gwneud y Rheoliadau [Rhif 3] oedd darparu amodau a fyddai'n arwain at ostyngiad yn y gyfradd atgynhyrchu. Mae'r dystiolaeth wyddonol a ddefnyddir i asesu'r risg i iechyd y cyhoedd d yn cael ei darparu gan [Gell Cyngor Technegol](#) Llywodraeth Cymru ac mae ar gael ar wefan llyw.cymru."

O ran y Rheoliadau hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru nodi dystiolaeth a oedd yn dangos y dylid gosod cyfyngiadau a gofynion ar sail Cymru gyfan.

Yn benodol, dystiolaeth a ddangosodd y dylai ardaloedd yng Nghymru sydd â'r nifer uchaf o achosion Covid-19 fod yn ddarostyngedig i lacio cyfyngiadau a gofynion pan ddaw Rheoliadau Rhif 3 i ben. Roedd nifer yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yr uchaf yng Nghymru ar 9 Tachwedd, fel y cyhoeddwyd gan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#).

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y Coronafeirws, mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pedwerydd pwynt rhinweddau yn unig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Tachwedd 2020



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1219 (Cy. 276)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
4) (Cymru) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau yn gosod gofynion a chyfyngiadau ar unigolion, busnesau ac eraill.

Mae 9 Rhan i'r Rheoliadau.

Mae **Rhan 1** yn darparu y daw'r Rheoliadau hyn i rym ar **9 Tachwedd 2020** a bod rhaid eu hadolygu erbyn 19 Tachwedd, o leiaf unwaith yn y cyfnod o 20 Tachwedd i 3 Rhagfyr, o leiaf unwaith yn y cyfnod o 4 Rhagfyr i 17 Rhagfyr, ac o leiaf unwaith pob 21 o ddiwrnodau ar ôl hynny. Mae hefyd yn darparu, oni chaiff y Rheoliadau eu dirymu neu eu diwygio cyn hynny, eu bod yn dod i ben ar 19 Chwefror 2021.

Mae **Rhan 2** yn gosod cyfyngiadau ar gyfarfod â phobl eraill (y cyfeirir ato fel cymryd rhan mewn cynullïadau) ac ar ddigwyddiadau. Mae rheoliad 4 yn cyfyngu ar gynullïadau yng nghartrefi pobl (gan gynnwys eu gerddi) i ddim ond y rheini sy'n rhan o aelwyd estynedig (neu "swigen"). Mae rheoliad 5 yn darparu y caniateir ffurfio aelwyd estynedig pan fydd pob oedolyn ar hyd at 2 aelwyd yn cytuno i gael eu trin fel 1 aelwyd at ddiben cyfarfod yng nghartrefi pobl neu ar gyfer cyfarfod yn yr awyr agored (ac eithrio mewn mangre reoleiddiedig). Mae rheoliad 6 yn cynnwys cyfyngiad ar gyfarfod i ffwrdd o gartrefi pobl. Yn yr achos hwnnw, mae cynullïadau wedi eu cyfyngu i 4 o bobl, heb gynnwys plant o dan 11 oed. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gymwys i lety gwyliau na llety teithio pan fo'r cynullïad wedi ei gyfyngu i bobl sy'n aelodau o'r un aelwyd. Mae'r cyfyngiadau yn rheoliadau 4 a 6 ill dau yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau penodol a restrir, ac yn ddarostyngedig i sefyllfaoedd pan fo'n gallu bod yn rhesymol angenrheidiol ymgynnull ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol. Caiff mwy na 4 o bobl ymgynnull os ydynt i gyd yn rhan o'r un aelwyd, neu os ydynt yn cyfarfod yn yr awyr agored (ac eithrio mewn mangre reoleiddiedig) os ydynt i gyd yn rhan o'r un aelwyd estynedig. Mae eithriadau yn cynnwys gweithgareddau penodol "wedi eu trefnu" sy'n cynnwys hyd at 15 o bobl sy'n cyfarfod o dan do a 30 o bobl sy'n cyfarfod yn yr awyr agored. Rhaid cymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws yn ystod gweithgareddau wedi eu trefnu ac ni chaniateir iddynt ddigwydd yng nghartrefi pobl. Mae rheoliadau 7 a 8 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch digwyddiadau sy'n annog pobl i ymgynnull yn anghyfreithlon.

Mae **Rhan 3** yn ymwneud â theithio. Mae rheoliad 9 yn gwahardd pobl rhag mynd i Gymru neu ymadael â Chymru. Mae hyn unwaith eto yn ddarostyngedig i eithriadau penodol a restrir, ac yn ddarostyngedig i sefyllfaoedd pan fo'n gallu bod yn rhesymol angenrheidiol teithio ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol. Nid oes unrhyw waharddiad ar deithio o fewn Cymru.

Mae **Rhan 4** yn gosod gofynion ar bobl sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws a'u cysylltiadau agos. Mae rheoliadau 11 a 12 yn darparu na chaiff oedolion na phlant sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws ymadael â'r man lle y maent yn byw tan ddiwedd diwrnod olaf eu hynysiad (ac eithrio o dan yr amgylchiadau y darperir ar eu cyfer gan reoliad 15). Cyfrifir diwrnod olaf eu hynysiad yn unol â rheoliadau 11 a 12. Mae rheoliadau 13 a 14 yn darparu na chaiff pobl sydd wedi cael "cysylltiad agos" â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws ymadael â'r man lle y maent yn byw tan ddiwedd diwrnod olaf eu hynysiad (ac eithrio o dan yr

amgylchiadau y darperir ar eu cyfer gan reoliad 15). Cyfrifir diwrnod olaf eu hynysiad yn unol â rheoliadau 13 a 14. Mae rheoliad 16 yn ymwneud â rhwymedigaethau oedolion mewn cysylltiad â phlant y mae'n ofynnol iddynt ynysu, mae rheoliad 17 yn galluogi i hysbysiadau a roddir o dan y Rhan hon gan swyddogion olrhain cysylltiadau gael eu tynnu'n ôl ac mae rheoliad 18 yn gwneud darpariaeth ynghylch defnyddio'r wybodaeth a ddelir gan swyddogion olrhain cysylltiadau.

Mae **Rhan 5** yn ymwneud â busnesau a gwasanaethau y mae eu mangreoedd ar agor i'r cyhoedd fel arfer. Mae rheoliad 19 yn darparu bod rhaid i fangreoedd busnesau a gwasanaethau a restrir yn Atodlen 1 fod ar gau i'r cyhoedd (er nad yw hyn yn atal gweithgareddau penodol rhag digwydd yn y fangre). Mae rheoliad 20 yn gosod cyfyngiadau ar fusnesau y mae eu mangreoedd wedi eu trwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol. Mae'r rhain yn gwahardd alcohol rhag cael ei werthu ar ôl 10.00 p.m. ac yn ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd fod ar gau erbyn 10.20 p.m. ar yr hwyraf.

Mae **Rhan 6** yn gwneud darpariaeth at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mannau lle y mae pobl yn dod ynghyd. Mae rheoliad 21 yn gymwys i "mangreoedd rheoleiddiedig" (unrhyw fan sydd ar agor i'r cyhoedd neu lle y gwneir gwaith) ac yn ei gwneud yn ofynnol: (1) i bob mesur rhesymol gael ei gymryd i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre; (2) i unrhyw fesurau rhesymol eraill gael eu cymryd, er enghraifft i gyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb a chynnal hylendid; a (3) i wybodaeth gael ei darparu i'r rheini sy'n mynd i fangre neu'n gweithio mewn mangre ynghylch sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae hefyd yn pennu y gall stopio gweithgaredd, cau rhan o fangre, caniatáu i staff ynysu a chasglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth y rheini sydd yn y fangre fod yn fesurau rhesymol. Mae mesurau penodol hefyd yn gymwys i leoliadau lletygarwch. Mae rheoliadau 22 a 23 yn darparu bod rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mewn tacsis, ac mewn mannau penodol o dan do, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau a restrir. Mae rheoliad 24 yn darparu i ganllawiau gael eu dyroddi ynghylch cymhwyso'n ymarferol y gofynion a osodir gan y Rhan hon, a bod rhaid i'r rheini y mae'r gofynion yn gymwys iddynt roi sylw i'r canllawiau hynny.

Mae **Rhan 7** yn ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion. Mae rheoliad 25 yn gwneud darpariaeth ynghylch y rheini a gaiff gymryd camau gorfodi, mae rheoliad 26 yn gwneud darpariaeth bellach (yn Atodlenni 3 a 4) ynghylch gorfodi'r angen i gymryd mesurau ataliol o dan reoliad 21, mae rheoliad 27 yn

ymwneud â hysbysiadau cydymffurfio, ac mae rheoliad 28 yn ymwneud â phwerau symud a gwasgaru. Mae rheoliad 29 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi'r gwaharddiad ar ddigwyddiadau penodol. Mae rheoliad 30 yn ymwneud yn benodol â gorfodi'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb ac mae rheoliad 31 yn ymwneud yn benodol â phlant. Mae rheoliad 32 yn cynnwys pŵer i fynd i fangre, mae rheoliad 33 yn ymwneud ag archwiliadau ar y ffyrdd gan yr heddlu ac mae rheoliad 34 yn gwneud darpariaeth ychwanegol am orfodi, gan gynnwys caniatáu i rym rhesymol gael ei ddefnyddio o dan amgylchiadau penodol.

Mae **Rhan 8** yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau a chosbau. Mae rheoliad 35 yn darparu bod person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri gofynion (a restrir) yn y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd. Mae hefyd yn darparu bod cynnal cynulliad mwy mewn annedd breifat yn drosedd, a bod darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i swyddog olrhain cysylltiadau yn drosedd hefyd. Mae'r troseddau honny i'w cosbi drwy ddirwy ddiderfyn. Mae rheoliad 36 yn ymwneud â throseddau gan gyrff corfforedig. Mae rheoliad 37 yn caniatáu i droseddau gael eu cosbi drwy hysbysiadau cosb benodedig, mae rheoliadau 38 i 42 yn ymwneud â swm y gosb ac mae rheoliadau 43 a 44 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch gweinyddu'r cosbau. Mae rheoliad 45 yn ymwneud â hunanargyhuddo ac mae rheoliad 46 yn ymwneud ag erlyn troseddau o dan y Rheoliadau.

Mae **Rhan 9** yn cynnwys termau wedi eu diffinio (rheoliad 47) a diwygiad canlyniadol (rheoliad 48).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1219 (Cy. 276)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
4) (Cymru) 2020**

Gwnaed am 1.14 p.m. ar 5 Tachwedd 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 4.45 p.m. ar 5 Tachwedd 2020*

Yn dod i rym 9 Tachwedd 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyflwyniad, adolygu a dod i ben

Enwi, cychwyn a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Tachwedd 2020.

Adolygu

2. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, a pha un a yw'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

- (a) erbyn 19 Tachwedd 2020;
- (b) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 20 Tachwedd 2020 i 3 Rhagfyr 2020;
- (c) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 4 Rhagfyr 2020 i 17 Rhagfyr 2020;
- (d) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 18 Rhagfyr 2020;
- (e) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.

Dod i ben

3.—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 19 Chwefror 2021.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

RHAN 2

Cyfyngiadau ar gynulladau a digwyddiadau

Cyfyngiad ar gynulladau mewn anheddau preifat

4.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad mewn annedd

breifat gydag unrhyw berson arall ac eithrio aelodau o'i aelwyd neu ei aelwyd estynedig.

(2) At ddibenion paragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau ym mharagraff (4) yn gymwys.

(3) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol ymarferol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(1), pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.

(4) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b) yw bod y person yn—

- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (c) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 4 o bobl pan fo'r holl bersonau yn y cynulliad—
 - (i) yn byw yn yr un fangre, a
 - (ii) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda'i gilydd.

(1) 2006 p. 47. Mewnosodwyd paragraff 7(3B) gan adran 66(2) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2011 (p. 9).

(5) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

Aelwydydd estynedig

5.—(1) Caiff 2 aelwyd gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig at ddibenion rheoliad 4 neu 6(2)(b).

(2) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, rhaid i bob oedolyn ar y 2 aelwyd gytuno.

(3) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o 1 aelwyd estynedig.

(4) Mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw oedolion yn yr aelwyd yn peidio â chytuno i gael eu trin fel pe baent yn rhan o'r aelwyd estynedig.

(5) Os yw aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig gydag unrhyw aelwyd arall.

Cyfyngiad ar gynulliadau mewn mannau cyhoeddus

6.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad—

(a) sy'n digwydd yn unman ac eithrio—

(i) mewn annedd breifat, neu

(ii) mewn llety gwyliau neu lety teithio, a

(b) sy'n cynnwys mwy na 4 o bobl, heb gynnwys—

(i) unrhyw blant o dan 11 oed, na

(ii) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynulliad.

(2) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o'r fath—

(a) sy'n digwydd o dan do neu mewn unrhyw ran o fangre reoleiddiedig sydd yn yr awyr agored, os yw'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd, neu

(b) sy'n digwydd yn yr awyr agored ac eithrio mewn mangre reoleiddiedig, os yw'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad—

(i) yn aelodau o'r un aelwyd, neu

(ii) yn aelodau o'r un aelwyd estynedig.

(3) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy'n digwydd mewn llety gwyliau neu lety teithio oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd.

(4) At ddibenion paragraffau (1) a (3), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau ym mharagraff (6) yn gymwys.

(5) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechniaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (i) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.

(6) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4)(b) yw bod y person yn—

- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (c) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil—
 - (i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil;

- (d) mynd i angladd—
 - (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
 - (e) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 15 o bobl, heb gynnwys personau o dan 11 oed, mewn mangre reoleiddiedig i—
 - (i) dathlu gweinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil sy'n digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;
 - (ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;
 - (f) mynd i addoldy;
 - (g) athletwr elít ac yn hyfforddi neu'n cystadlu;
 - (h) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elít, neu'n darparu cymorth mewn digwyddiad chwaraeon nad yw ond athletwyr elít yn cystadlu ynddo;
 - (i) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu o dan do neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw—
 - (i) lle nad yw mwy na 15 o bobl yn bresennol heb gynnwys personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau elusennol ynddo, a
 - (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;
 - (j) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu yn yr awyr agored neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw—
 - (i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gynnwys personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau elusennol ynddo, a
 - (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;
 - (k) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu, neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).
- (7) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau

7.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu—

- (a) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do lle y mae mwy na 15 o bobl yn bresennol, neu
- (b) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored lle y mae mwy na 30 o bobl yn bresennol,

heb gynnwys personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau elusennol ynddo.

(2) At ddibenion paragraff (1)—

- (a) nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad drwy fynd iddo;
- (b) mae esgus rhesymol yn cynnwys pan fo'r person wedi cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad yw mwy na 15 neu 30 yn bresennol, yn ôl y digwydd;
- (c) nid yw'r canlynol i'w trin yn ddigwyddiadau—
 - (i) arddangos ffilm;
 - (ii) marchnad;
 - (iii) gwasanaeth crefyddol;
 - (iv) digwyddiad chwaraeon nad yw ond athletwyr eifft yn cystadlu ynddo.

Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau cerddoriaeth penodol sydd heb eu trwyddedu

8.—(1) Ni chaiff unrhyw berson ymwneud â threfnu digwyddiad cerddorol perthnasol sydd heb ei drwyddedu.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr “digwyddiad cerddorol perthnasol sydd heb ei drwyddedu” yw digwyddiad—

- (a) y mae mwy na 30 o bobl yn bresennol ynddo,
- (b) lle y mae cerddoriaeth yn cael ei chwarae neu ei pherfformio at ddiben adloniant, neu at ddibenion sy'n cynnwys y diben hwnnw, a
- (c) lle o ran chwarae neu berfformio cerddoriaeth—
 - (i) y mae'n weithgaredd trwyddedadwy (o fewn ystyr Deddf Trwyddedu 2003(1)), a
 - (ii) nas cynhelir o dan awdurdodiad nac yn unol ag awdurdodiad (o fewn yr ystyr a

(1) 2003 p. 17.

roddir i “authorisation” gan adran 136(5)
o’r Ddeddf honno).

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad cerddorol perthnasol sydd heb ei drwyddedu os nad yw’r person ond yn ymwneud â’r digwyddiad drwy fynd iddo.

RHAN 3

Cyfyngiadau ar deithio

Cyfyngiad ar deithio i Gymru ac o Gymru

9.—(1) Ni chaiff unrhyw berson sy’n byw y tu allan i Gymru fynd i Gymru neu aros yng Nghymru heb esgus rhesymol.

(2) Ni chaiff unrhyw berson sy’n byw yng Nghymru ymadael â Chymru heb esgus rhesymol.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw’r person yn ymadael â Chymru neu’n mynd i Gymru at ddiben sy’n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy’n rhesymol ymarferol;
- (b) os yw un o’r amgylchiadau ym mharagraff (5) yn gymwys.

(4) Mae enghreifftiau o ddibenion y gall fod yn rhesymol ymarferol i berson fynd i Gymru neu ymadael â Chymru atynt yn cynnwys—

- (a) ceisio neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i’r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos llys;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr “relevant personal care” ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo’r person sy’n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â’u rhieni, neu un o’u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae “rhiant” yn cynnwys person nad yw’n rhiant i’r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

- (f) symud cartref;
 - (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
 - (h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
 - (i) cael gafael ar wasanaethau addysgol;
 - (j) cael—
 - (i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini ar yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid ar yr aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;
 - (ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;
 - (k) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 3 neu 4 o Ran 1 o Atodlen 2 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;
 - (l) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu, neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).
- (5) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff
- (3)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu gael cynhorthwy brys;
 - (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
 - (c) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil—
 - (i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil;
 - (d) mynd i angladd—
 - (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
 - (e) athletwr elît ac yn hyfforddi ac yn cystadlu;
 - (f) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît, neu'n darparu cymorth mewn digwyddiad chwaraeon nad yw ond athletwyr elît yn cystadlu ynddo;

- (g) teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar daith sy'n dechrau yng Nghymru ac yn gorffen yng Nghymru;
- (h) teithio i gymryd rhan mewn cynulliad gydag aelwyd estynedig y person yn unol â rheoliad 4 neu 6(2)(b).

RHAN 4

Gofyniad i ynysu etc.

PENNOD 1

Gofyniad i ynysu etc. pan fo person yn cael canlyniad positif am y coronafeirws neu wedi dod i gysylltiad agos â pherson o'r fath

Dehongli'r Rhan

10.—(1) Yn y Rhan hon ystyr “cysylltiad agos” yw cysylltiad y mae swyddog olrhain cysylltiadau yn ystyried y gall arwain at risg o haint neu halogiad â'r coronafeirws, gan gynnwys—

- (a) dod i gysylltiad wyneb yn wyneb â pherson o bellter o lai nag 1 metr;
- (b) treulio mwy na 15 munud o fewn 2 fetr i berson;
- (c) teithio mewn car neu gerbyd bach arall gyda pherson neu'n agos i berson ar awyren neu yn yr un cerbyd mewn trê.

(2) Yn rheoliadau 11 a 13, mae cyfeiriadau at “oedolyn” (“O”) yn cynnwys cyfeiriadau at blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed.

(3) At ddibenion y Rhan hon, mae gan berson gyfrifoldeb dros blentyn os oes gan y person—

- (a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu
- (b) cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn, nid yw hysbysiad drwy ap ffôn clyfar Covid 19 y GIG a ddatblygir ac a weithredir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysiad.

Gofyniad i ynysu: oedolyn â'r coronafeirws

11.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau yn hysbysu oedolyn (“O”) fod O wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws ar neu ar ôl 9 Tachwedd 2020.

(2) Ni chaiff O ymadael â'r man lle y mae O yn byw, neu fod y tu allan i'r man hwnnw, cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad O oni bai bod rheoliad 15 yn gymwys.

(3) Os yw swyddog olrhain cysylltiadau yn gofyn am hynny, rhaid i O hysbysu'r swyddog—

(a) am enw pob person sy'n byw yn y man lle y mae O yn byw, a

(b) am gyfeiriad y man hwnnw.

(4) Diwrnod olaf ynysiad O yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â diwrnod y prawf a arweiniodd at roi'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(5) Ond pan fo O yn rhoi gwybod i swyddog olrhain cysylltiadau y diwrnod y datblygodd symptomau gyntaf, diwrnod olaf ynysiad O yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae O yn rhoi gwybod mai dyna'r diwrnod y datblygodd y symptomau gyntaf.

Gofyniad i ynysu: plentyn â'r coronafeirws

12.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau yn hysbysu oedolyn ("O") fod plentyn ("P") y mae O yn gyfrifol amdano wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws ar neu ar ôl 9 Tachwedd 2020.

(2) Ni chaiff P ymadael â'r man lle y mae P yn byw, neu fod y tu allan i'r man hwnnw, cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad P oni bai bod rheoliad 15 yn gymwys.

(3) Os yw swyddog olrhain cysylltiadau yn gofyn am hynny, rhaid i O hysbysu'r swyddog—

(a) am enw pob person sy'n byw yn y man lle y mae P yn byw, a

(b) am gyfeiriad y man hwnnw.

(4) Diwrnod olaf ynysiad P yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â diwrnod y prawf a arweiniodd at roi'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(5) Ond mewn achos pan fo O yn rhoi gwybod i swyddog olrhain cysylltiadau y diwrnod y datblygodd P symptomau gyntaf, diwrnod olaf ynysiad P yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae O yn rhoi gwybod mai dyna'r diwrnod y datblygodd P symptomau gyntaf.

Gofyniad i ynysu ar ôl cysylltiad agos: oedolyn

13.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau yn hysbysu oedolyn ("O") fod O wedi dod i gysylltiad agos ar neu ar ôl 9 Tachwedd 2020 â pherson sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws ("C").

(2) Ni chaiff O ymadael â'r man lle y mae O yn byw, neu fod y tu allan i'r man hwnnw, cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad O oni bai bod rheoliad 15 yn gymwys.

(3) Rhaid i O hysbysu swyddog olrhain cysylltiadau, os yw'n gofyn am hynny, am gyfeiriad y man lle y mae O yn byw.

(4) Diwrnod olaf ynysiad O yw diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae swyddog olrhain cysylltiadau yn ei gofnodi fel y diwrnod olaf y daeth O i gysylltiad agos ag C cyn i O gael yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(5) Ond pan fo O yn byw yn yr un man ag C, diwrnod olaf ynysiad O yw—

- (a) pan fo C, neu, pan fo C yn blentyn, oedolyn cyfrifol (“OC”) ar ran C, yn rhoi gwybod i swyddog olrhain cysylltiadau y diwrnod y datblygodd C symptomau gyntaf, diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae C, neu OC, yn rhoi gwybod mai dyna'r diwrnod y datblygodd C symptomau gyntaf;
- (b) pan na roddir gwybod am unrhyw symptomau, diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwrnod y prawf a arweiniodd at roi'r hysbysiad i C, neu OC, fod C wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

Gofyniad i ynysu ar ôl cysylltiad agos: plentyn

14.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau yn hysbysu oedolyn (“O”) fod plentyn (“P”) y mae O yn gyfrifol amdano wedi dod i gysylltiad agos ar neu ar ôl 9 Tachwedd 2020 â pherson sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws (“C”).

(2) Ni chaiff P ymadael â'r man lle y mae P yn byw, neu fod y tu allan i'r man hwnnw, cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad P oni bai bod rheoliad 15 yn gymwys.

(3) Rhaid i O hysbysu swyddog olrhain cysylltiadau, os yw'n gofyn am hynny, am gyfeiriad y man lle y mae P yn byw.

(4) Diwrnod olaf ynysiad P yw diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae swyddog olrhain cysylltiadau yn ei gofnodi fel y diwrnod olaf y daeth P i gysylltiad agos ag C cyn i O gael yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(5) Ond pan fo P yn byw yn yr un man ag C, diwrnod olaf ynysiad P yw—

- (a) pan fo C, neu, pan fo C yn blentyn, oedolyn cyfrifol (“OC”) ar ran C, yn rhoi gwybod i swyddog olrhain cysylltiadau y diwrnod y datblygodd C symptomau gyntaf, diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae C, neu OC, yn rhoi gwybod mai dyna'r diwrnod y datblygodd C symptomau gyntaf, neu
- (b) pan na roddir gwybod am unrhyw symptomau, diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â diwrnod y prawf a

arweiniodd at roi'r hysbysiad i C, neu OC, fod C wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

Gofynion ynysu: eithriadau

15.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo'n ofynnol i berson beidio ag ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw, neu fod y tu allan iddo, yn rhinwedd rheoliad 11(2), 12(2), 13(2) neu 14(2).

(2) Caiff y person ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw a bod y tu allan iddo am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol i—

- (a) ceisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen hyn ar frys neu ar gais ymarferydd meddygol cofrestredig;
- (b) cael gafael ar wasanaethau milfeddygol—
 - (i) pan fo eu hangen ar frys, neu
 - (ii) pan na fo'n bosibl i berson arall yn y man lle y mae'r person yn byw gael gafael ar y gwasanaethau hynny;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol, pan na fo'n bosibl nac yn ymarferol gwneud hynny heb ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw;
- (d) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (e) am resymau tosturiol, gan gynnwys mynd i angladd—
 - (i) aelod o'r teulu;
 - (ii) ffrind agos;
- (f) cael angenrheidiau sylfaenol (gan gynnwys ar gyfer personau eraill yn y man lle y mae'r person yn byw neu unrhyw anifeiliaid anwes yn y man hwnnw) pan na fo'n bosibl nac yn ymarferol—
 - (i) i berson arall yn y man lle y mae'r person yn byw eu cael, neu
 - (ii) eu cael drwy eu danfon i'r man hwnnw gan drydydd parti;
- (g) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau i ddioddefwyr)—
 - (i) pan fo cael gafael ar y gwasanaeth yn hanfodol i lesiant y person, a
 - (ii) pan na fo'r gwasanaeth yn gallu cael ei ddarparu os yw'r person yn aros yn y man lle y mae'r person yn byw;
- (h) symud i fan gwahanol i fyw pan fo'n mynd yn anymarferol aros yn y man lle y mae'r person yn byw.

(3) Nid yw rheoliadau 11(2), 12(2), 13(2) a 14(2) yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

(4) Nid yw rheoliad 11(2) yn gymwys i berson—

- (a) sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws yn ystod astudiaeth ymchwil (y “prawf blaenorol”), a
- (b) sy'n cael canlyniad positif am y coronafeirws yn ystod yr un astudiaeth o fewn y cyfnod o 90 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad y prawf blaenorol.

Gofyniad ar bersonau a chanddynt gyfrifoldeb dros blant

16. Pan fo gofyniad wedi ei osod o dan reoliad 12(2) neu 14(2) ar blentyn, rhaid i berson a chanddo gyfrifoldeb dros y plentyn gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y plentyn yn cydymffurfio â'r gofyniad.

Tynnu'n ôl hysbysiad sy'n gwneud ynysu yn ofynnol

17.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau—

- (a) wedi rhoi hysbysiad o dan reoliad 11(1), 12(1), 13(1) neu 14(1) (“yr hysbysiad gwreiddiol”), ond
- (b) yn hysbysu derbynydd yr hysbysiad gwreiddiol wedi hynny fod yr hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl.

(2) Mae'r hysbysiad gwreiddiol i'w drin fel pe na bai wedi ei roi.

PENNOD 2

Gwybodaeth

Pŵer i ddefnyddio a datgelu gwybodaeth

18.—(1) Ni chaiff swyddog olrhain cysylltiadau ond datgelu gwybodaeth berthnasol i berson (“deiliad yr wybodaeth”) y mae'n angenrheidiol i ddeiliad yr wybodaeth ei chael—

- (a) at ddibenion—
 - (i) cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn,
 - (ii) atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu
 - (iii) monitro lledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu
- (b) at ddiben sy'n gysylltiedig â diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a) neu sydd fel arall â chysylltiad â'r diben hwnnw.

(2) Gwybodaeth berthnasol yw—

- (a) pan fo'n ofynnol i berson ynysu yn unol â rheoliad 11(2), 12(2), 13(2) neu 14(2)—
 - (i) gwybodaeth gyswllt a dyddiad geni'r person;
 - (ii) y dyddiad y cafodd y person hysbysiad o dan reoliad 11(1), 12(1), 13(1) neu 14(1), neu, pan fo'r person yn blentyn, y person a chanddo gyfrifoldeb dros y plentyn;
 - (iii) y cyfnod penodol y mae'n ofynnol i'r person beidio ag ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw neu fod y tu allan iddo mewn cysylltiad ag ef, wedi ei gyfrifo yn unol â rheoliad 11, 12, 13 neu 14;
 - (iv) manylion unrhyw hysbysiadau cosb benodedig sydd wedi eu dyroddi, neu achosion sydd wedi eu dwyn, mewn perthynas â throedd o dorri rheoliad 11, 12, 13 neu 14 yr honnir bod y person wedi ei chyflawni;
- (b) cadarnhad na chafodd person ganlyniad positif mewn prawf am y coronafeirws (gan gynnwys enw, gwybodaeth gyswllt a dyddiad geni'r person).

(3) Ni chaiff deiliad yr wybodaeth ddefnyddio gwybodaeth berthnasol a ddatgelir o dan baragraff (1) ond i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol—

- (a) at ddibenion—
 - (i) cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn,
 - (ii) atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu
 - (iii) monitro lledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu
- (b) at ddiben sy'n gysylltiedig â diben a ddisgrifir ym is-baragraff (a) neu sydd fel arall â chysylltiad â'r diben hwnnw.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), ni chaiff deiliad yr wybodaeth ond datgelu gwybodaeth berthnasol i berson arall (y "derbynnydd") y mae'n angenrheidiol i'r derbynnydd ei chael—

- (a) at ddibenion—
 - (i) cyflawni un o swyddogaethau'r derbynnydd o dan y Rheoliadau hyn,
 - (ii) atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu
 - (iii) monitro lledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu

- (b) at ddiben sy'n gysylltiedig â diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a) neu sydd fel arall â chysylltiad â'r diben hwnnw.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), nid yw datgeliad sydd wedi ei awdurdodi gan y rheoliad hwn yn torri—

- (a) rhwymedigaeth o safbwynt cyfrinachedd sy'n ddyledus gan y person sy'n gwneud y datgeliad, na
- (b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (sut bynnag y'i gorfodir).

(6) Nid yw'r rheoliad hwn yn cyfyngu ar yr amgylchiadau pan ganiateir i wybodaeth gael ei datgelu'n gyfreithlon fel arall o dan unrhyw ddeddfiad arall neu reol gyfreithiol.

(7) Nid oes unrhyw beth yn y rheoliad hwn yn awdurdodi defnyddio neu ddatgelu data personol pan fo gwneud hynny yn torri'r ddeddfwriaeth diogelu data.

(8) At ddibenion y rheoliad hwn, mae i "deddfwriaeth diogelu data" a "data personol" yr un ystyrion â "data protection legislation" a "personal data" yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018⁽¹⁾.

RHAN 5

Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

Cau mangreoedd a ddefnyddir gan fusnesau a gwasanaethau penodol

19.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir yn Atodlen 1—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes neu'r gwasanaeth, a
- (b) ni chaiff gynnal y busnes neu'r gwasanaeth yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Nid yw paragraff (1) yn atal—

- (a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan na fydd paragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;
- (b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;

(1) 2018 p. 12.

- (c) defnyddio mangre i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (pa un ai dros y rhyngwrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu) neu i ymarfer ar gyfer darllediad o'r fath;
- (d) defnyddio mangre ar gyfer darparu gwasanaethau neu wybodaeth (gan gynnwys gwerthu, llogi neu ddanfon nwyddau neu wasanaethau)—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post.

(3) Pan—

- (a) bo'n ofynnol, yn rhinwedd y rheoliad hwn, i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y rheoliad hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

Cyfyngiadau ar fangreodd trwyddedig

20.—(1) Ni chaiff person sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol werthu na chyflenwi alcohol rhwng 10.00 p.m. a 6.00 a.m.

(2) Pan fo'r fangre wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, o ran y person sy'n gyfrifol am y fangre—

- (a) rhaid iddo gau'r fangre (i gwsmeriaid) am neu cyn 10.20 p.m. bob dydd, a
- (b) ni chaiff agor y fangre cyn 6.00 a.m. bob dydd.

(3) Er gwaethaf paragraff (2), caiff sinema gau'n hwyrach na 10.20 p.m. dim ond at ddiben gorffen dangos ffilm sy'n dechrau cyn 10.00 p.m.

(4) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i—

- (a) mangre mewn—
 - (i) porthladd môr;
 - (ii) maes awyr;
 - (iii) sefydliad addysgol;
- (b) ffreuturau yn y gweithle.

(5) O ran ei gymhwysiad i fangre llety gwyliau neu lety teithio, nid yw paragraff (2) ond yn gymwys i'r rhannau hynny o'r fangre lle y gwerthir neu y cyflenwir alcohol i'w yfed yn y fangre.

(6) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn caniatáu i'r fangre fod ar agor, nac i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi, yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.

(7) Pan fo mangre reoleiddiedig nad yw wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yn caniatáu i gwsmeriaid yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, mae paragraffau (2) i (4) yn gymwys i'r mangreoedd hynny fel y maent yn gymwys i fangreoedd sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre.

RHAN 6

Lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws

Gofyniad i gymryd mesurau ataliol mewn mangre reoleiddiedig i leihau risg

21.—(1) At ddibenion paragraff (2)—

(a) ystyr “mangre reoleiddiedig” yw—

- (i) mangre busnesau neu wasanaethau a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 2;
- (ii) cerbyd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus;
- (iii) mangre arall lle y mae gwaith yn cael ei wneud;

(b) ystyr y “person cyfrifol” yw—

- (i) mewn perthynas â mangre reoleiddiedig y cyfeirir ati yn is-baragraff (a)(i) neu (ii), y person sy'n gyfrifol am y fangre,
- (ii) mewn perthynas â mangre reoleiddiedig o'r math y cyfeirir ato yn is-baragraff (a)(iii), y person sy'n gyfrifol am y gwaith sy'n cael ei wneud yn y fangre.

(2) At ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre reoleiddiedig, neu ledaenu'r coronafeirws gan y rheini sydd wedi bod mewn mangre reoleiddiedig, rhaid i'r person cyfrifol—

(a) cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

- (i) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng aelodau o'r un aelwyd neu ofalwr a'r person sy'n cael cynhorthwy gan y gofalwr);
- (ii) pan fo'n ofynnol i bersonau aros i fynd i'r fangre, y cynhelir pellter o 2 fetr rhyngddynt (ac eithrio rhwng aelodau o'r un aelwyd neu ofalwr a'r person sy'n cael cynhorthwy gan y gofalwr),

- (b) cymryd unrhyw fesurau rhesymol eraill at y diben hwnnw, er enghraifft mesurau sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb ac yn cynnal hylendid megis—
 - (i) newid trefn mangre gan gynnwys lleoliad dodrefn a gweithfannau;
 - (ii) rheoli'r defnydd o fynedfeydd, tramwyfeydd, grisiau a lifftiau;
 - (iii) rheoli'r defnydd o gyfleusterau a rennir megis toiledau a cheginau;
 - (iv) rheoli'r defnydd o unrhyw ran arall o'r fangre neu fynediad iddi fel arall;
 - (v) gosod rhwystrau neu sgriniau;
 - (vi) darparu, neu'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio, cyfarpar diogelu personol, ac
- (c) darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n mynd i'r fangre neu'n gweithio ynddi ynglŷn â sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(3) Mae mesurau y gellir eu cymryd o dan baragraff (2) hefyd yn cynnwys—

- (a) peidio â gwneud gweithgareddau penodol;
- (b) cau rhan o'r fangre;
- (c) caniatáu i berson sydd fel arfer yn gweithio yn y fangre ynysu am gyfnod penodedig, a'i alluogi i wneud hynny, oherwydd profi'n bositif am y coronafeirws neu am ei fod wedi dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif, pan fo—
 - (i) Gweinidogion Cymru wedi gofyn i'r person hwnnw wneud hynny;
 - (ii) hysbysiad a roddir gan swyddog olrhain cysylltiadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw wneud hynny;
- (d) casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bob person yn y fangre a'i chadw am 21 o ddiwrnodau at ddiben ei darparu i unrhyw un o'r canlynol, ar eu cais neu ar ei gais—
 - (i) Gweinidogion Cymru;
 - (ii) swyddog olrhain cysylltiadau;
- (e) cymryd mesurau rhesymol i sicrhau bod gwybodaeth gyswllt o'r fath yn gywir.

(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, rhaid gwerthu neu gyflenwi bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre yn unol â'r mesurau rhesymol a bennir ym mharagraff (5) (yn ddarostyngedig i baragraffau (6) a (7)).

(5) Y mesurau rhesymol yw—

- (a) bod rhaid bod person sy'n rheoli mynediad i'r fangre ac sy'n dyrannu cyfnod amser cyfyngedig y caiff cwsmeriaid aros yn y fangre ar ei gyfer;
- (b) bod rhaid i gwsmeriaid fod yn eistedd yn y fangre yn unrhyw le ac eithrio wrth far—
 - (i) pan fyddant yn archebu bwyd neu ddiod,
 - (ii) pan weinir bwyd neu ddiod iddynt, a
 - (iii) pan fyddant yn bwyta neu'n yfed.

(6) Ond pan fo bwyd yn cael ei ddarparu yn y fangre ar sail bwffe, caiff cwsmeriaid ddewis bwyd o'r bwffe a dychwelyd i'r man lle y maent yn eistedd ar yr amod y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau wrth y bwffe (ac eithrio rhwng aelodau o'r un aelwyd neu ofalwr a'r person sy'n cael cynhorthwy gan y gofalwr).

(7) Nid yw is-baragraffau (a) a (b) o baragraff (5) yn gymwys i—

- (a) ffreuturau yn y gweithle, neu
- (b) mangreoedd mewn sefydliad addysgol.

(8) At ddibenion paragraff (4)—

- (a) nid yw bwyd neu ddiod a werthir mewn llety gwyliau neu lety teithio fel rhan o wasanaeth ystafell i'w drin neu i'w thrin fel pe bai'n cael ei werthu i'w fwyta yn y fangre neu ei gwerthu i'w hyfed yn y fangre;
- (b) mae bwyd neu ddiod a werthir i'w fwyta neu i'w hyfed mewn ardal sy'n gyfagos i'r fangre lle y mae seddi yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid i'w drin neu i'w thrin fel pe bai'n cael ei werthu i'w fwyta yn y fangre neu ei gwerthu i'w hyfed yn y fangre.

(9) Pan fo mangre reoleiddiedig nad yw wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yn caniatáu i gwsmeriaid yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, mae paragraffau (4) i (7) yn gymwys i'r mangreoedd hynny fel y maent yn gymwys i fangreoedd sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre.

Gofyniad i wisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus

22.—(1) Rhaid i berson ("P") sy'n teithio fel teithiwr mewn cerbyd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchudd wyneb.

(2) Ond nid yw hyn yn ofynnol—

- (a) pan fo esemptiad yn gymwys o dan baragraff (3);
- (b) pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb, ac o ran hynny gweler paragraff (4).

(3) Mae esemptiad i'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn gymwys—

- (a) pan fo P yn blentyn o dan 11 oed;
- (b) mewn cerbyd sy'n darparu gwasanaeth cludiant i'r ysgol;
- (c) ar fferi—
 - (i) pan fo'r rhan o'r fferi sydd ar agor i deithwyr yn yr awyr agored yn gyfan gwbl, neu
 - (ii) pan ellir cynnal pellter o 2 fetr o leiaf rhwng personau ar y rhan o'r fferi sydd ar agor i deithwyr;
- (d) ar long fordeithio;
- (e) pan ddyrennir caban, man cysgu neu lety tebyg arall i P yn y cerbyd, ar unrhyw adeg pan yw P yn y llety hwnnw—
 - (i) ar ei ben ei hunan, neu
 - (ii) gydag aelodau o aelwyd P neu ofalwr i aelod o'r aelwyd yn unig;
- (f) pan—
 - (i) caniateir i P, neu pan fo'n ofynnol fel arfer i P, fynd i gerbyd ac aros ynddo wrth ddefnyddio'r gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus,
 - (ii) na fo'r cerbyd ei hunan yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darparu gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus, a
 - (iii) bo P yn aros yn y cerbyd hwnnw;
- (g) ar gerbyd awyr na chychwynnodd o fan yng Nghymru, ac nad yw i lanio mewn man yng Nghymru;
- (h) ar lestr nad yw'n docio mewn porthladd yng Nghymru.

(4) Mae'r amgylchiadau pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb yn cynnwys—

- (a) pan na fo P yn gallu rhoi gorchudd am ei wyneb, neu wisgo neu dynnu gorchudd wyneb, oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd (o fewn yr ystyr a roddir i "disability" yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010⁽¹⁾);
- (b) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn cyfathrebu â pherson sy'n cael anhawster i gyfathrebu (mewn perthynas â lleferydd, iaith neu fel arall);

(1) 2010 p. 15.

- (c) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn osgoi niwed neu anaf, neu'r risg o niwed neu anaf, i P ei hunan neu i eraill;
- (d) pan fo P yn teithio i osgoi anaf, neu i ddianc rhag risg o niwed, ac nad oes gan P orchudd wyneb;
- (e) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb i—
 - (i) cymryd meddyginiaeth;
 - (ii) bwyta neu yfed, os caniateir gwneud hyn yn y cerbyd a bod hynny'n rhesymol angenrheidiol (er enghraifft oherwydd hyd y daith);
- (f) pan ofynnir i P dynnu'r gorchudd wyneb gan—
 - (i) swyddog gorfodaeth, neu
 - (ii) gweithredwr y gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus, cyflogai i'r gweithredwr neu berson sydd wedi ei awdurdodi gan y gweithredwr.

(5) Rhaid i weithredwr gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus y mae paragraff (1) yn gymwys iddo ddarparu gwybodaeth i deithwyr am y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb yn ei gerbydau.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr "gwasanaeth cludiant i'r ysgol" yw unrhyw wasanaeth cludiant nad yw ond yn cael ei ddarparu at ddiben—

- (a) cludo person i'r ysgol ac o'r ysgol neu'r man arall y mae'r person yn cael addysg neu hyfforddiant ynddo, neu
- (b) hwyluso fel arall bresenoldeb person mewn ysgol neu fan arall y mae'r person yn cael addysg neu hyfforddiant ynddo.

Gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus penodol o dan do

23.—(1) Rhaid i berson ("P") wisgo gorchudd wyneb yn ardaloedd cyhoeddus o dan do mangreoedd y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt neu y caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddynt, pa un ai drwy dalu neu fel arall.

(2) Ond nid yw hyn yn ofynnol—

- (a) pan fo P yn blentyn o dan 11 oed;
- (b) pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb, ac o ran hynny gweler paragraff (3).

(3) Mae'r amgylchiadau pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb yn cynnwys—

- (a) pan na fo P yn gallu rhoi gorchudd am ei wyneb, neu wisgo neu dynnu gorchudd

wyneb, oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd (o fewn yr ystyr a roddir i “disability” yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010);

- (b) pan fo P yn ymgymryd â gweithgaredd ac y gellir ystyried yn rhesymol fod gwisgo gorchudd wyneb yn ystod y gweithgaredd hwnnw yn peri risg i iechyd P;
- (c) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn cyfathrebu â pherson sy'n cael anhawster i gyfathrebu (mewn perthynas â lleferydd, iaith neu fel arall);
- (d) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn osgoi niwed neu anaf, neu'r risg o niwed neu anaf, i P ei hunan neu i eraill;
- (e) pan fo P yn y fangre i osgoi anaf, neu i ddianc rhag risg o niwed, ac nad oes gan P orchudd wyneb;
- (f) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb i—
 - (i) cymryd meddyginiaeth;
 - (ii) bwyta neu yfed, pan fo'n rhesymol angenrheidiol;
- (g) pan ofynnir i P dynnu'r gorchudd wyneb gan swyddog gorfodaeth;
- (h) pan fo P yn eistedd mewn mangre lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y'i darperir fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre.

Canllawiau ar leihau dod i gysylltiad â'r coronafeirws

24.—(1) Rhaid i berson y mae'n ofynnol iddo gymryd mesurau rhesymol o dan reoliad 21(2) roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch y mesurau hynny.

(2) Rhaid i weithredwr gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus y mae rheoliad 22 yn gymwys iddo roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch—

- (a) y gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn unol â pharagraffau (1) i (4) o reoliad 22 a gorfodi'r gofyniad hwnnw o dan reoliad 30;
- (b) darparu gwybodaeth i deithwyr yn unol â pharagraff (5) o reoliad 22.

(3) O ran Gweinidogion Cymru—

- (a) cânt ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1) neu (2), a
- (b) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau (ac unrhyw ddiwygiadau).

(4) Caiff canllawiau o dan y rheoliad hwn gynnwys (drwy gyfeirio neu drosi) ganllawiau, codau ymarfer

neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan berson arall (er enghraifft, cymdeithas fasnach, corff sy'n cynrychioli aelodau o ddiwydiant neu undeb llafur).

(5) Mae canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (1) neu (2) o reoliad 20 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020(1) i'w trin fel pe baent yn ganllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1) neu (2) o'r rheoliad hwn, yn ôl y digwydd.

RHAN 7

Gorfodi

Swyddogion gorfodaeth

25.—(1) At ddibenion rheoliad 26 ac Atodlen 3, ystyr “swyddog gorfodaeth” yw person sydd wedi ei ddynodi gan awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) At ddibenion rheoliadau 22, 23, 27 i 35, a 37, ystyr “swyddog gorfodaeth” yw—

- (a) cwnstabl,
- (b) swyddog cymorth cymunedol yr heddlu,
- (c) person sydd wedi ei ddynodi gan—
 - (i) Gweinidogion Cymru, neu
 - (ii) awdurdod lleol,
 at ddibenion y Rheoliadau hyn (ond gweler paragraff (3)), neu
- (d) person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol o dan—
 - (i) rheoliad 10(11)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(2) yn berson perthnasol (o fewn yr ystyr a roddir gan y rheoliad hwnnw),
 - (ii) rheoliad 17(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(3) at ddibenion y Rheoliadau hynny, neu
 - (iii) rheoliad 21(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 at ddibenion y Rheoliadau hynny,
 (ond gweler paragraff (3)).

(1) O.S. 2020/1149 (Cy. 261).

(2) O.S. 2020/353 (Cy. 80).

(3) O.S. 2020/725 (Cy. 162). Diwygiwyd gan O.S. 2020/985 (Cy. 222).

(3) Ni chaiff person sydd wedi ei ddynodi gan awdurdod lleol arfer swyddogaethau swyddog gorfodaeth ond mewn perthynas â thorri gofyniad yn rheoliad 19(1), 20(1) neu (2), neu 21(2), neu Atodlen 3 (neu achos honedig o'i dorri).

Gorfodi'r gofyniad i gymryd mesurau ataliol

26. Mae Atodlenni 3 a 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi swyddogaethau i swyddogion gorfodaeth at ddiben gorfodi rheoliad 21(2) ac mewn cysylltiad â rhoi'r swyddogaethau hynny.

Hysbysiadau cydymffurfio

27.—(1) Caiff swyddog gorfodi roi hysbysiad cydymffurfio i berson os oes gan y swyddog sail resymol dros amau bod y person yn torri gofyniad yn rheoliad 19(1) neu 22(5).

(2) Caiff hysbysiad cydymffurfio bennu mesurau y mae rhaid i'r person y'i rhoddir iddo eu cymryd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol er mwyn atal y person hwnnw rhag parhau i dorri'r gofyniad.

Pwerau symud a gwasgaru

28.—(1) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person yn torri rheoliad 4(1), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo'r cynulliad i wasgaru;
- (b) cyfarwyddo unrhyw berson nad yw'n byw yn yr annedd lle y mae'r toriad o dan amheuaeth yn digwydd i ymadael â'r annedd;
- (c) symud unrhyw berson o'r fath o'r annedd.

(2) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod pobl wedi ymgynnull yn groes i reoliad 6(1) neu (3), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo'r cynulliad i wasgaru;
- (b) cyfarwyddo unrhyw berson yn y cynulliad i ddychwelyd i'r man lle y mae'n byw;
- (c) symud unrhyw berson yn y cynulliad i'r man lle y mae'n byw.

(3) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") yn torri rheoliad 9, caiff y swyddog gyfarwyddo P—

- (a) mewn achos honedig o dorri rheoliad 9(1), i ymadael â Chymru, neu
- (b) mewn achos honedig o dorri rheoliad 9(2), i beidio ag ymadael â Chymru neu i ddychwelyd i Gymru.

(4) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") i ffwrdd o'r man lle y mae'n

byw yn groes i reoliad 11(2), 12(2), 13(2) neu 14(2), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo P i ddychwelyd i'r man lle y mae P yn byw;
- (b) symud P i'r man hwnnw.

(5) Wrth arfer pŵer ym mharagraffau (1) i (3), caiff swyddog gorfodaeth gyfarwyddo person i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

Pwerau sy'n ymwneud â digwyddiadau gwaharddedig

29.—(1) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") yn ymwneud â threfnu digwyddiad yn groes i reoliad 7(1) neu 8(1), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn stopio'r digwyddiad;
- (b) symud P o leoliad y digwyddiad;
- (c) cyfarwyddo unrhyw berson i ymadael â'r digwyddiad (neu pan fo'r person yn blentyn sydd gydag oedolyn a chanddo gyfrifoldeb dros y plentyn, cyfarwyddo'r unigolyn i symud y plentyn o'r digwyddiad);
- (d) symud unrhyw berson o'r digwyddiad.

(2) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") yn ymwneud â threfnu digwyddiad y mae'r swyddog yn ystyried ei fod yn debygol o dorri rheoliad 7(1) neu 8(1), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal y digwyddiad rhag digwydd;
- (b) symud P o leoliad arfaethedig y digwyddiad.

Gorfodi gofynion gorchuddion wyneb

30.—(1) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 22(1), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo P i beidio â mynd i'r cerbyd sy'n darparu'r gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus o dan sylw;
- (b) symud P o'r cerbyd.

(2) Pan fo gan—

- (a) gweithredwr gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus,
- (b) cyflogai i'r gweithredwr, neu

- (c) person sydd wedi ei awdurdodi gan y gweithredwr,

sail resymol dros amau bod person (“P”) ar fin torri rheoliad 22(1), caiff y gweithredwr, y cyflogai neu’r person awdurdodedig gyfarwyddo P i beidio â mynd i’r cerbyd sy’n darparu’r gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus o dan sylw.

(3) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”) yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 23(1), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo P i beidio â mynd i’r fangre;
- (b) symud P o’r fangre.

Gorfodi: plant

31.—(1) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”) yn torri rheoliad 4(1), a’i fod yn blentyn gydag unigolyn (“U”) a chanddo gyfrifoldeb dros P—

- (a) os nad yw P yn byw yn yr annedd lle y mae’r toriad honedig yn digwydd, caiff y swyddog gyfarwyddo U i symud P o’r annedd, a
- (b) rhaid i U, i’r graddau y mae’n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y swyddog i P.

(2) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”) mewn cynulliad yn groes i reoliad 6(1) neu (3) a’i fod yn blentyn gydag unigolyn (“U”) a chanddo gyfrifoldeb dros P—

- (a) caiff y swyddog gyfarwyddo U i fynd â P i’r man lle y mae P yn byw, a
- (b) rhaid i U, i’r graddau y mae’n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y swyddog i P.

(3) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”) yn torri rheoliad 9 a’i fod yn blentyn gydag unigolyn (“U”) a chanddo gyfrifoldeb dros P—

- (a) caiff y swyddog gyfarwyddo U—
 - (i) mewn achos honedig o dorri rheoliad 9(1), i fynd â P i fan y tu allan i Gymru,
 - (ii) mewn achos honedig o dorri rheoliad 9(2), i atal P rhag ymadael â Chymru neu i fynd â P yn ôl i Gymru, a
- (b) rhaid i U, i’r graddau y mae’n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y swyddog i P.

(4) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”) i ffwrdd o’r man lle y mae’n

byw yn groes i reoliad 12(2) neu 14(2) a'i fod yn blentyn gydag unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros P—

- (a) caiff y swyddog gyfarwyddo U i fynd â P i'r man lle y mae P yn byw, a
- (b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y swyddog i P.

(5) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod plentyn yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn rheoliad 22(1) neu 23(1), caiff y swyddog gyfarwyddo unrhyw unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros y plentyn i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, fod y plentyn yn cydymffurfio â'r gofyniad.

(6) At ddibenion paragraffau (1) i (4), mae gan U gyfrifoldeb dros blentyn os oes gan U—

- (a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu
- (b) cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

Pŵer mynediad

32.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre—

- (a) os oes gan y swyddog sail resymol dros amau bod gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn yn cael, wedi cael neu ar fin cael ei dorri yn y fangre, a
- (b) os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw'r gofyniad yn cael, wedi cael neu ar fin cael ei dorri.

(2) Caiff swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1) gymryd unrhyw bersonau eraill, cyfarpar a deunyddiau i'r fangre y mae'n ymddangos i'r swyddog eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

- (a) os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o bwy yw'r swyddog ac amlinellu'r diben yr arferir y pŵer ato;
- (b) os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, adael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

Pŵer yr heddlu i gynnal archwiliadau ar y ffordd

33.—(1) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr “archwiliad ar y ffordd” yw arfer y pŵer a roddir gan adran 163 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(1) mewn ardal yn y fath fodd i stopio, yn ystod y cyfnod pan fydd y pŵer hwnnw yn parhau i gael ei arfer yn yr ardal honno, bob cerbyd neu gerbydau sydd wedi eu dethol yn ôl unrhyw faen prawf.

(2) Caiff cwnstabl gynnal archwiliad ar y ffordd at ddiben canfod a yw cerbyd yn cario person sydd wedi cyflawni, neu berson y mae'r cwnstabl yn credu'n rhesymol ei fod yn bwriadu cyflawni, trosedd o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i archwiliad ar y ffordd gael ei awdurdodi gan gwnstabl o reng uwch-arolygydd neu'n uwch.

(4) Ond caiff cwnstabl o dan y rheng honno awdurdodi archwiliad ar y ffordd os yw'r cwnstabl yn ystyried ei fod yn angenrheidiol fel mater o frys.

(5) Caiff cwnstabl awdurdodi archwiliad ar y ffordd os oes gan y cwnstabl sail resymol dros gredu bod personau yn yr ardal y byddai cerbydau'n cael eu stopio ynddi, neu sydd ar fin bod yn yr ardal honno, yn cyflawni, neu'n bwriadu cyflawni, trosedd o dan y Rheoliadau hyn.

(6) Rhaid i awdurdodiad fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo bennu—

- (a) yr ardal y mae cerbydau i'w stopio ynddi;
- (b) y cyfnod, nad yw'n hwy na 7 niwrnod, pan ganiateir cynnal yr archwiliad ar y ffordd;
- (c) a yw'r archwiliad ar y ffordd i'w gynnal—
 - (i) yn barhaus drwy gydol y cyfnod, neu
 - (ii) ar adegau penodol yn ystod y cyfnod (ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r awdurdodiad bennu'r adegau hynny);
- (d) enw'r cwnstabl sy'n rhoi'r awdurdodiad.

(7) Pan fo archwiliad ar y ffordd wedi ei awdurdodi o dan baragraff (4)—

- (a) ni chaiff y cyfnod a bennir ym mharagraff (6)(b) fod yn hwy na 2 ddiwrnod;
- (b) rhaid i'r cwnstabl sy'n rhoi'r awdurdodiad, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl rhoi'r awdurdodiad, roi gwybod i gwnstabl o reng uwch-arolygydd neu'n uwch ei fod wedi ei roi.

(8) Caiff cwnstabl o reng uwch-arolygydd neu'n uwch roi awdurdodiad yn ysgrifenedig i archwiliad ar y ffordd barhau am gyfnod pellach, nad yw'n hwy na 7

(1) 1988 p. 52, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40) a Deddf Rheoli Traffig 2004 (p. 18).

niwrnod, y tu hwnt i'r cyfnod yr awdurdodwyd yr archwiliad ar y ffordd amdano yn wreiddiol.

(9) Pan fo cerbyd yn cael ei stopio yn ystod archwiliad ar y ffordd, mae gan y person sy'n gyfrifol am y cerbyd ar yr adeg pan yw'n cael ei stopio hawlogaeth i gael datganiad ysgrifenedig am ddiben yr archwiliad ar y ffordd drwy gyflwyno cais yn ysgrifenedig—

- (a) i'r heddlu sy'n gyfrifol am yr ardal lle y cynhelir yr archwiliad ar y ffordd, a
- (b) heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o 12 mis o'r diwrnod pan stopiwyd y cerbyd.

Gorfodi: darpariaeth atodol

34.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth gymryd camau gweithredu eraill i hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan y Rhan hon, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu ateb unrhyw gwestiwn y mae'r swyddog yn ystyried ei bod neu ei fod yn berthnasol i arfer y pŵer.

(2) Caiff swyddog gorfodaeth ddefnyddio grym rhesymol wrth arfer pŵer o dan—

- (a) rheoliad 28(1)(c), (2)(c) neu (4)(b),
- (b) rheoliad 29(1)(b) neu (d) neu (2)(b),
- (c) rheoliad 30(1)(b) neu (3)(b), neu
- (d) rheoliad 32(1).

(3) Ni chaiff swyddog gorfodaeth ond arfer pŵer o dan y Rhan hon os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.

(4) Yn y Rhan hon mae cyfeiriadau at ofyniad yn cynnwys cyfeiriadau at gyfyngiad.

RHAN 8

Troseddau a chosbau

Troseddau a chosbau

35.—(1) Mae person sydd—

- (a) yn torri gofyniad yn rheoliad 4(1), 6(1) neu (3), 7(1), 9(1) neu (2), 11(2), 12(2), 13(2), 14(2), 16, 22(1) neu 23(1), neu
- (b) heb esgus rhesymol, yn torri gofyniad yn rheoliad 8(1), 11(3), 12(3), 13(3), 14(3), 19(1), 20(1) neu (2), neu 22(5),

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae'n drosedd i berson ("P") roi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i swyddog olrhain cysylltiadau—

- (a) o dan reoliad 11(3), 12(3), 13(3) neu 14(3), neu
- (b) ynghylch—
 - (i) gwybodaeth gyswllt P, neu
 - (ii) personau y gall P fod wedi dod i gysylltiad agos â hwy,

pan fo P yn gwybod bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol, neu pan fo P yn ddi-hid o ran a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol.

(3) Mae person sy'n cymryd rhan mewn cynulliad—

- (a) sy'n digwydd mewn annedd breifat,
- (b) lle y mae mwy na 15 o bobl yn bresennol, ac
- (c) lle y mae pobl yn ymgynnull yn groes i reoliad 4(1),

yn cyflawni trosedd.

(4) Mae person sy'n rhwystro, heb esgus rhesymol, unrhyw berson rhag cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd.

(5) Mae person sydd—

- (a) heb esgus rhesymol, yn torri paragraff 3(1) o Atodlen 3,
- (b) yn torri paragraff 3(2) o'r Atodlen honno, neu
- (c) heb esgus rhesymol, yn tynnu, yn cuddio neu'n difrodi hysbysiad neu arwydd y mae'n ofynnol ei arddangos o dan baragraff 7(2)(a) o'r Atodlen honno,

yn cyflawni trosedd.

(6) Mae person sydd, heb esgus rhesymol—

- (a) yn torri cyfarwyddyd a roddir—
 - (i) gan swyddog gorfodaeth o dan Ran 7, neu
 - (ii) gan weithredwr gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus, cyflogai i'r gweithredwr, neu berson sydd wedi ei awdurdodi gan y gweithredwr, o dan reoliad 30(2), neu
- (b) yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio a roddir gan swyddog gorfodaeth o dan reoliad 28(1),

yn cyflawni trosedd.

(7) Mae trosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w chosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy.

(8) Mae adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(1) yn gymwys mewn perthynas â throedd o dan y rheoliad hwn fel pe bai'r rhesymau yn is-adran (5) yn cynnwys—

(1) 1984 p. 60. Amnewidiwyd adran 24 gan adran 110(1) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15).

- (a) cynnal iechyd y cyhoedd;
- (b) cynnal trefn gyhoeddus.

(9) Yn y rheoliad hwn, mae i “cysylltiad agos” yr un ystyr ag yn Rhan 4.

Troseddau a gyflawnwyd gan gyrff corfforedig etc.

36.—(1) Os profir bod trosedd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforedig—

- (a) wedi ei chyflawni â chydsyniad neu ymoddefiad swyddog i’r corff, neu
- (b) i’w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog o’r fath,

mae’r swyddog (yn ogystal â’r corff corfforedig) yn euog o’r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn, i gael achos yn ei erbyn a’i gosbi yn unol â hynny.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “swyddog”, mewn perthynas â chorff corfforedig, yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i’r corff corfforedig.

(3) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth gael ei ddwyn yn enw’r bartneriaeth yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o’r partneriaid.

(4) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gorff anghorfforedig ac eithrio partneriaeth gael ei ddwyn yn enw’r corff yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o’i aelodau ac, at ddibenion unrhyw achos o’r fath, mae unrhyw reolau llys sy’n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai’r corff hwnnw yn gorff corfforedig.

(5) Mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(1) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(2) yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforedig.

(6) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i’w thalu o asedau’r bartneriaeth.

(7) Mae dirwy a osodir ar gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i’w thalu o gronfeydd y gymdeithas.

(1) 1925 p. 86.
 (2) 1980 p. 43.

Hysbysiadau cosb benodedig

37.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw un y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol—

- (a) ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn, a
- (b) ei fod yn 18 oed neu drosodd.

(2) Hysbysiad yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i—

- (a) awdurdod lleol, neu
- (b) person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn,

a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru eu dynodi hwy eu hunain o dan baragraff (2)(b).

(4) Mae person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan—

- (a) rheoliad 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020,
- (b) rheoliad 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020, neu
- (c) rheoliad 31 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020,

i'w drin fel pe bai wedi ei ddynodi at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn.

(5) Pan fo awdurdod lleol wedi ei bennu yn yr hysbysiad rhaid iddo fod yn awdurdod (neu yn ôl y digwydd, unrhyw un o'r awdurdodau) yr honnir bod y drosedd wedi ei chyflawni yn ei ardal.

(6) Pan fo hysbysiad wedi ei ddyroddi i berson o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â throsedd—

- (a) ni chaniateir dwyn unrhyw achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad;
- (b) ni chaniateir euogfarnu'r person o'r drosedd os yw'r person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

Swm cosb benodedig: cyffredinol

38.—(1) Oni bai bod rheoliad 39, 40, 41 neu 42 yn gymwys, swm cosb benodedig yw £60.

(2) Ond caiff hysbysiad cosb benodedig bennu, os telir £30 cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau yn

dilyn dyddiad yr hysbysiad, mai dyna swm y gosb benodedig.

(3) Ac os yw'r person y dyroddir hysbysiad cosb benodedig iddo eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig perthnasol—

- (a) nid yw paragraffau (1) a (2) yn gymwys, a
- (b) y swm a bennir fel y gosb benodedig yw—
 - (i) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, £120;
 - (ii) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, £240;
 - (iii) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, £480;
 - (iv) yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, £960;
 - (v) yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir wedi hynny, £1,920.

(4) Ym mharagraff (3), ystyr “hysbysiad cosb benodedig” yw—

- (a) hysbysiad cosb benodedig pan fo swm y gosb benodedig wedi ei bennu o dan y rheoliad hwn;
- (b) hysbysiad cosb benodedig o dan—
 - (i) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020,
 - (ii) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020,
 - (iii) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, a
 - (iv) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020⁽¹⁾.

(5) Wrth gyfrifo nifer yr hysbysiadau cosb benodedig sydd wedi eu dyroddi i berson, nid yw unrhyw ystyriaeth i'w rhoi i hysbysiad sydd wedi ei ddyroddi i'r person mewn cysylltiad â throsedd honedig o dorri—

- (a) rheoliad 14B(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020, neu

(1) O.S. 2020/1011 (Cy. 225).

- (b) rheoliad 9 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020.

Swm cosb benodedig: cymryd rhan mewn cynulliad mawr mewn annedd breifat

39. Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throredd honedig o dan reoliad 35(3), swm y gosb benodedig yw £60.

Swm cosb benodedig: trefnu digwyddiad

40.—(1) Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throredd honedig o dorri rheoliad 7(1), swm y gosb benodedig yw £200.

(2) Ond os yw'r person y dyroddir iddo hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throredd honedig o dorri rheoliad 7(1) eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throredd honedig o'r fath—

- (a) nid yw paragraff (1) yn gymwys, a
- (b) swm y gosb benodedig yw—
 - (i) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £400;
 - (ii) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £800;
 - (iii) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £1,600;
 - (iv) yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £3,200;
 - (v) yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir wedi hynny, £6,400.

Swm cosb benodedig: trefnu digwyddiad cerddoriaeth sydd heb ei drwyddedu

41. Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throredd honedig o dorri rheoliad 8(1), swm y gosb benodedig yw £10,000.

Swm gosb benodedig: troseddau sy'n gysylltiedig â busnes

42.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir mewn cysylltiad â throredd honedig o dorri—

- (a) rheoliad 19(1),
- (b) rheoliad 20(1) neu (2), neu
- (c) paragraff 3(1) o Atodlen 3,

(y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn fel “trosedd busnes honedig”).

(2) Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throsedd busnes honedig, swm y gosb benodedig yw £1,000.

(3) Ond os yw'r person y dyroddir iddo hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd busnes honedig eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd honedig o'r fath—

- (a) nid yw paragraff (2) yn gymwys, a
- (b) swm y gosb benodedig yw—
 - (i) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £2,000;
 - (ii) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £4,000;
 - (iii) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir wedi hynny, £10,000.

Cosbau penodedig: ffurf a gweithdrefn

43.—(1) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—

- (a) rhoi manylion rhesymol fanwl am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd;
- (b) datgan y cyfnod pryd (oherwydd rheoliad 37(6)(a)) na ddygir achos am y drosedd;
- (c) pennu swm y gosb benodedig a bennir o dan reoliad 38, 39, 40, 41 neu 42 (yn ôl y digwydd);
- (d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo;
- (e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.

(2) Pa ddull bynnag arall a bennir o dan baragraff (1)(e), caniateir talu cosb benodedig drwy dalu ymlaen llaw a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) i'r person y nodir ei enw o dan baragraff (1)(d) i'r cyfeiriad a nodir.

(3) Pan fo llythyr yn cael ei anfon fel a grybwyllir ym mharagraff (2), ystyrir bod taliad wedi ei wneud ar yr adeg y byddai'r llythyr hwnnw wedi cael ei ddanfôn yn nhrefn arferol y post.

(4) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

- (a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran y person a chanddo gyfrifoldeb am faterion ariannol—
 - (i) yr awdurdod lleol, neu
 - (ii) y person sydd wedi ei ddynodi o dan reoliad 37(2)(b),

a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig y mae'r achos yn ymwneud ag ef, a

- (b) sy'n datgan bod y taliad am gosb benodedig wedi dod i law, neu heb ddod i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a nodwyd.

Hysbysiadau cosb benodedig: gwaharddiad ar gosbi ddwywaith

44.—(1) Pan fo'r un weithred neu anweithred, neu fwy neu lai yr un weithred neu anweithred, gan berson yn gallu arwain at gred resymol bod y person wedi cyflawni mwy nag un drosedd o dan y Rheoliadau hyn, ni chaniateir dyroddi cosb benodedig i'r person ond mewn cysylltiad ag un o'r troseddau honedig.

(2) Ond caniateir dyroddi hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad—

- (a) â'r drosedd honedig o dorri rheoliad 4(1), yn ogystal
- (b) â throredd o dan reoliad 35(3),

pan fo'r un weithred, neu fwy neu lai yr un weithred, gan berson yn arwain at gred resymol bod y person wedi cyflawni'r naill drosedd a'r llall.

Hunanargyhuddo

45.—(1) Caniateir i wybodaeth berthnasol gael ei defnyddio fel tystiolaeth yn erbyn y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef mewn achos troseddol.

(2) Pan ddefnyddir yr wybodaeth mewn achos ac eithrio am drosedd o dan y Rheoliadau hyn neu adran 5 o Ddeddf Anudon 1911(1) (datganiadau anwir a wneir ac eithrio ar lw)—

- (a) ni chaniateir i unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth gael ei rhoi gan yr erlyniad nac ar ei ran, a
- (b) ni chaniateir i unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth gael ei ofyn gan yr erlyniad nac ar ei ran.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

- (a) os rhoddir tystiolaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan y person a'i darparodd, neu ar ei ran, yn ystod yr achos, neu
- (b) os gofynnir cwestiwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan y person hwnnw, neu ar ei ran, yn ystod yr achos.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gwybodaeth berthnasol" yw—

(1) 1911 p. 6. Diwygiwyd adran 5 gan adran 1(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1948 (p. 58).

- (a) gwybodaeth sy'n wybodaeth berthnasol at ddibenion rheoliad 18;
- (b) gwybodaeth, neu'r ateb i gwestiwn, a roddir mewn ymateb i ofyniad a osodir o dan reoliad 34(1);
- (c) unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys mewn dogfen neu gofnodion electronig a ddangosir mewn ymateb i ofyniad a osodir o dan baragraff 8(1) o Atodlen 3.

Erlyn

46.—(1) Ni chaniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn ond gan—

- (a) y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus,
- (b) unrhyw berson sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru, neu
- (c) mewn perthynas ag achos am drosedd—
 - (i) o dorri gofyniad yn rheoliad 19(1) neu 20(1) neu (2), neu Atodlen 3, neu
 - (ii) o dan reoliad 35(4) neu (6), awdurdod lleol;

(2) Mae person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru o dan—

- (a) rheoliad 14 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020,
- (b) rheoliad 22 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020, neu
- (c) rheoliad 32 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020,

i'w drin fel pe bai wedi ei ddynodi o dan y rheoliad hwn.

RHAN 9

Cyffredinol

Dehongli

47.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) ystyr “gofalwr” yw person sy'n darparu gofal ar gyfer y person a gynorthwyir pan fo—
 - (i) hawlogaeth gan y gofalwr i asesiad o dan adran 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1),

(1) 2014 dccc 4.

- (ii) y gofal yn rhan o ddarparu gwasanaethau gofal cymunedol o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu
 - (iii) y gofal wedi ei ddarparu gan ddarparwr gofal sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(1);
- (b) ystyr “plentyn” yw person sydd o dan 18 oed;
- (c) ystyr “gwybodaeth gyswllt”, mewn perthynas â pherson, yw enw’r person a gwybodaeth sy’n ddigon i alluogi cysylltiad â’r person, (gan gynnwys rhif ffôn, ac, mewn perthynas â pherson mewn mangre reoleiddiedig, y dyddiad a’r amser yr oedd y person yn y fangre);
- (d) ystyr “swyddog olrhain cysylltiadau” yw—
- (i) person sydd wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen at ddibenion y gwasanaeth iechyd (o fewn ystyr “the health service” yn adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(2) neu adran 108 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(3));
 - (ii) person sydd wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan awdurdod lleol, sydd wedi ei ddynodi at ddibenion Rhan 4 gan Fwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru(4) neu awdurdod lleol.
- (e) ystyr “coronafeirws” yw coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);
- (f) ystyr “athletwr elît” yw unigolyn sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru;
- (g) ystyr “gorchudd wyneb” yw gorchudd o unrhyw fath sy’n gorchuddio trwyn a cheg person;
- (h) ystyr “llety gwyliau neu lety teithio” yw llety mewn mangre o fath a restrir ym mharagraffau 8 i 11 o Ran 1 o Atodlen 2;
- (i) ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(1) 2016 decc 2.

(2) 2006 p. 42.

(3) 1978 p. 29.

(4) A sefydlwyd gan O.S 2009/2058 (Cy. 177).

- (j) mae i “cyfrifoldeb rhiant” yr un ystyr ag a roddir i “parental responsibility” yn Neddf Plant 1989(1);
- (k) mae “person sy’n gyfrifol am gynnal busnes” yn cynnwys perchennog a rheolwr y busnes hwnnw;
- (l) mae “mangre” yn cynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ac unrhyw dir;
- (m) ystyr “gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus” yw gwasanaeth a ddarperir ar gyfer cludo teithwyr ar ffordd, ar reilffordd, ar dramffordd, yn yr awyr neu ar y dŵr;
- (n) mae i “mangre reoleiddiedig” yr ystyr a roddir gan reoliad 21(1);
- (o) mae “cerbyd” yn cynnwys awyren, car cebl, trê, tram a llestr;
- (p) mae “person hyglwyf” yn cynnwys—
 - (i) unrhyw berson sy’n 70 oed neu’n hŷn;
 - (ii) unrhyw berson o dan 70 oed sydd â chyflwr iechyd isorweddol;
 - (iii) unrhyw berson sy’n feichiog;
 - (iv) unrhyw blentyn;
 - (v) unrhyw berson sy’n oedolyn hyglwyf o fewn yr ystyr a roddir i “vulnerable adult” gan adran 60(1) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(2).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, o ran cyfeiriadau at “annedd breifat”—

- (a) maent yn cynnwys cwch preswyl ac unrhyw ardd, iard, tramwyfa, gris, tŷ allan neu unrhyw atodyn arall i’r annedd;
- (b) nid ydynt yn cynnwys y canlynol—
 - (i) llety gwyliau neu lety teithio;
 - (ii) llety mewn gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, o fewn yr ystyr a roddir i’r termau hynny gan Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;
 - (iii) llety cyfiawnder troseddol.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(1) 1989 p. 41. Gweler Rhan 1 o’r Ddeddf, y mae diwygiadau amrywiol wedi eu gwneud iddi, gan gynnwys gan Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (p. 22) ac O.S. 2019/1458.

(2) Diwygiwyd adran 60 gan adran 65 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

- (a) mae cynulliad pan fydd dau neu ragor o bobl yn yr un man er mwyn gwneud rhywbeth gyda'i gilydd;
- (b) mae digwyddiad yn achlysur—
 - (i) sydd wedi ei gynllunio a'i amserlennu at ddiben penodol, a
 - (ii) pan fo unrhyw nifer o bobl yn yr un lle at y diben hwnnw, pa un a ydynt yn cymryd rhan mewn cynulliad ai peidio.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

- (a) mae mangre o dan do os yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(1);
- (b) mae mangre wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol pan fo awdurdodiad wedi ei ganiatáu neu ei roi i'r fangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, ac mae i "awdurdodiad" yr ystyr a roddir i "authorisation" gan adran 136(5) o'r Ddeddf honno.

(5) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae gweithgaredd "wedi ei drefnu"—

- (a) os yw wedi ei drefnu gan—
 - (i) busnes,
 - (ii) corff cyhoeddus neu sefydliad elusennol, llesiannol, addysgol neu ddyngarol,
 - (iii) clwb neu sefydliad gwleidyddol, neu
 - (iv) corff llywodraethu cenedlaethol camp neu weithgaredd arall, a
- (b) os yw'r person sy'n ei drefnu wedi—
 - (i) cynnal asesiad risg a fyddai'n bodloni gofynion rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999(2), pa un a yw'r person yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hynny ai peidio, a
 - (ii) cydymffurfio â gofynion rheoliadau 21(2) a 24(1).

(6) At ddibenion paragraff (5)(b)—

- (a) mae rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gymwys fel pe bai'r gweithgaredd yn ymgymeriad a wneir gan y person sy'n ei drefnu;
- (b) mae rheoliad 21(2) o'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai—

(1) O.S. 2007/787 (Cy. 68).

(2) O.S. 1992/3242. Diwygiwyd rheoliad 3 gan O.S. 2005/1541, O.S. 2015/21 ac O.S. 2015/1637.

- (i) y man lle y mae'r gweithgaredd yn digwydd yn fangre reoleiddiedig at ddibenion y rheoliad hwnnw, a
- (ii) y person sy'n trefnu'r gweithgaredd oedd y person cyfrifol mewn perthynas â'r fangre reoleiddiedig honno.

Diwygiad canlyniadol

48. Yn rheoliad 19(10) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

“(d) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020.”

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 1.14 p.m. ar 5 Tachwedd 2020

ATODLEN 1

Rheoliad 19(1)

Busnesau neu wasanaethau y mae rhaid cau eu mangreoedd

1. Neuaddau cyngerdd.

2. Lleoliadau adloniant rhywiol (o fewn yr ystyr a roddir i “sexual entertainment venue” gan baragraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982(1)).

3. Theatrau.

4. Lleoliadau sydd wedi eu hawdurdodi i'w defnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol gan drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb (o fewn yr ystyr a roddir i “premises licence” a “club premises certificate” gan Ddeddf Trwyddedu 2003) lle y darperir cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio i aelodau'r cyhoedd neu aelodau'r lleoliad ddawnsio.

ATODLEN 2

Rheoliad 21(1)

Mangreoedd rheoleiddiedig

RHAN 1

Busnesau neu wasanaethau y mae eu mangreoedd yn fangreoedd rheoleiddiedig

1. Unrhyw fusnes sy'n gwerthu nwyddau neu wasanaethau ar gyfer eu gwerthu neu eu hurio mewn siop.

2. Canolfannau siopa ac arcedau siopa.

3. Banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd, darparwyr benthyciadau tymor byr, clybiau cynilo, peiriannau arian parod ac ymgymeriadau sydd, o ran eu busnes, yn gweithredu swyddfeydd cyfnewid arian cyfred, yn trawsyrru arian (neu unrhyw ffurf ar arian) drwy unrhyw ddull neu'n newid sieciau arian parod sydd wedi eu gwneud yn daladwy i gwsmeriaid yn arian parod.

4. Swyddfeydd post.

5. Bariau (gan gynnwys bariau mewn clybiau aelodau).

(1) 1982 p. 30. Mewnodwyd paragraff 2A o Atodlen 3 gan adran 27(3) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26).

6. Caffis, ffreuturau a bwytai (gan gynnwys ffreuturau yn y gweithle ac ystafelloedd bwyta mewn clybiau aelodau).

7. Tafarndai.

8. Safleoedd gwerysyla.

9. Safleoedd gwyliau.

10. Gwestai a llety gwely a brechwast.

11. Llety gwyliau arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hostelau a thai byrddio).

12. Tai arwerthiant.

13. Neuaddau bingo.

14. Alïau bowlio, arcedau diddanu a mannau chwarae o dan do.

15. Delwriaethau ceir.

16. Gwasanaethau trwsio ceir ac MOT.

17. Casinos.

18. Sinemâu.

19. Canolfannau cymunedol.

20. Amlogsfeydd.

21. Gwasanaethau deintyddol, optegwyr, gwasanaethau awdioleg, gwasanaethau trin traed, ceiropractyddion, osteopathiaid a gwasanaethau meddygol neu iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

22. Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lliw haul, gwasanaethau tylino, tyllu'r corff, tatwio, electrolysis neu aciwbigo.

23. Asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos.

24. Trefnwyr angladdau.

25. Ffeiriau pleser, parciau diddanu a pharciau thema.

26. Canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion.

27. Salonau trin gwallt a barbwyr.

28. Golchdai a siopau sychlanhau.

29. Canolfannau hamdden a chyfleusterau hamdden gan gynnwys stiwdios ffitrwydd o dan do, campfeydd a sbaon.

30. Llyfrgelloedd.

31. Marchnadoedd neu arwerthiannau da byw.

32. Marchnadoedd.

33. Amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau.

34. Salonau ewinedd a harddwch.

35. Gorsafoedd petrol.

36. Fferyllfeydd (yn cynnwys fferyllfeydd nad ydynt yn darparu cyffuriau ar bresgripsiwn) a siopau cemist.

37. Mannau addoli.

38. Canolfannau sglefrio.

39. Cyrtiau chwaraeon, parciau sglefrio, lawntiau bowlio, cyrsiau golff a meysydd neu leiniau chwaraeon amgaeedig (boed yn yr awyr agored neu o dan do).

40. Cyfleusterau storio a dosbarthu, gan gynnwys manau gollwng danfoniadau.

41. Pyllau nofio.

42. Busnesau tacsï neu logi cerbydau.

43. Lleoliadau ar gyfer digwyddiadau neu gynadleddau (gan gynnwys lleoliadau ar gyfer priodasau).

44. Milfeddygon.

45. Atyniadau i ymwelwyr a busnesau gwyliau, gweithgareddau hamdden neu ddigwyddiadau.

RHAN 2

Dehongli

46.—(1) At ddibenion yr Atodlen hon, ystyr “safle gwyliau” yw unrhyw dir yng Nghymru lle y gosodir cartref symudol neu garafán at ddibenion byw gan bobl (gan gynnwys unrhyw dir yng Nghymru a ddefnyddir ar y cyd â’r tir hwnnw), y mae’r caniatâd cynllunio perthnasol neu’r drwydded safle ar gyfer y tir mewn cysylltiad ag ef—

- (a) wedi ei fynegi i’w roi neu wedi ei mynegi i’w rhoi at ddefnydd gwyliau yn unig, neu
- (b) yn ei gwneud yn ofynnol bod adegau o’r flwyddyn pan na chaniateir gosod unrhyw gartref symudol neu garafán ar y safle i bobl fyw ynddo neu ynddi.

(2) At ddibenion penderfynu a yw safle yn safle gwyliau ai peidio, mae unrhyw ddarpariaeth yn y caniatâd cynllunio perthnasol neu yn y drwydded safle sy’n caniatáu gosod cartref symudol ar y tir i bobl fyw ynddo drwy gydol y flwyddyn i’w hanwybyddu os yw wedi ei hawdurdodi i’r canlynol feddiannu’r cartref symudol—

- (a) y person sy'n berchen ar y safle, neu
- (b) person sydd wedi ei gyflogi gan y person hwnnw ond nad yw'n meddiannu'r cartref symudol o dan gytundeb y mae Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(1) yn gymwys iddo.

ATODLEN 3

Rheoliad 26

Gorfodi gofyniad i gymryd mesurau ataliol mewn mangre reoleiddiedig

Hysbysiad gwella mangre

1.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad (“hysbysiad gwella mangre”) i berson cyfrifol os yw'r swyddog yn ystyried—

- (a) nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir ar y person gan reoliad 21(2), a
- (b) bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

(2) Rhaid i hysbysiad gwella mangre—

- (a) pennu'r fangre y mae'n ymwneud â hi;
- (b) pennu'r mesurau y mae'n ei gwneud yn ofynnol eu cymryd er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 21(2);
- (c) pennu terfyn amser y mae rhaid cymryd y mesurau oddi mewn iddo (na chaniateir iddo fod yn llai nag 48 awr sy'n dechrau â'r amser y dyroddir yr hysbysiad);
- (d) rhoi manylion yr hawl i apelio a roddir gan baragraff 5.

(3) Yn yr Atodlen hon, mae i “person cyfrifol” yr ystyr a roddir gan reoliad 21(1).

Hysbysiad cau mangre

2.—(1) Os yw naill ai amod 1 neu amod 2 wedi ei fodloni, caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad (“hysbysiad cau mangre”) i berson cyfrifol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r fangre, neu ran o'r fangre, gael ei chau.

(2) Amod 1 yw—

(1) 2013 decc 6, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (decc 7).

- (a) bod hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi i'r person,
- (b) bod y swyddog gorfodaeth yn ystyried bod y person wedi methu â chymryd y mesurau a bennir yn yr hysbysiad gwella mangre o fewn y terfyn amser penodedig, ac
- (c) bod y swyddog yn ystyried bod cau'r fangre, neu ran o'r fangre, yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(3) Amod 2 yw bod y swyddog gorfodaeth yn ystyried—

- (a) nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir ar y person gan reoliad 21(2), a
- (b) bod cau'r fangre, neu ran o'r fangre, (heb fod hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi) yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(4) Rhaid i hysbysiad cau mangre—

- (a) cynnwys disgrifiad o'r fangre sydd i'w chau,
- (b) pan fo hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi, nodi'r mesurau y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried—
 - (i) nad ydynt wedi eu cymryd, a
 - (ii) y mae rhaid eu cymryd er mwyn sicrhau bod y person cyfrifol yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 21(2),
- (c) pan na fo hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi, nodi'r rhesymau pam y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 21(2),
- (d) yn y naill achos neu'r llall, nodi'r rhesymau pam y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried bod cau'r fangre yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws,
- (e) pennu'r cyfnod y mae'r hysbysiad yn cael effaith amdano, ac
- (f) rhoi manylion yr hawl i apelio a roddir gan baragraff 5.

(5) Ni chaniateir i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (4)(e) fod yn hwy na 336 o oriau (14 o ddiwrnodau) sy'n dechrau â'r amser y dyroddir yr hysbysiad.

(6) Mae hysbysiad cau mangre yn cael effaith o'r amser y'i dyroddir neu o amser diweddarach a bennir yn yr hysbysiad.

(7) Ni chaniateir dyroddi hysbysiad cau mangre mewn perthynas â mangre sy'n rhan o seilwaith hollbwysig (er enghraifft, mangre a ddefnyddir i gynhyrchu trydan neu gyflenwi dŵr) neu a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Effaith hysbysiad cau mangre

3.—(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i hysbysiad cau mangre gymryd effaith, rhaid i'r person y'i dyroddir iddo sicrhau—

- (a) bod y fangre y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi yn cael ei chau, a
- (b) na chynhelir unrhyw fusnes neu na ddarperir unrhyw wasanaeth yn y fangre neu ohoni.

(2) Ni chaiff unrhyw berson fynd i'r fangre, neu fod yn y fangre, sydd wedi ei chau o dan is-baragraff (1) heb esgus rhesymol.

(3) At ddibenion is-baragraff (2), mae'r amgylchiadau pan fo gan berson esgus rhesymol yn cynnwys—

- (a) pan fo'r person yn byw yn y fangre;
- (b) pan fo'r person yn gwneud gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio hanfodol;
- (c) pan fo'r person yn gwneud pethau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y gellir cydymffurfio â rheoliad 21(2) pan ganiateir i'r fangre fod ar agor;
- (d) pan fo'r person yn swyddog gorfodaeth neu berson sy'n cynorthwyo swyddog gorfodaeth;
- (e) pan fo'n angenrheidiol i'r person fod yn y fangre er mwyn osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.

Terfynu hysbysiad gwella neu gau mangre

4.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad sy'n terfynu hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre os yw wedi ei fodloni—

- (a) bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad gwella mangre (os dyroddwyd un) wedi eu cymryd, neu
- (b) bod mesurau eraill wedi eu cymryd i sicrhau y gellir cydymffurfio â rheoliad 21(2) yn y fangre o dan sylw.

(2) Mae hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre yn peidio â chael effaith ar yr amser y dyroddir hysbysiad o'r terfyniad.

Apelau

5.—(1) Caiff person y dyroddir hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre iddo apelio i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i apêl gael ei gwneud—

- (a) drwy gŵyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980, a
- (b) o fewn 7 niwrnod ar ôl i'r hysbysiad gael ei ddyroddi.

(3) Ond caiff llys ynadon ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) os yw wedi ei fodloni bod rheswm da dros fethu ag apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw (a thros unrhyw oedi cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio y tu allan i amser).

(4) Caiff llys ynadon atal dros dro effaith hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre wrth aros am y penderfyniad ar yr apêl.

(5) Ar apêl yn erbyn hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre, caiff llys ynadon—

- (a) cadarnhau'r penderfyniad i ddyroddi'r hysbysiad;
- (b) cyfarwyddo bod yr hysbysiad i beidio â chael effaith;
- (c) addasu'r hysbysiad;
- (d) gwneud unrhyw orchymyn arall y mae'r llys yn ystyried ei fod yn briodol.

(6) Os yw'r llys ynadon yn cyfarwyddo bod hysbysiad i beidio â chael effaith neu'n addasu hysbysiad, caiff orchymyn i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r fangre o dan sylw ddigolledu'r person sy'n gyfrifol am y fangre am golled a ddiodefir o ganlyniad i ddyroddi'r hysbysiad.

(7) Caiff y naill parti neu'r llall ddwyn apêl yn erbyn penderfyniad llys ynadon ar apêl o dan yr adran hon i Lys y Goron.

(8) Ar apêl i Lys y Goron, caiff y Llys—

- (a) cadarnhau, amrywio neu wrthdroi penderfyniad y llys ynadon;
- (b) anfon yr achos yn ôl i'r llys ynadon i'w waredu yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Lys y Goron.

Dyroddi hysbysiadau gwella a chau mangreoedd a therfyniadau

6.—(1) Caiff hysbysiad gwella mangre, hysbysiad cau mangre neu derfyniad o'r naill neu'r llall o'r mathau hynny o hysbysiad ei ddyroddi i berson drwy roi copi ohono yn ysgrifenedig i'r person hwnnw.

(2) Ond pan na fo'r person sy'n gyfrifol am y fangre y mae'r hysbysiad neu'r terfyniad yn ymwneud â hi yn y fangre pan yw'r hysbysiad i'w ddyroddi, mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei ddyroddi i'r person hwnnw—

- (a) os rhoddir copi ohono i unrhyw berson arall yn y fangre yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am unrhyw fusnes neu wasanaeth a gynhelir yn y fangre, neu
- (b) os nad oes unrhyw berson o'r fath yn y fangre pan yw'r hysbysiad i'w ddyroddi, os gosodir copi o'r hysbysiad mewn lle amlwg yn y fangre.

Rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau gwella a chau mangreodd

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog gorfodaeth wedi dyroddi hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre.

(2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dyroddi'r hysbysiad, rhaid i'r swyddog gorfodaeth—

- (a) arddangos copi o'r hysbysiad, ac arwydd ar y ffurf a nodir yn Atodlen 4, mewn man amlwg yn agos i bob mynedfa i'r fangre;
- (b) trefnu i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r fangre.

(3) Rhaid i hysbysiad neu arwydd a arddangosir o dan is-baragraff (2)(a) fod o faint A4 o leiaf.

(4) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei arddangos a'i gyhoeddi o dan is-baragraff (2) barhau i gael ei arddangos a'i gyhoeddi, a rhaid i arwydd y mae'n ofynnol ei arddangos o dan yr is-baragraff hwnnw barhau i gael ei arddangos, am gyhyd ag y mae'r hysbysiad yn cael effaith.

Dangos dogfennau etc.

8.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth, er mwyn hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan yr Atodlen hon, ei gwneud yn ofynnol dangos unrhyw ddogfennau neu gofnodion electronig, edrych ar y dogfennau hynny neu'r cofnodion electronig hynny a chymryd copïau ohonynt.

(2) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol o dan is-baragraff (1) i berson ddarparu dogfen, cofnod neu wybodaeth arall y gellid maentumio hawliad am ffrain broffesiynol gyfreithiol mewn cysylltiad â hi neu ag ef mewn achos cyfreithiol.

ATODLEN 4




Rheoliad 26

Y ffurf ar arwydd i fynd gyda hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre

Yr arwydd i'w arddangos gyda hysbysiad gwella mangre

1.—(1) Rhaid i arwydd a arddangosir gyda hysbysiad gwella mangre o dan baragraff 7(2)(a) o Atodlen 3 fod ar y ffurf a nodir isod.



(2) Rhaid defnyddio'r lliwiau gwyn, du ac ambr C0 M60 Y100 K0 yn yr arwydd.

 <p>GIG CYMRU NHS WALES</p>	<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales</p>	 <p>DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE</p>	 <p>Llywodraeth Cymru Welsh Government</p>
<p>IECHYD Y CYHOEDD Y CORONAFEIRWS</p> <p>Gofyniad i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre:</p>	<p>PUBLIC HEALTH CORONAVIRUS</p> <p>Requirement to minimise risk of exposure to coronavirus on premises:</p>		
<p>ANGEN GWELLA</p>			
<p>IMPROVEMENT NEEDED</p>			
<p>Diogelu Cymru gyda'n gilydd</p>		<p>Together we'll keep Wales safe</p>	
<p><small>© Crown Copyright 2020. Llywodraeth Cymru WG41123 / Crown copyright 2020. Welsh Government WG41123</small></p>			

Yr arwydd i'w arddangos gyda hysbysiad cau mangre

2.—(1) Rhaid i arwydd a arddangosir gyda hysbysiad cau mangre o dan baragraff 7(2)(a) o Atodlen 3 fod ar y ffurf a nodir isod.

(2) Rhaid defnyddio'r lliwiau gwyn, du and choch C15 M100 Y100 K0 yn yr arwydd.

 <p>GIG CYMRU NHS WALES</p>	<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales</p>	 <p>DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE</p>	 <p>Llywodraeth Cymru Welsh Government</p>
<p>IECHYD Y CYHOEDD</p> <p>Y CORONAFEIRWS</p> <p>Gofyniad i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre:</p>	<p>PUBLIC HEALTH</p> <p>CORONAVIRUS</p> <p>Requirement to minimise risk of exposure to coronavirus on premises:</p>		
<p>CAEWYD Y FANGRE HON</p>			
<p>PREMISES CLOSED</p>			
<p>Diogelu Cymru gyda'n gilydd</p>		<p>Together we'll keep Wales safe</p>	
<p><small>© Crown Copyright 2020, Llywodraeth Cymru WG41123 / Crown copyright 2020, Welsh Government. WG41123</small></p>			

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020.

Mark Drakeford
Prif Weinidog Cymru

5 Tachwedd 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau yn gosod cyfyngiadau a gofynion sy'n angenrheidiol i ddiogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws, a hynny yn syth ar ôl i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 ddod i ben.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae angen i unrhyw ymyrraeth yn yr hawliau hyn hefyd gael ei gydbwyso yn erbyn rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae gweithredu cyfyngiadau a gofynion cenedlaethol newydd o dan y Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad cynyddol y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i leihau'r cynnydd yng nghyfradd drosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y rheoliadau a chreu troseddau.

Sylwer y gwneir y Rheoliadau o dan adran 45B yn ogystal ag adran 45C o Ddeddf 1984 (am fod y cyfyngiadau ynghylch teithio yng Nghymru ac allan o Gymru yn cael effaith ar deithio domestig a rhyngwladol). Mae rheoliadau a wneir o dan yr adrannau hynny yn ddarostyngedig i weithdrefn wahanol yn y Senedd. Fodd bynnag, yn unol ag adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' fel y nodir yn adrannau 45Q a 45R o Ddeddf 1984.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwneir y Rheoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Cyflwynodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 gyfnod atal byr rhwng 23 Hydref a 8 Tachwedd drwy gyfrwng cyfyngiadau a gofynion. Er na fydd effaith y cyfnod atal byr ar gyfradd atgynhyrchu COVID-19 yn gwbl hysbys am rai wythnosau, diben gwneud y Rheoliadau oedd darparu amodau a fyddai'n arwain at ostyngiad yn y gyfradd atgynhyrchu. Mae'r dystiolaeth wyddonol a ddefnyddir i asesu'r risg i iechyd y cyhoedd yn cael ei darparu gan [Gell Cyngor Technegol](#) Llywodraeth Cymru ac mae ar gael ar wefan llyw.cymru.

I gydnabod hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gosod cyfyngiadau a gofynion newydd ar gyfer Cymru gyfan.

Cyngor Prif Swyddog Meddygol Cymru yw bod y cyd-destun iechyd y cyhoedd yn cefnogi llacio'r cyfyngiadau a'r gofynion a osodwyd yn ystod y cyfnod atal byr yn raddol, yn hytrach na'u llacio yn llwyr. Mae hyn yn cynnwys ceisio cadw cydbwysedd rhwng cyfyngu ar gymysgu mewn mannau cyhoeddus a phreifat i leihau trosglwyddiadau a chaniatáu i bobl gyfarfod â ffrindiau a theulu, sy'n bwysig ar gyfer lles pobl. Bwriad y Rheoliadau hyn yw atal marwolaethau o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19, a marwolaethau oherwydd nad yw gwasanaethau'r GIG ar gael gan fod y feirws wedi trosglwyddo'n eang yn y gymuned.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth yn y meysydd allweddol canlynol:

- a) gwahardd pobl rhag cyfarfod mewn cartref preifat, ac eithrio ag aelodau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig, heb esgus rhesymol;
- b) caniatáu i hyd at ddwy aelwyd gytuno i ffurfio aelwyd estynedig (ni fydd hyn yn cael ei gyfyngu i amgylchiadau lle ceir un oedolyn yn unig yn un o'r aelwydydd);
- c) gwahardd pobl rhag cyfarfod mewn mannau cyhoeddus heb esgus rhesymol, ond
 - a. caniatáu i hyd at bedwar person o unrhyw aelwyd, neu unrhyw nifer o aelodau o'r un aelwyd, gyfarfod yn yr awyr agored neu mewn mangreoedd rheoleiddiedig;
 - b. caniatáu i aelwyd estynedig gyfarfod yn yr awyr agored;
 - c. caniatáu i hyd at 15 o bobl o dan do neu 30 yn yr awyr agored gyfarfod i gymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i drefnu gan gorff cyfrifol;
- d) caniatáu teithio o fewn ac ar draws Cymru ond gwahardd teithio allan o Gymru ac i mewn i Gymru heb esgus rhesymol;
- e) cyflwyno gofynion i bobl hunanynysu os byddant wedi cael prawf positif am y coronafeirws neu pan fo swyddog olrhain cysylltiadau yn dweud wrthynt am wneud hynny;
- f) gosod rhwymedigaethau ar bersonau sy'n gyfrifol am fangre sydd ar agor i'r cyhoedd, neu am waith a wneir ar unrhyw fangre, i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'r risg o'i ledaenu – gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr alluogi neu ganiatáu i gyflogeion hunanynysu pan fo swyddog olrhain cysylltiadau wedi dweud wrth y cyflogai am wneud hynny;
- g) ei gwneud yn ofynnol i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn ardaloedd cyhoeddus mangreoedd o dan do, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau penodol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn darparu y daw'r darpariaethau newydd i rym ar ddechrau 9 Tachwedd 2020. Fel y Rheoliadau cynharach a oedd yn delio â'r coronafeirws, rhaid adolygu'r Rheoliadau newydd hyn yn rheolaidd. Rhaid eu hadolygu:

- erbyn 19 Tachwedd,
- o leiaf unwaith yn y cyfnod rhwng 20 Tachwedd a 3 Rhagfyr,
- o leiaf unwaith yn y cyfnod rhwng 4 Rhagfyr a 17 Rhagfyr, ac
- o leiaf unwaith pob 21 o ddiwrnodau ar ôl hynny.

Bydd y Rheoliadau yn dod i ben ar ddiwedd y dydd ar 19 Chwefror 2021, oni bai eu bod yn cael eu dirymu cyn hynny.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn gosod cyfyngiadau ar gyfarfod â phobl eraill.

Yng nghartrefi preifat pobl (gan gynnwys gerddi), ni chaiff pobl ond cyfarfod ag aelodau o'u haelwyd a'u haelwyd estynedig. Maent yn darparu y caniateir ffurfio aelwyd estynedig pan fydd pob oedolyn mewn hyd at ddwy aelwyd yn cytuno i wneud hynny.

Y tu allan i gartrefi preifat, caiff pobl gyfarfod yn yr awyr agored mewn grwpiau o hyd at bedwar (heb gyfrif plant o dan 11 oed), neu ag aelodau o'u haelwyd a'u haelwyd estynedig (ni waeth beth fo'r nifer).

Mewn llety gwesty neu lety gwyliau arall, ni chaiff pobl ond cyfarfod ag aelodau o'u haelwyd eu hunain (felly, er enghraifft, ni chaiff pobl o aelwydydd gwahanol aros yn yr un ystafell mewn gwesty).

Mewn mannau eraill o dan do, caiff pobl gyfarfod naill ai ag aelodau o'u haelwyd eu hunain neu mewn grwpiau o hyd at bedwar (ond heb gyfrif unrhyw blant o dan 11 oed).

Ym mhob achos, caiff person fod mewn cynulliad o bobl yn groes i'r cyfyngiadau os oes ganddo esgus rhesymol. Mae esgus rhesymol yn golygu:

- i. unrhyw sefyllfa lle mae person yn cymryd rhan mewn cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gwaith, cael neu ddarparu cymorth meddygol neu gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol; neu
- ii. pan fo amgylchiadau penodol a restrir yn berthnasol. Mae'r amgylchiadau hyn yn fwy cyfyngedig ar gyfer cynulliaidau mewn cartref preifat nag ar gyfer cynulliaidau eraill. Mae enghreifftiau o'r amgylchiadau sy'n caniatáu i berson gyfarfod y tu allan i gartref preifat yn cynnwys mynd, drwy wahoddiad, i seremoni briodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu angladd; mynd i weithgaredd wedi'i drefnu gan gorff cyfrifol sy'n cynnwys hyd at 15 o bobl o dan do neu 30 o bobl yn yr awyr agored, cyn belled â bod y trefnydd wedi cynnal asesiad risg ac yn cymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws. At y dibenion hyn, nid yw pobl sy'n

gweithio neu'n darparu gwasanaethau gwirfoddol yn y digwyddiad, na phlant o dan 11 oed sy'n mynd i'r digwyddiad, yn cael eu cynnwys yn y cyfyngiad o 15 neu 30 o bobl.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwahardd trefnu digwyddiadau sydd â thros 15 o bobl yn bresennol (os yw'r digwyddiad o dan do yn bennaf) neu dros 30 o bobl yn bresennol (os yw'r digwyddiad yn yr awyr agored yn bennaf) ac yn gwneud darpariaeth benodol sy'n gwahardd digwyddiadau cerddoriaeth graddfa fawr sydd heb drwydded.

Mae Rhan 3 yn gwahardd pobl sy'n byw yng Nghymru rhag gadael Cymru, a phobl sy'n byw y tu allan rhag dod i mewn i Gymru heb esgus rhesymol. Eto, mae esgus rhesymol yn golygu naill ai—

- i. sefyllfa lle mae dod i mewn i Gymru neu adael Cymru yn rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol (nodir enghreifftiau yn y Rheoliadau), neu
- ii. o dan amgylchiadau penodol a restrir yn y Rheoliadau.

Caniateir teithio o fewn Cymru.

Mae Rhan 4 yn gosod gofynion newydd ar bobl sydd wedi cael prawf positif am y coronafeirws a'u cysylltiadau agos. Ni chaiff oedolion na phlant sydd wedi cael prawf positif, na phobl sydd wedi cael "cysylltiad agos" â rhywun sydd wedi cael prawf positif ac y mae swyddog olrhain cysylltiadau wedi cysylltu â hwy, ymadael â'r man lle y maent yn byw tan ddiwedd diwrnod olaf eu hynysiad. Yn gyffredinol, 10 diwrnod yw'r cyfnod ynysu ar gyfer y rhai sydd wedi cael prawf positif a 14 o ddiwrnodau ar gyfer y rhai sydd wedi cael cysylltiad agos. Fodd bynnag, mae dechrau'r cyfnodau hyn yn amrywio gan ddibynnu ar yr amgylchiadau (er enghraifft, a oes gan y person symptomau ai peidio). Rhaid i oedolion sy'n gyfrifol am blentyn sy'n gorfod ynysu gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y plentyn yn hunanynysu. Mae'r Rheoliadau yn galluogi swyddogion olrhain cysylltiadau i rannu gwybodaeth i'r graddau sy'n angenrheidiol i weithredu a gorfodi'r system hunanynysu.

Mae Rhan 5 ac Atodlen 1 yn ymwneud â busnesau a gwasanaethau y mae'n ofynnol iddynt gau i'r cyhoedd. Mae Atodlen 1 yn nodi nifer cyfyngedig o fusnesau sy'n gorfod aros ar gau gan gynnwys theatrau, neuaddau cyngerdd, clybiau nos a lleoliadau adloniant oedolion. Mae Rhan 5 hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n gwahardd gwerthu alcohol, mewn mangreoedd sydd wedi'u trwyddedu i'w werthu, ar ôl 10.00 p.m. ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r fangre fod ar gau erbyn 10.20 p.m. ar yr hwyraf.

Mae Rhan 6 ac Atodlen 2 yn cynnwys darpariaeth sy'n gosod gofynion ar y rhai sy'n gyfrifol am—

- i. mangre sydd ar agor i'r cyhoedd ac a restrir yn Atodlen 2,
- ii. cerbydau trafndiaeth gyhoeddus, a
- iii. mangre lle y gwneir gwaith

(y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "mangreoedd rheoleiddiedig") i gymryd mesurau rhesymol er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'r risg o'i ledaenu.

Mae hyn yn cynnwys gofyniad ar y rhai sy'n gyfrifol am fangre reoleiddiedig i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre a mesurau eraill, megis cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb, cynnal hylendid a darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n mynd i'r fangre neu'n gweithio yn y fangre ynghylch sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn pennu bod caniatáu i gyflogeion hunanynysu pan fo swyddog olrhain cysylltiadau wedi dweud wrthynt am wneud hynny yn fesur rhesymol. Hefyd, pennir bod casglu manylion cyswllt gan gwsmeriaid a chymryd mesurau rhesymol i sicrhau bod y manylion hynny yn gywir yn fesurau rhesymol.

Pennir mesurau rhesymol eraill mewn perthynas â mangreoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu neu gyflenwi alcohol—

- i. Rhaid i berson fod yn bresennol i reoli mynediad i fangreoedd trwyddedig ac i ddyrannu cyfnod amser penodol y caiff cwsmeriaid aros yn y fangre ar ei gyfer (bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi ynghylch y cyfnod amser a argymhellir mewn lleoliadau penodol). Diben hyn yw sicrhau bod gan bob cwsmer archeb ac nad yw pobl yn aros yn yr un lle am gyfnodau hir.
- ii. Rhaid i gwsmeriaid mewn mangreoedd trwyddedig archebu, cael eu gweini a bwyta unrhyw fwyd neu yfed unrhyw ddiodydd tra maent yn eistedd wrth fwrdd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi gofynion i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys tacsis, ac mewn mannau penodol o dan do, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau a restrir.

Mae Rhan 7 ac Atodlen 3 yn ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion, gan gynnwys pwy gaiff gymryd camau gorfodi, mater hysbysiadau cydymffurfio, pwerau symud a gwasgaru cynulliadau, pwerau i stopio digwyddiadau, pwerau i gyfarwyddo pobl sy'n torri'r rheoliadau hunanynysu i ddychwelyd adref a phwerau i orfodi'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb. Mae'n darparu ar gyfer pŵer i fynd i fangre, i'r heddlu gynnal archwiliadau ar y ffyrdd ac i rym rhesymol gael ei ddefnyddio o dan amgylchiadau penodol.

Mae Atodlen 3 yn nodi cyfundrefn ar gyfer gorfodi'r gofyniad i gymryd pob mesur rhesymol mewn mangreoedd rheoleiddiedig. Caiff swyddogion gorfodi awdurdodau lleol archwilio mangre reoleiddiedig a dyroddi hysbysiadau gwella sy'n nodi mesurau y mae rhaid i'r fangre eu cymryd. Os na chymerir y mesurau hynny, neu os bydd swyddog gorfodi yn ystyried bod risg uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, caniateir dyroddi hysbysiad cau a rhaid i'r fangre gau. Mae'n drosedd mynd yn groes i hysbysiad cau.

Mae Rhan 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau a chosbau. Mae hyn yn cynnwys troseddau y caniateir eu cosbi drwy hysbysiad cosb benodedig yn lle dwyn achos llys.

Mae Rhan 9 yn cynnwys termau wedi'u diffinio a diwygiad canlyniadol.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Wrth benderfynu ar yr angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau hyn, a'u manylion, yr wyf i, ynghyd â Gweinidogion eraill a swyddogion Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol, arweinwyr busnes ac undebau llafur yng Nghymru, ac rydym yn parhau i gynnal trafodaethau o'r fath. Cyhoeddais yn fy natganiad i'r Aelodau ar 3 Tachwedd fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r newidiadau a gyflawnir yn y Rheoliadau hyn, ac adroddwyd am hynny yn eang wedyn.

6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o'r asesiad effaith integredig wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan llyw.cymru: <https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws>



Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

5 Tachwedd 2020

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddechrau 9 Tachwedd. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru. O dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hoffwn eich hysbysu bod rhain yn dod i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 2 Rhagfyr 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL COVID-19: mesurau cenedlaethol newydd i Gymru

DYDDIAD 2 Tachwedd 2020

GAN Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog

Wrth i ail wythnos y cyfnod atal byr yng Nghymru ddechrau, mae Gweinidogion wedi cyfarfod dros y penwythnos i drafod y mesurau cenedlaethol newydd, a fydd ar waith o 9 Tachwedd ymlaen.

Rydym yn parhau i gadarnhau manylion y mesurau hyn a byddaf yn gwneud datganiad pellach i'r Senedd yfory.

Yn sgil cyhoeddiad annisgwyl Prif Weinidog y DU dros y penwythnos ynglŷn â mis o gyfyngiadau yn Lloegr o ddydd Iau ymlaen, rydym wedi gorfod addasu rhai o'n cynlluniau, ond bydd y cyfnod atal byr yng Nghymru yn dod i ben fel y bwriadwyd ar 9 Tachwedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr effaith y bydd y cyfyngiadau yn Lloegr yn ei chael ar y camau nesaf yng Nghymru. Byddant yn cael effaith ar bobl sy'n byw yng Nghymru ond yn gweithio yn Lloegr; ar gwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru yn ogystal ag yn Lloegr ac ar fusnesau sy'n masnachu ar hyd y ffin.

Pan ddaw'r cyfnod atal byr i ben, bydd set newydd o fesurau cenedlaethol yn dod i rym, gan ddisodli'r cyfyngiadau lleol blaenorol. Byddwn unwaith eto'n gweithredu'n bwyllog ac yn llacio'r cyfyngiadau yn raddol er mwyn sicrhau bod y cyfnod atal byr yn cael yr effaith fwyaf posibl ar y coronafeirws. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa ar ôl pythefnos i weld a allwn wneud newidiadau pellach i'r mesurau cenedlaethol.

O ddydd Llun nesaf ymlaen, bydd dwy aelwyd yn cael ymuno â'i gilydd i ffurfio un aelwyd estynedig – neu swigen. Er mwyn helpu i gadw pawb mor ddiogel â phosibl yn eu cartrefi, dim ond pobl o'ch aelwyd eich hun neu'ch aelwyd estynedig fydd yn cael cwrdd yn eich cartref preifat.

Ar ôl 9 Tachwedd, bydd trefniadau newydd ar gyfer cyfarfod dan do mewn lleoliadau eraill, fel tafarndai, bariau, caffis a bwytai. Gan y bydd yr holl leoedd hyn ar gau yn Lloegr, rydym yn gorfod meddwl ymhellach ynglŷn â sut y gall y sector lletygarwch yng Nghymru, yn arbennig, weithredu o dan yr amgylchiadau newydd hyn. Bydd yr ystyriaethau hyn yn parhau drwy gydol y dydd heddiw.

Bydd hyd at 15 o bobl yn cael cymryd rhan mewn gweithgaredd dan do wedi'i drefnu, a hyd at 30 mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn yr awyr agored, ar yr amod bod yr holl fesurau cadw pellter cymdeithasol, hylendid dwylo a mesurau diogelwch eraill o ran COVID-19 yn cael eu dilyn.

Bydd ysgolion yn ailagor yn llawn o ddydd Llun nesaf ymlaen.

Bydd gweithio gartref yn dod yn bwysicach fyth.

Bydd pob safle busnes sydd wedi bod ar gau ers 23 Hydref yn cael ailagor ar 9 Tachwedd.

Bydd gwasanaethau awdurdodau lleol yn aildechrau, gan adlewyrchu amgylchiadau lleol, a bydd addoldai hefyd yn cael ailagor.

Ni fydd cyfyngiadau teithio yng Nghymru, ond yn ystod y cyfnod o fis o gyfyngiadau yn Lloegr ni fydd hawl i deithio y tu allan i Gymru heb esgus rhesymol.

Hoffwn ddiolch i bawb am eu holl gefnogaeth hyd yma yn ystod y cyfnod atal byr. Gyda'n gilydd rydyn ni'n diogelu Cymru.

SL(5)653 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Gwnaeth y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) dynnu Denmarc oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt o 4.00am ar 6 Tachwedd 2020. O'r amser hwnnw, bu'n rhaid i bobl sy'n dod i mewn i Gymru sydd wedi bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod ynysu yn flaenorol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y gofyn i ynysu i bob aelod o aelwyd unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod cyn hynny, fel bod gofyn i'r teithiwr sy'n dychwelyd a phob aelod o'i aelwyd bellach ynysu am 14 diwrnod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach:

- Ni chaiff unrhyw un sy'n dod i Gymru sydd wedi bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod blaenorol ei eithrio o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth teithiwr nac i ynysu.
- Bydd rhestr fwy cyfyngedig o'r rhesymau a ganiateir dros gael gadael man ynysu hefyd yn gymwys i deithwyr sy'n dychwelyd o Ddenmarc ac ar gyfer unrhyw aelod o'u haelwyd.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Yn y fersiwn Saesneg, yn rheoliadau 3(3), 3(4), 4(3) a 4(4), nid yw'r dyfynodau sy'n dynodi'r geiriad sydd i'w mewnosod yn y lle cywir – dylai'r dyfynnod agoriadol ym mhob achos ddod o flaen "or". Er y gall y darlennydd gasglu'r hyn sydd i'w amnewid, nid yw'r ddarpariaeth fel y'i drafftwyd yn mynegi hyn yn glir.



2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 4(3) yn diwygio rheoliad 28(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 4"). Fodd bynnag, mae rheoliad 28(1) yn ymwneud â chynulladau mewn anheddau preifat, ac mae is-baragraffau (a) i (c) yn rhoi pwerau penodol i swyddogion gorfodi wasgaru cynulladau o'r fath.

Gan nad yw rheoliad 28(1) yn rhoi pŵer i swyddogion gorfodi roi cyfarwyddyd i berson ddychwelyd i'r man lle mae'n byw, mae'n ymddangos yn afresymegol bod y diwygiad wedi'i fewnosod yn y paragraff hwnnw – yr effaith fyddai na fyddai swyddog gorfodi sydd â sail resymol i amau bod person yn torri rheoliad 18A(3) yn gallu rhoi cyfarwyddyd i'r person hwnnw ddychwelyd i'r man lle mae'n ofynnol iddo fod (yn rhinwedd rheoliad 18A(3)).

Mae'n ymddangos y dylai rheoliad 4(3) mewn gwirionedd ddiwygio rheoliad 28(4) o Reoliadau Rhif 4, gan fod y paragraff hwnnw'n ymwneud ag unigolion sy'n ddarostyngedig i ofynion hunanynysu. Mae'r pwerau sy'n cael eu rhoi i swyddogion gorfodi yn rhinwedd paragraff (4) yn cyfateb i'r hyn a dybiwn yw effaith arfaethedig rheoliad 4(3) yn yr ystyr eu bod yn caniatáu i swyddogion gorfodi roi cyfarwydd i berson i ddychwelyd i'r man lle mae'n byw (neu symud person i'r lle hwnnw).

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 4(5) yn diwygio rheoliad 29(1)(b) o Reoliadau Rhif 4. Fodd bynnag, nid yw "16" yn digwydd yn unman yn is-baragraff (b), felly mae'n amhosibl mewnosod y diwygiad 'ar ôl "16"' fel y darperir gan y ddarpariaeth. At hynny, nid yw'n ymddangos bod y mewnosodiad yn berthnasol i reoliad 29 (sy'n trafod pwerau sy'n ymwneud â digwyddiadau gwaharddedig).

O ystyried yr hyn rydym yn tybio yw effaith arfaethedig y diwygiad, mae'n ymddangos y dylai rheoliad 4(5) ddiwygio rheoliad 35(1) (a) o Reoliadau Rhif 4. Pe bai'r diwygiad yn cael ei fewnosod yno byddai'n ei gwneud hi'n drosedd i dorri'r gofyniad yn rheoliad 18A(3). Byddai hyn yn adlewyrchu'r diwygiad a wnaed i reoliad 29(1)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 gan reoliad 3(5) o'r Rheoliadau hyn.

4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

- (a) Cyfeirir at adran 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 fel un o'r pwerau galluogi yn y Saesneg, ond mae'r Gymraeg ond yn cyfeirio at adran 45P;
- (b) Mae troednodyn yn cyfeirio at Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ar dudalen 3 yn y Gymraeg ond nid oes troednodyn cyfatebol yn y Saesneg;
- (c) Ym mharagraff (4)(a)(ii) o'r testun a fewnosodwyd gan reoliad 2(7), mae'r Saesneg yn nodi: *'to avoid serious illness, serious injury or other risk of serious harm;*' ac mae wedi'i gyfieithu fel *'i osgoi salwch neu anaf neu i ddianc rhag risg o niwed difrifol;*'. Credwn y



dylai'r cyfieithiad nodi 'i osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol';

- (d) Mae'r dyfynodau sydd yn y man anghywir yn rheoliadau 3(3) a 3(4) yn y drefn honno (a nodir yn y pwynt adrodd technegol cyntaf) wedi arwain at y Gymraeg yn peidio â chynnwys y gair 'neu yn y ddau achos.

Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi'r canlynol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau rhif 3 a rhif 4;

Rydym yn cytuno nad yw'r Rheoliadau hyn yn amrywio ar hawliau unigolion o dan y ddeddfwriaeth a restrir uchod. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi set fwy cyfyngedig o amgylchiadau lle gall unigolion adael man ynysu dros dro nag sy'n berthnasol i bersonau y mae'n ofynnol iddynt ynysu heblaw oherwydd eu bod wedi cyrraedd Cymru o Ddenmarc.

A all Llywodraeth Cymru roi esboniad o'r rhesymeg dros yr ymyrraeth gynyddol hon â hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop?

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol a'r pwynt adrodd rhinweddau cyntaf.



Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
10 Tachwedd 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 184

Legislation, Justice and Constitution Committee

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1237 (Cy. 279)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Cymru) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (gyda'i gilydd "Rheoliadau Cyfyngu Rhif 3 a Rhif 4").

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau yn gosod gofynion a chyfyngiadau ar unigolion, busnesau ac eraill.

Mae 3 Rhan i'r Rheoliadau.

Mae Rhan 1 yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn mewnosod darpariaethau sy'n ymwneud â Denmarc yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel rheoliad 12A newydd. Mae hyn yn darparu pan fydd person wedi bod yn Nenmarc yn ystod y 14 diwrnod diwethaf ac yn cyrraedd Cymru ar neu ar ôl 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020, nad yw'r categorïau o bersonau esempt y rhestrir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys, ac yn nodi amgylchiadau mwy cyfyngedig lle y gall person adael ei ynysu dros dro. Mae'r gofynion ynysu hefyd yn berthnasol i unrhyw aelodau o aelwyd lle mae'r person yn ynysu.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn mewnosod darpariaethau newydd sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar yn Rheoliadau Cyfyngu Rhif 3 a Rhif 4. Mae'r darpariaethau hyn yn darparu, pan fo person yng Nghymru am 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020 ar ôl cyrraedd o fewn y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dod i ben yn union cyn yr amser hwnnw ac wedi bod yn Nenmarc yn ystod y cyfnod hwnnw, fod angen i'r person hwnnw ac unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw ynysu am gyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyrhaeddodd y person Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1237 (Cy. 279)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Cymru) 2020**

Gwnaed am 3.33 a.m. ar 7 Tachwedd 2020

Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru 9 Tachwedd
2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) ystyr “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1);
- (b) ystyr “Rheoliadau Rhif 3” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (2);
- (c) ystyr “Rheoliadau Rhif 4” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (3).

RHAN 2

Diwygio Rhan 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Mewnosod darpariaethau newydd sy'n ymwneud â Denmarc

2. Yn Rhan 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ynysu etc.), ar ôl rheoliad 12, mewnosoder—

-
- (1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (W. 277) ac O.S. 2020/1232 (Cy. 278).
 - (2) O.S. 2020/1149 (Cy. 261).
 - (3) O.S. 2020/1219 (Cy. 276).

“Rheolau arbennig sy'n berthnasol i bobl sy'n teithio o Ddenmarc

12A.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan osodir gofyniad i ynysu (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2)) ar berson ("P") oherwydd fod P—

- (a) wedi cyrraedd Cymru o Ddenmarc, neu
- (b) wedi bod yn Nenmarc o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(2) Mae'r gofyniad i ynysu a osodir ar P hefyd yn cael ei osod ar bob aelod o aelwyd P.

(3) Er gwaethaf rheoliad 9(2), mae rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i P.

(4) Nid yw aelod o aelwyd P wedi'i eithrio o'r gofyniad i ynysu yn rhinwedd rheoliad 9(2).

(5) Yn unol â hynny, nid yw P nac unrhyw aelod o aelwyd P i'w drin fel person a ddisgrifir mewn unrhyw baragraff o Atodlen 2.

(6) At ddibenion rheoliad 10, mae aelod o aelwyd P i'w drin fel pe bai'r person hwnnw yw P.

(7) Mae rheoliad 10 yn gymwys i P (ac aelod o aelwyd P yn rhinwedd paragraff (6)) fel pe bai, yn lle paragraff (4) o'r rheoliad hwnnw, y canlynol yn cael ei amnewid—

“(4) Caniateir i P adael y fangre a bod y tu allan iddi—

- (a) am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol—
 - (i) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;
 - (ii) i osgoi salwch neu anaf neu i ddianc rhag risg o niwed difrifol;
- (b) os yw cwnstabl yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny.”

RHAN 3

Rheoliadau Rhif 3 a Rheoliadau Rhif 4

Diwygiadau i Reoliadau Rhif 3 sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar

3.—(1) Mae Rheoliadau Rhif 3 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

“Cyfyngiadau sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar

9A.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yng Nghymru am 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020,
- (b) wedi cyrraedd Cymru o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben yn union cyn 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020, ac
- (c) wedi bod yn Nenmarc o fewn y cyfnod hwnnw.

(2) Nid yw rheoliadau 3 i 7 yn gymwys i P nac i unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P.

(3) Ni chaiff P, nac unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, adael y man lle maent yn byw tan ddiwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyrhaeddodd P Cymru.

(4) Ond gall P, neu berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, adael y man lle maent yn byw—

- (a) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;
- (b) os yw cwnstabl yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny;
- (c) er mwyn osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol.”

(3) Yn rheoliad 24(1), ar ôl “3(1)” mewnosoder “9A(3)”.

(4) Yn rheoliad 26(1), ar ôl “3(1)” mewnosoder “9A(3)”.

(5) Yn rheoliad 29(1)(b), ar ôl “5(1)” mewnosoder “, 9A(3)”.

Diwygiadau i Reoliadau Rhif 4 sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar

4.—(1) Mae Rheoliadau Rhif 4 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 18 mewnosoder—

“PENNOD 3

Darpariaeth arbennig sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar

Cyfyngiadau sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Nenmarc yn ddiweddar

18A.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yng Nghymru am 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020,
- (b) wedi cyrraedd Cymru o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben yn union cyn 4.00 a.m. ar 7 Tachwedd 2020, ac
- (c) wedi bod yn Nenmarc o fewn y cyfnod hwnnw.

(2) Nid yw rheoliadau 4, 6 a 9 yn gymwys i P nac i unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P.

(3) Ni chaiff P, nac unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, adael y man lle maent yn byw tan ddiwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyrhaeddodd P Cymru.

(4) Ond gall P, neu berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, adael y man lle maent yn byw—

- (a) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol;
- (b) os yw cwnstabl yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny;
- (c) er mwyn osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol.”

(3) Yn rheoliad 28(1), ar ôl “4(1)” mewnosoder “neu 18A(3)”.

(4) Yn rheoliad 31(1), ar ôl “4(1)” mewnosoder “neu 18A(3)”.

(5) Yn rheoliad 29(1)(b), ar ôl “16” insert “, 18A(3)”.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Iechyd, un o
Weinidogion Cymru
Am 3.33 a.m. ar 7 Tachwedd 2020

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

9 Tachwedd 2020

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 3 a Rhif 4").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a osodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 (c. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb i ddrafft gael ei osod na'i gymeradwyo gan y Senedd. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo felly fel y gellir cymryd camau iechyd cyhoeddus er mwyn ymateb yn gyflym i fygythiad y coronafeirws i iechyd pobl. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion fel y'u nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd cyhoeddus i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau rhif 3 a rhif 4; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

Yn dod i rym

Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bod y Rheoliadau wedi dod i rym cyn iddynt gael eu gosod am fod angen ymateb ar frys i'r newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd cyhoeddus a achosir gan bobl yn cyrraedd o Ddenmarc.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae'r Memoranda Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau 3 a 4 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau eithriedig na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r manau hynny – y mwyaf perthnasol i'r Rheoliadau hyn pan wnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 18) oedd i dynnu Denmarc ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig o 04:00am 6 Tachwedd 2020. Ers yr amser hwnnw, mae pobl sydd wedi bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod blaenorol sy'n cyrraedd Cymru wedi gorfod ynysu.

Roedd y diwygiad hwn yn angenrheidiol am fod risgiau iechyd yn dod i'r amlwg ac yn cael eu hadrodd yn Nenmarc sy'n dangos bod straen newydd o feirws y covid yn cael ei drosglwyddo o fincod i bobl, a bod angen gweithredu cyn i fwy o deithwyr rhyngwladol o Ddenmarc gyrraedd y DU. Mae'r diwygiadau a wnaed yn awr gan y Rheoliadau newydd hyn yn estyn y gofyn i ynysu i bob aelod o aelwyd unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru o 4.00am ar 7 Tachwedd sydd wedi bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod cyn hynny; fel bod gofyn i'r teithiwr sy'n dychwelyd a phob aelod o'i aelwyd bellach ynysu am 14 diwrnod. Mae'r diwygiadau'n datgymhwysu hefyd yr holl sectorau eithriedig a restrir Atodlen 2, fel na chaiff unrhyw un sy'n dod i Gymru sydd wedi bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod blaenorol ei eithrio o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth teithiwr nac i ynysu. Bydd rhestr fwy cyfyngedig nag arfer o'r rhesymau dros gael gadael man ynysu hefyd yn gymwys fel rhan o'r ymateb i'r bygythiad i iechyd cyhoeddus.

Mae'r newid yn cyd-ddigwydd â gweithredu pwerau mewnfario Llywodraeth y DU, sy'n golygu y gwrthodir mynediad i'r DU i bob teithiwr nad yw'n ddinesydd Prydeinig neu nad yw'n breswlydd Prydeinig sydd wedi bod yn Nenmarc neu ar dramwy trwy Ddenmarc yn y 14 diwrnod diwethaf.

Er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, mae newidiadau wedi'u gwneud hefyd i Rheoliadau rhif 3 a rhif 4 fydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un a gyrhaeddodd Cymru cyn 4am 7 Tachwedd ar ôl bod yn Nenmarc yn y 14 diwrnod blaenorol i ynysu am 14 diwrnod o ddyddiad cyrraedd Cymru. Estynnir y gofyn hwnnw hefyd i unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r gofynion newydd hyn yn effeithiol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn cysylltu ar frys â holl drigolion Cymru sydd wedi bod yn Nenmarc yn ystod y 14 diwrnod diwethaf i esbonio'r gofynion ynysu newydd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Ein cyf/Our ref MA/VG/3672/20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

7 Tachwedd 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau)
(Diwygio) (Cymru) 2020**

Dros nos gwnes i'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym am 4.00am y bore yma cyn y gellid ei osod, oherwydd yr angen frys i ymateb i newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan y rhai sy'n cyrraedd o Denmarc. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig ar Ddydd Llun 9 Tachwedd.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 4 Rhagfyr 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn i'w trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 6.1

SL(5)636 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth") yn gosod gofyniad ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru ("gweithredwyr") i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodol i deithwyr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth er mwyn—

- ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu'r wybodaeth yn ystod cam ychwanegol, sef 24 i 48 o oriau cyn yr amser y disgwylir i wasanaeth teithwyr rhyngwladol ymadael, a
- diweddarau'r wybodaeth sydd i'w darparu cyn yr archebir taith a chyn y cofrestrir ar gyfer taith, ac yn ystod y daith i'r porthladd yng Nghymru.

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 3 o'r Rheoliadau Gwybodaeth er mwyn pennu'r wybodaeth wedi ei diweddarau sydd i'w darparu cyn yr archebir taith a chyn y cofrestrir ar gyfer taith.

Mae rheoliad 2(4) yn mewnosod rheoliad 3A newydd yn y Rheoliadau Gwybodaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu'r wybodaeth 24 i 48 o oriau cyn yr amser y disgwylir i wasanaeth teithwyr rhyngwladol ymadael.

Mae rheoliad 2(5), (6) a (7) yn gwneud diwygiadau canlyniadol, gyda rheoliad 2(7) yn diwygio rheoliad 6 o'r Rheoliadau Gwybodaeth (Troseddau), fel bod person sy'n torri gofyniad yn rheoliad 3A(2) yn cyflawni trosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy.

Mae rheoliad 2(8) yn amnewid yr Atodlen i'r Rheoliadau Gwybodaeth.

Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.



Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae rheoliad 2(3) yn amnewid y testun newydd i reoliad 3(2) o'r Rheoliadau Gwybodaeth ac yn rheoliad newydd 3(2)(d) mae'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwr ofyn i'r wybodaeth berthnasol gael ei throsglwyddo i unrhyw berson y mae archeb yn cael ei gwneud ar ei ran, neu daith sy'n cael ei chofrestru. Nid yw'n glir a ddylai'r cais hwnnw fod yn ysgrifenedig neu a ellir ei wneud ar lafar.

Mae hyn yn wahanol i reoliad 3A(5) newydd, a fewnosodir gan reoliad 2(4). Mae'n nodi pan fo person arall yn archebu taith ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol ar ran teithiwr arall, cydymffurfir â'r rheoliad os darperir y wybodaeth berthnasol i'r person hwnnw rhwng 24 i 48 o oriau cyn yr amser ymadael a drefnwyd, ynghyd â chais ysgrifenedig yn gofyn iddynt ddarparu'r wybodaeth honno i'r teithiwr.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Yn dilyn cod asesu effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is ddeddfwriaeth, mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o'r ymateb i bandemig parhaus COVID-19 ac mae angen eu rhoi ar waith ar frys. Felly, nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi."

"Fodd bynnag, mae asesiad cychwynnol yn dangos bod effaith y Rheoliadau Diwygio ar weithredwyr yn isel."



Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim

Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020

Craffu Technegol

1. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y rheoliad 3(2)(d) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr wneud cais i'r wybodaeth berthnasol gael ei throsglwyddo i unrhyw berson yr archebir taith ar ei ran, neu y cofrestrir ar gyfer taith ar ei ran. Mae'r Pwyllgor yn ystyried ei bod yn aneglur a ddylai'r cais hwnnw fod yn ysgrifenedig ynteu a ellir ei wneud ar lafar, a thynnodd sylw at hynny. Nodir fod hyn yn wahanol i'r rheoliad 3A(5) newydd, a fewnosodir gan reoliad 2(4). Mae'r rheoliad 3A(5) newydd yn datgan pan fydd person arall yn archebu taith ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol ar ran teithiwr arall, y cydymffurfir â'r rheoliad os darperir yr wybodaeth berthnasol i'r person hwnnw rhwng 24 a 48 o oriau cyn yr amser y disgwylir i'r daith ymadael, ynghyd â chais ysgrifenedig iddo ddarparu'r wybodaeth honno i'r teithiwr.

Nid yw rheoliad 3(2)(d) yn pennu bod rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig, felly y gweithredwr sydd i benderfynu sut y gwneir y cais. Pan fo'n ofynnol i gais gael ei wneud yn ysgrifenedig, pennir hyn yn y ddarpariaeth berthnasol, fel yn y rheoliad 3A(5) newydd.

Er nad yw'n ofynnol i'r cais i drosglwyddo'r wybodaeth wrth archebu a chofrestru gael ei wneud yn ysgrifenedig yn unol â'r rheoliad 3(2)(d) newydd, gall gweithredwyr wneud y cais yn ysgrifenedig pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

Byddwn yn ystyried a ddylid diwygio'r rheoliad 3(2)(d) newydd fel ei bod yn ofynnol i'r cais a wneir wrth archebu a chofrestru hefyd gael ei wneud yn ysgrifenedig.

Eitem 6.2

SL(5)638 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1), a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Mae'r Rheoliadau hyn:

- yn gosod cyfyngiadau ar bersonau sy'n teithio i ardaloedd o Gymru nad ydynt wedi eu dynodi'n ardaloedd diogelu iechyd lleol o rannau o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd â chyffredinrwydd uchel o'r Coronafeirws, a chyfyngiadau cyfatebol ar bobl sy'n teithio o Gymru i ardaloedd o'r fath. Yr ardaloedd sydd â chyffredinrwydd uchel yw'r rhai a ddynodwyd fel a ganlyn gan yr awdurdod perthnasol yn y rhan honno o'r DU:
 - Lloegr – pob ardal Haen 2 "uchel" a Haen 3 "uchel iawn"
 - Yr Alban – ardaloedd wedi eu diogelu sy'n destun mesurau dros dro ychwanegol
 - Gogledd Iwerddon – y diriogaeth gyfan ar hyn o bryd.
- yn darparu bod mynd i mewn i ardal diogelu iechyd leol, neu ei gadael, i gymryd rhan mewn gweithgareddau, neu eu hwyluso, a drefnir ar gyfer datblygiad neu lesiant plant yn esgus rhesymol, ac maent yn addasu'r esgusodion rhesymol dros ymgynnull ac am fynd i mewn i ardal diogelu iechyd leol, neu ei gadael, fel eu bod yn gyson.
- yn gwneud newidiadau mân a chanlyniadol i sicrhau cysondeb a diweddarau enw llawn "Menai (Bangor)" fel un o'r adrannau etholiadol yng Ngwynedd, a restrir ym mharagraff 1 o Atodlen 4A i'r prif Reoliadau.

Daw'r Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 16 Hydref 2020. Mae'n rhaid i'r cyfyngiadau a'r gofynion a gyflwynir gan y diwygiadau hyn mewn perthynas â theithio gael eu hadolygu ar 23 Hydref 2020, neu cyn hynny, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod wedi hynny.

Y weithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio



diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 2(4)(a) o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i reoliad 14(2) o'r prif Reoliadau ac i "is-baragraff (b)". Nid yw rheoliad 2(4)(a) o'r fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at is-baragraff (b). Yn hytrach, mae'n dweud "ym mharagraff (2)". Dylai'r testun Cymraeg ddarllen fel "yn is-baragraff (b)" er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb â'r fersiwn Saesneg.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 4 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y cyfyngiadau a osodwyd gan y diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn i'r prif Reoliadau, yn gymesur. Mae'r diwygiadau hyn yn cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn croesawu'r dystiolaeth a ddarparodd Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r rheswm bod y prif Reoliadau wedi'u diwygio i gyfyngu ar deithio o ardaloedd eraill, ac at ddibenion caniatáu i bersonau adael ardal diogelu iechyd leol os bydd ganddynt esgus rhesymol dros wneud hynny. Credwn y bydd darparu'r dystiolaeth hon yn helpu o ran tryloywder, ac yn helpu gyda gwaith craffu'r Senedd ar gyfyngiadau'r coronafeirws. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyfeirio at yr adroddiad "SARS-Cov-2 Genomic Insights".



“Mae tystiolaeth gan weithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol yn awgrymu bod y coronafeirws yn symud o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws y DU ac ar draws Cymru. Fel rheol gyffredinol, mae'n canolbwyntio ar ardaloedd trefol cyn lledu i ardaloedd llai poblog o ganlyniad i bobl yn teithio. Mae'r papur SARS-Cov-2 Genomic Insights (Hydref 2020) yn dangos lledaeniad yr haint yn ddaearyddol ac yn cefnogi'r achos dros gyfyngiadau teithio fel modd o reoli'r lledaeniad. I atal lledaeniad pellach mewn ardaloedd lle mae nifer yr achosion o'r feirws yn parhau i fod yn gymharol isel, mae angen cyfyngu ar fyrder ar deithio nad yw'n hanfodol ar draws y DU. Bydd y diwygiadau'n cyflawni'r nod hwn.

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/dealltwriaeth-genomig-sars-cov-2-hydref-2020_0.pdf

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol a achosir gan y coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ehangach, cafodd grwpiau cynrychiolwyr ynghyd ag unigolion a busnesau wybod am lacio'r cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth eang a pharhaus i'r cyhoedd ledled y DU, gan gynnwys gennyf innau. Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau.”

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd technegol a phwynt 4 adrodd rhinweddau yn unig.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod yr offeryn wedi'i ddirymu gan y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 205

Legislation, Justice and Constitution Committee

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 22 Hydref 2020.

Pwynt craffu technegol:

Gwall mewn cyfeiriad yn y testun Cymraeg

2. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi y dylai'r testun Cymraeg yn rheoliad 2(4)(a) gyfeirio at "is-baragraff (b)". Mae'r Llywodraeth yn cytuno, ond ni chymerir unrhyw gamau gweithredu gan fod y Rheoliadau wedi eu dirymu am 6.00 p.m. ar 23 Hydref 2020.

Pwyntiau craffu ar rinweddau:

Pwynt 4: manylion ynghylch trefniadau i gyhoeddi adroddiadau o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

3. Ni chyhoeddwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r Rheoliadau. Mae hyn oherwydd bod y cyfyngiadau teithio a osodwyd gan y Rheoliadau yn ymateb brys i'r darlun a oedd yn gwaethygu o ran mynychder a throsglwyddiad y coronafeirws yng Nghymru a'r cyngor iechyd a oedd yn argymhell bod mesurau pellach yn cael eu cymryd yn gyflym i reoli symudiadau pobl.
4. Er na chyhoeddwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar y penderfyniad i ganiatáu i blant deithio'n rhydd ar draws ffiniau ardaloedd diogelu iechyd lleol at ddibenion penodedig, ystyriwyd effeithiau ar gydraddoldeb yn y penderfyniad. Nod y diwygiad a wnaed gan y Rheoliadau yw galluogi plant i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau er mwyn ategu eu hiechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Arweiniodd yr ystyriaethau cydraddoldeb at gynnwys mwy na dim ond gweithgareddau chwaraeon yn y diwygiad, gan gydnabod manteision gweithgareddau eraill ar iechyd a llesiant ac nad yw pob plentyn yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon.
5. Ni chynhaliwyd asesiad effaith a oedd yn cwmpasu'r meysydd hyn wedyn oherwydd i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 ddisodli'r Rheoliadau am 6.00 p.m. ar 23 Hydref. Lluniwyd Asesiad Effaith Integredig fel rhan o'r Rheoliadau hynny a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

SL(5)641 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 a'i rheoliadau diwygio, sy'n cynnwys mesurau a roddwyd ar waith ar gyfer cyfyngiadau lleol yng Nghymru. (Mae rhestr gyflawn o'r rheoliadau a ddirymwyd yn rheoliad 34.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod nifer o gyfyngiadau a gofynion mewn ymateb i'r risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r Coronafeirws. Mae hyn mewn ymateb i'r duedd sy'n gwaethygu a nifer yr achosion o Covid-19, a'r risg i iechyd y cyhoedd yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol a ddarperir gan Gell Cyngori Technegol Llywodraeth Cymru.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 6pm ddydd Gwener 23 Hydref 2020, a byddant yn dod i ben ar ddiwedd y dydd ar 8 Tachwedd 2020 (cyfanswm o 17 diwrnod). Yn ôl arweiniad y Llywodraeth, *"ar ddiwedd y cyfnod atal byr, bydd set newydd o reolau cenedlaethol yn cael eu cyflwyno, yn ymdrin â sut y caiff pobl gwrdd a sut y bydd y sector cyhoeddus a busnesau'n gweithredu."*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn 4 maes allweddol:

- cyfyngu ar symud a theithio trwy ei gwneud yn ofynnol i bobl aros gartref oni bai bod ganddyn nhw esgus rhesymol;
- cyfyngu ar ymgynnull gyda phobl eraill;
- cau rhai mathau o fusnesau ac adeiladau; a
- gosod rhwymedigaethau ar bersonau sy'n gyfrifol am fangre sy'n agored i'r cyhoedd, neu am waith sy'n cael ei gynnal mewn unrhyw fangre.

I grynhoi:

Mae Rhan 2 yn gosod cyfyngiadau ar symud a theithio. Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n byw yng Nghymru aros gartref, oni bai bod ganddynt esgus rhesymol dros ymadael. Mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer mynd i ddiwyddiad i gadw Sul y Cofio fel esgus rhesymol i ymgynnull gydag eraill, yn ddarostyngedig i amodau penodol. At hynny, o dan yr amgylchiadau cyfyngedig pan fo pobl yn gallu ymadael â'r cartref, mae cyfyngiad yn rheoliad 4 ar bobl rhag ymgynnull gydag unrhyw berson sydd ddim yn rhan o'u haelwyd. Effaith cyffredinol y darpariaethau hyn yw cyfyngu ar symudiadau pobl sy'n byw yng Nghymru. Mae rheoliad 5 yn darparu bod angen esgus rhesymol ar bobl sy'n byw tu allan i Gymru er mwyn teithio i Gymru. Mae rheoliadau 6 a 7 yn cyfyngu ar yr amgylchiadau pan fo gan ddisgybl neu fyfyrwr esgus rhesymol dros fynychu mangre ysgol



neu sefydliad addysg bellach. Mae rheoliad 9 hefyd yn gwneud darpariaeth bellach sy'n ei gwneud yn drosedd (a gosbir drwy gosb uwch) trefnu digwyddiadau cerddorol mawr sy'n annog pobl i ymgynnull yn anghyfreithlon.

Mae Rhan 3 yn ymwneud â busnesau a gwasanaethau y mae eu mangreoedd ar agor i'r cyhoedd fel arfer, gan ei gwneud yn ofynnol i lawer ohonynt gau. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn rhestru'r busnesau hynny a'r gwasanaethau hynny y mae rhaid i'w mangreoedd fod ar gau i'r cyhoedd. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn rhestru'r busnesau hynny a'r gwasanaethau hynny y mae rhaid i'w mangreoedd fod ar gau i'r cyhoedd. Mae'r rhain wedi eu categoreiddio yn fangreoedd sy'n gwerthu bwyd a diod (a restrir ym Mhennod 1); mangreoedd sy'n cynnig llety gwesty neu lety gwyliau (a restrir ym Mhennod 2) ac eraill (a restrir ym Mhennod 3. Mae rheoliad 16 yn ei gwneud yn glir, pan fo mwy nag un math o fusnes neu wasanaeth yn cael ei ddarparu yn yr un fangre, e.e. mewn archfarchnad fawr, nad yw'r mathau o fusnes neu wasanaeth a waharddir i barhau am y cyfnod y mae'r rheoliadau hyn yn parhau i fod mewn grym.

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaethau at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae rheoliad 17 yn gymwys i "mangre reoleiddiedig" (unrhyw fan sydd ar agor i'r cyhoedd neu lle y gwneir gwaith) ac yn ei gwneud yn ofynnol: (1) i bob mesur rhesymol gael ei gymryd i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre; (2) i unrhyw fesurau rhesymol eraill gael eu cymryd, er enghraifft er mwyn cyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb agos a chynnal hylendid; a (3) i wybodaeth gael ei darparu i'r rheini sy'n mynd i fangre neu sy'n gweithio ynddi ynghylch sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae hefyd yn pennu y gall peidio â gwneud gweithgaredd, cau rhan o fangre, caniatáu i staff ynysu a chasglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth y rheini yn y fangre fod yn fesurau rhesymol. Mae rheoliadau 18 a 19 yn darparu bod rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ar drafnidaeth gyhoeddus, gan gynnwys tacsis, ac mewn mannau penodol o dan do, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau a restrir. Mae rheoliad 20 yn darparu i ganllawiau gael eu dyroddi ynghylch cymhwyso'n ymarferol y gofynion a osodir gan y Rhan hon, a rhaid i'r rheini y mae'r gofynion yn gymwys iddynt roi sylw i'r canllawiau hynny.

Mae Rhan 5 yn ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion. Mae'r rhan hon yn rhestru pwy a gaiff gymryd camau gorfodi ac mae'n cynnwys pwerau mynediad eang, pwerau i symud a gwasgaru pobl a phwerau i ddefnyddio grym rhesymol o dan amgylchiadau penodol.

Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau a chosbau. Mae rheoliad 29 yn darparu bod person sy'n torri gofynion (a restrir) yn y Rheoliadau hyn, heb esgus rhesymol, yn cyflawni trosedd. Mae'r drosedd honno i'w chosbi drwy ddirwy ddiderfyn. Mae rheoliad 30 yn ymwneud â throseddau gan gyrff corfforedig. Mae rheoliad 31 yn caniatáu i droseddau gael eu cosbi drwy hysbysiadau cosb benodedig ac mae rheoliad 32 yn ymwneud ag erlynnu troseddau o dan y rheoliadau.



Mae Rhan 7 yn cynnwys termau wedi eu diffinio (rheoliad 33) ac yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/725 (Cy. 162)) fel y'u diwygiwyd. Mae rheoliad 33 hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n addasu'r cyfyngiadau niferus ar unigolion yn y Rheoliadau sy'n cyfyngu ar ryngweithio ag unrhyw un nad yw'n aelod o'u haelwyd. Mae hyn yn caniatáu i berson sy'n byw ar ei ben ei hun neu ddim ond gyda phlant gytuno i ffurfio aelwyd estynedig gydag aelwyd arall, sy'n golygu y gall aelodau o'r ddwy aelwyd ryngweithio â'i gilydd fel pe baent yn aelodau o un aelwyd.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y



cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae angen i unrhyw ymyrraeth yn yr hawliau hyn hefyd gael ei gydbwyso yn erbyn rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae gweithredu'r cyfyngiadau cenedlaethol newydd am gyfnod cyfyngedig o 17 diwrnod o dan y Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad cynyddol y coronafeirws dros yr wythnosau diwethaf. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i leihau'r cynnydd yng nghyfradd drosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Wrth benderfynu ar yr angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau hyn, a'u manylion, cymerais i, ynghyd â Gweinidogion eraill a swyddogion Llywodraeth Cymru, ran mewn cyfres o drafodaethau brys gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol ac arweinwyr busnes ac undebau llafur yng Nghymru. Cyhoeddais yn fy nghynhadledd i'r wasg ar 19 Hydref fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r newidiadau a gyflawnir yn y Rheoliadau hyn, ac adroddwyd am hynny yn eang wedyn."

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Rheoliadau hyn wedi'u gwneud mewn ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn nodi'r adroddiadau eang gan y cyfryngau am yr anfodlonrwydd ynghylch y rhybudd byr a roddwyd gan y Llywodraeth o ran cyflwyno'r Rheoliadau hyn. Er enghraifft, cafwyd adroddiad gan y BBC fod Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru yn siomedig ynghylch y rhynudd byr a roddwyd ar gyfer y newidiadau a'r cyfyngiadau hyn, a'r cyfyngiadau a roddwyd ar fusnesau. Hoffai'r Pwyllgor i'r Llywodraeth roi manylion pellach ynghylch pwy yr ymgynghorodd â hwy a phryd, cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Mae rheoliad 16 yn gosod cyfyngiadau ar fusnesau cymysg. O dan y rheoliadau, busnesau cymysg yw'r rhai sy'n rhedeg busnesau a ganiateir ac a waherddir yn yr un fangre. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r feirniadaeth eang o'r polisi penodol hwn, y dryswch a berwyd ganddo ymhlith rhanddeiliaid a deiseb y Senedd sydd wedi'i llofnodi gan 66,000 o ddinasyddion, sef y nifer fwyaf erioed (ar 26 Hydref 2020). O ystyried bod eglurder yn hanfodol wrth lunio deddfwriaeth, gofynnir i'r Llywodraeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran a yw'n bwriadu



diwygio'r ddarpariaeth benodol hon, neu a ddylid rhoi arweiniad pellach i fusnesau ac aelodau'r cyhoedd mewn o ran y ddarpariaeth hon.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Mae'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth i'r llywodraeth ddarparu canllawiau ar y newidiadau deddfwriaethol y mae'n eu gwneud ar gyfer y cyfnod hwn o 17 diwrnod. Gofynnir i'r Llywodraeth roi manylion pellach o ran pryd y cyhoeddwyd canllawiau o'r fath, er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid gydymffurfio â'r newidiadau deddfwriaethol hyn.

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod asesiadau effaith perthnasol wedi'u cyhoeddi ar gyfer y rheoliadau hyn ar 26 Hydref 2020 ac maent i'w gweld yma – <https://llyw.cymru/crynodeb-or-cyfyngiadau-ar-ymgynnull-yn-gymdeithasol-theithio-cau-busnesau-phresenoldeb-yn-yr-ysgol-html>

Yn dilyn ein cyfarfod ar 2 Tachwedd, rydym yn cynnwys yr adroddiadau ar sail rhagoriaeth ganlyn yn ychwanegol at yr uchod.

6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Byddem yn ddiolchgar pe bai Llywodraeth Cymru yn egluro'r canlynol (ac mewn perthynas â phwyntiau (a) a (b), byddai'n ddefnyddiol gweld enghreifftiau ymarferol):

- (a) ble, a sut, y mae'r Rheoliadau'n gwahardd archfarchnad rhag gwerthu eitemau nad ydynt yn hanfodol;
- (b) ystyr "busnes" yn rheoliadau 11, 15 ac 16, gan gynnwys:
 - (i) ystyr busnes sy'n "rhan o fusnes mwy" ac yn "ffurfiol rhan o ymgymeriad mwy",
 - (ii) i ba raddau y mae rheoliadau 15 ac 16 a Rhan 3 o Atodlen 1 yn cynnwys "archfarchnadoedd",
 - (iii) datganiad y Prif Weinidog ar 19 Hydref 2020, am gau "pob busnes nad yw'n gwerthu bwyd", o gofio bod y rhestr o fusnesau a gwasanaethau a all aros ar agor o dan Ran 3 o Atodlen 1 yn cynnwys siopau cyflenwadau adeiladu, gorsafoedd petrol, siopau beiciau a golchdai;
- (c) a yw'r Rheoliadau'n cael eu defnyddio i unrhyw raddau i atal cystadleuaeth annheg, o gofio bod **canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi:**



"Felly, er enghraifft, oherwydd bod gwaharddiad ar siopau trin gwallt rhag agor gan fod hyn yn cael ei ystyried yn weithgaredd nad yw'n hanfodol, ni chaniateir i drinwyr gwallt symudol ddarparu eu gwasanaethau yng nghartrefi cleientiaid na'u cartrefi eu hunain. Mae hyn er mwyn osgoi sefyllfa lle mae pobl yn ymgynnull ar ôl cael eu symud o un lleoliad i'r llall, a lleihau cystadleuaeth annheg rhwng busnesau tebyg."

7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Byddem yn ddiolchgar pe bai Llywodraeth Cymru yn egluro'r canlynol (ac mewn perthynas â phwynt (a), byddai'n ddefnyddiol gweld enghreifftiau ymarferol):

- (a) beth y caniateir i aelwydydd estynedig ei wneud o dan y Rheoliadau. A ble mae'r Rheoliadau'n caniatáu i aelwydydd estynedig dreulio amser gyda'i gilydd o dan do ac yn yr awyr agored fel pe baent yn byw gyda'i gilydd. Nodwn y cyfyngiadau ymddangosiadol ar yr hyn y mae rheoliad 33(3) yn caniatáu i aelwydydd estynedig ei wneud gyda'i gilydd o dan y Rheoliadau, ond hefyd y canlynol, sydd **yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru:**

"I bob pwrpas, bydd y bobl y byddwch yn dewis ymuno â nhw yn dod yn rhan o'ch aelwyd chi, ac yn unol â'r gyfraith fe gewch chi drin unrhyw aelod o'ch aelwyd estynedig fel pe baech yn byw gyda nhw;"

- (b) pam mae **canllawiau Llywodraeth Cymru** yn dweud "Nid oes unrhyw reolau sy'n nodi bod rhaid i'ch aelwyd estynedig fod gyda rhywun yn ardal eich awdurdod lleol", pan fo'r Rheoliadau'n dweud na chaiff aelwyd a ffurfiodd aelwyd estynedig gyda pherson o'r un ardal awdurdod lleol yn ystod y cyfyngiadau lleol blaenorol fod yn rhan o aelwyd estynedig wahanol yn awr;
- (c) a ddylai'r eithriadau yn rheoliad 33(3) ynghylch aelwydydd estynedig hefyd gynnwys rheoliad 33(3) ei hun.

8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Byddem yn ddiolchgar pe bai Llywodraeth Cymru yn egluro'r canlynol:

- (a) sut y mae'r Rheoliadau'n gymwys i fynwentydd (ac ymweld â mynwentydd), p'un ai mewn amlogfa neu fel arall;
- (b) y rhesymau dros ganiatáu i fangreoedd werthu alcohol rhwng 6am a 10pm yn unig;
- (c) a yw'r amodau sy'n caniatáu i bobl fynd i ddigwyddiad Sul y Cofio o dan rheoliad 3(3) yn gronnus (o ystyried nad oes "a/ac" ar ôl rheoliad 3(3)(b)).



Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau rhinweddau 2, 3, 4, 6, 7 ac 8.

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3)
(Cymru) 2020

Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig (fel y'i diwygiwyd) 02 Tachwedd 2020: pwyntiau craffu ar rinweddau 2, 3, 4, 6, 7 ac 8.

Pwyntiau craffu ar rinweddau:

2. Ymgymerodd y Llywodraeth ag ymgynghoriad pellgyrhaeddol yn ystod yr wythnos yn dechrau 19 Hydref gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r isod:

Yr Economi	Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn Busnesau Bach, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Make UK, Diwydiant Cymru, Siambrau Masnach a Chonsortium Manwerthu Cymru, sefydliadau cynrychiadol manwerthu, manwerthwyr bwyd, awdurdodau lleol. Ymgysylltu ar lefel sector - â chwmnïau awyrofod, modurol, digidol - drwy Fforymau Sector a Diwydiant Cymru. Undebau Llafur
Iechyd y Cyhoedd	Ymgynghorwyr ym maes Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd (Byrddau Iechyd) a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Awdurdodau Lleol)
Ysgolion, Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Uwch	Penaethiaid Addysg Bellach a rhanddeiliaid Dysgu Seiliedig ar Waith
Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol	Cynhaliwyd cyfarfod ar 22 Hydref
Grŵp Rhanddeiliaid Plant a Phobl Ifanc Agored i Niwed	Cynhaliwyd cyfarfod ar 23 Hydref: ymhlith y sawl a oedd yn bresennol roedd Comisiynydd Plant Cymru a chynrychiolwyr o Blant yng Nghymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Estyn, sefydliadau trydydd sector sy'n cefnogi plant a phobl ifanc (e.e. NSPCC, Llamau)
Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl	Cynhaliwyd cyfarfod ar 21 Hydref: ymhlith y sawl a oedd yn bresennol roedd cynrychiolwyr o nifer o Sefydliadau i Bobl Anabl e.e. Anabledd Cymru, Mencap, RNIB, Pobl yn Gyntaf Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar, Cyngor Cymru i'r Deillion, yn ogystal ag aelodau annibynnol.
Trais yn erbyn	Grŵp Strategol COVID-19 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin

Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Domestig a Thrais Rhywiol: Cynhaliwyd cyfarfod ar 20 Hydref o dan gadeiryddiaeth Cynghorydd Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a chynrychiolwyr o gyrff ambarél Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yr heddlu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
---	--

3. Nid oedd rheoliad 16 yn gosod cyfyngiadau ar fusnesau cymysg. Ei ddiben oedd nodi yn unig y ffordd yr oedd y cyfyngiadau yn rheoliadau 11 i 13 yn gymwys i fusnesau a oedd yn cynnwys nifer o fusnesau llai. Oherwydd y ffordd yr oedd Atodlen 1 yn categoreiddio busnesau, mae'n glir bod mathau penodol o ymgymeriadau busnes yn gweithredu busnesau o fwy nag un math fel y'u rhestrir yn Atodlen 1.

Roedd Llywodraeth Cymru, grwpiau cynrychiadol busnesau, Undebau Llafur a manwerthwyr hanfodol yn gweithio'n agos i weithredu rheoliadau Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd i leihau'r eitemau anhanfodol a oedd yn cael eu gwerthu yn ystod y 17 o ddiwrnodau o gyfnod atal byr. Diben hyn oedd atal y coronafeirws rhag lledaenu ac arbed bywydau. Diwygiodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau (29 Hydref) er mwyn rhoi mwy o eglurder o ran y camau y gallai manwerthwyr eu cymryd i weithredu'r rheolau ac o ran sut y dylai manwerthwyr reoli ceisiadau eithriadol am eitemau nad oeddent ar y rhestr o bethau y dylid eu gwerthu. Mae hefyd wedi cytuno i edrych ar y ddeddfwriaeth ar ôl y cyfnod atal byr er mwyn ystyried profiad ac adborth y diwydiant.

Rydym yn cydnabod gwaith caled staff manwerthu ledled Cymru a'r angen i sicrhau eu diogelwch drwy gydol y pandemig hwn.

4. Cyhoeddwyd canllawiau ar y cyfnod atal byr yn gyntaf ar [wefan Llywodraeth Cymru](#) ar 23 Hydref.

6. Roedd Rhan 2 yn gosod dyletswyddau ar unigolion, ac roedd pob unigolyn yn gyfrifol am ei weithredoedd. Roedd rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau aros gartref oni bai bod ganddynt esgus rhesymol. Roedd cael cyflenwadau yn esgus rhesymol, ond dim ond pan oedd angen gwneud hynny. Roedd gweithredu Rhan 3 o'r Rheoliadau yn ategu amcanion Rhan 2 drwy ei gwneud yn ofynnol i fathau penodol o fusnesau (ond roedd hefyd yn darparu eithriadau ar gyfer rhai mathau o fusnesau). Fel y nodir uchod, pan fo busnes yn gweithredu mewn nifer o gategorïau fel y'u pennir yn Atodlen 1, mae'n glir o reoliad 16 ei fod yn cael ei drin fel amryw fusnesau llai.

Mae archfarchnad yn fanwerthwr bwyd, a gallai agor ei mangre i'r graddau hynny o dan reoliad 15. Ac yn yr un modd, os yw'n gweithredu fel gorsaf betrol, manwerthwr papurau newydd, fferyllfa neu siop galedwedd, roedd yn cael agor ei mangre i'r graddau hynny. Ond i'r graddau yr oedd yn fath o fusnes sy'n gwerthu nwyddau i'w gwerthu neu eu llogi mewn siop nas rhestrir yn Rhan 3 o Atodlen 1, roedd rhaid iddo gau o dan reoliad 11.

Gwnaed y Rheoliadau fel ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus: diben y cyfyngiadau ar fusnesau oedd diogelu iechyd y cyhoedd drwy gyfyngu ar y cyfle i bobl i fod allan o'u cartrefi a chymysgu gydag eraill.

7. Mewn perthynas â phwynt (a), nid oedd ymweld ag aelodau eraill o aelwydydd estynedig wedi ei restru fel enghraifft o esgus rhesymol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ystyried y byddai'n rhesymol yn wrthrychol cwrdd â phobl y mae'r gyfraith yn ystyried eu bod yn rhan o'ch aelwyd eich hun (a y byddai hynny wedi ei ganiatáu felly o dan y Rheoliadau). Roedd y Rheoliadau hefyd yn caniatáu i bobl mewn aelwyd estynedig ymgynnull pan oeddent yn ymadael â'u cartrefi am resymau a ganiateid (e.e. i gael cyflenwadau, neu i ymarfer corff).

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi pwynt (b). Byddwn yn sicrhau bod geiriad canllawiau yn y dyfodol yn cael ei ddiweddarau er mwyn ei gwneud yn gwbl glir bod pobl yn gallu ffurfio aelwyd estynedig 'newydd' ar ôl y cyfnod atal byr, ond na all gael ei newid unwaith y caiff ei ffurfio.

Mewn perthynas â phwynt (c), mae'r Llywodraeth yn fodlon ei bod yn glir o gyd-destun rheoliad 33 nad oedd y cyfeiriadau at 'aelwyd' ym mharagraff (3) yn gyfeiriadau at aelwydydd estynedig.

8. Yn ystod y cyfnod atal byr, gallai pobl ymweld â mynwent a safleoedd claddu awdurdodau lleol ymweld â bedd aelod o'r teulu ond roedd yn ofynnol iddynt gadw pellter corfforol.

Mae nifer o achosion o'r coronafeirws wedi bod yn gysylltiedig â thafarnau ac yn ein trafodaethau gydag awdurdodau lleol ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd, roedd consensws clir ynghylch yr angen i gyflwyno cyfyngiadau ar werthu alcohol.

Mae timau iechyd cyhoeddus lleol yn adrodd am broblemau o ran diffyg cadw pellter cymdeithasol yn hwyr yn y nos, yn gysylltiedig ag yfed alcohol. Gall hefyd ei gwneud yn anodd olrhain cysylltiadau.

Mae'r Llywodraeth yn cadarnhau bod yr amodau yn rheoliad 3(3) yn gronnus ac yn ystyried bod hyn yn glir o'r cyd-destun; fel arall, byddai wedi bod yn eithriad eang iawn i gyfyngiad caeth a osodwyd ar sail iechyd y cyhoedd.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

DYDDIAD 30 Hydref 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheol Sefydlog 30C – Hysbysiad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nas gosodwyd gerbron y Senedd

Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/720) i sicrhau bod deddfwriaeth y DU ar gemegion ac organeddau a addaswyd yn enetig yn parhau i weithio'n effeithiol ar y cyd â'r Cytundeb Ymadael ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n amlinellu effaith y diwygiadau ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213409/introduction>

Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Cyfundrefn Gemegion y DU yn cynnwys materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl. Mae wedi cael ei dylunio i warchod iechyd a diogelwch gweithwyr (mater a gedwir yn ôl yng Nghymru a'r Alban) yn ogystal ag iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd (materion datganoledig). Mae rheoli mewnfurion ac allforion hefyd yn fater a gedwir yn ôl ar gyfer cemegion, ar wahân i wrteithiau a phlalladdwyr, fel y mae profion ar anifeiliaid at ddibenion gwyddonol.

Mae Rheoliadau 2020 yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru yn ddilyffethair.

Mae Rheoliadau 2020 yn rhoi swyddogaeth gwneud Rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol y mae ei harfer yn ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r swyddogaeth yn swyddogaeth un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Senedd yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Llywodraeth y DU..

Mae Rheoliadau 2020 yn rhoi swyddogaethau adrodd technegol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn Awdurdodau datganoledig Cymru at ddibenion Atodiad 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly mae'n bosibl y bydd hon yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Senedd i ddeddfu mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny yn y dyfodol.

Pam rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y diwygiadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan at ddibenion effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau bod y llyfr statud yn gyson ac yn gydlynus. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried ac nid oes unrhyw

wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio'n effeithiol ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio darpariaethau yn Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019, sydd yn eu tro yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol sy'n berthnasol i Gymru:

Diwygiadau i Is-ddeddfwriaeth

Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Ffioedd a Thaliadau) 2011;
Rheoliadau Cemegau a Chynhyrchion Bioleiddiadol (Penodi Awdurdodau a Gorfodi) 2013;
Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) 2014;
Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015.

Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir

Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006 mewn perthynas â chofrestru, gwerthuso, awdurdodi a chyfyngu ar gemegion;
Rheoliad (EC) Rhif 1272/2008 ar ddsbarthu, labelu a pheycynnu sylweddau a chymysgeddau;
Rheoliad (EU) Rhif 544/2011 ar y gofynion data ar gyfer sylweddau weithredol;
Rheoliad (EU) Rhif 545/2011 ar y gofynion data ar gyfer cynhyrchion diogelu planhigion;
Rheoliad (EU) Rhif 547/2011 ar y gofynion labelu ar gyfer cynhyrchion diogelu planhigion;
Rheoliad (EU) Rhif 528/2012 mewn perthynas â defnyddio cynhyrchion bioleiddiadol a'u gwneud ar gael yr y farchnad;
Rheoliad (EU) Rhif 649/2012 mewn perthynas ag allforio a mewnfario cemegion peryglus;
Rheoliad (EU) Rhif 283/2013 ar y gofynion data ar gyfer sylweddau gweithredol;
Rheoliad (EU) Rhif 284/2013 ar y gofynion data ar gyfer cynhyrchion diogelu planhigion;

Rheoliad (EU) Rhif 354/2013 ar newidiadau i gynhyrchion bioleiddiadol;

Rheoliad (EU) Rhif 414/2013 yn pennu gweithdrefn ar gyfer awdurdodi'r cynhyrchion bioleiddiadol hynny;

Rheoliad (EU) Rhif 88/2014 yn pennu gweithdrefn ar gyfer diwygio Atodiad I i Reoliad (EU) Rhif 528/2012;

Rheoliad (EU) Rhif 1062/2014 ar y rhaglen waith ar gyfer archwilio mewn modd systematig sylweddau gweithredol sydd mewn cynhyrchion bioleiddiadol.

Mae Rheoliadau 2020 yn dirymu Rheoliad (EU) Rhif 492/2014 mewn perthynas â'r rheolau ar gyfer adnewyddu awdurdodiadau ar gyfer cynhyrchion bioleiddiadol yn ddarostyngedig i gydnabyddiaeth gilyddol.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Atodiad II i Gytundeb yr AEE.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud darpariaeth arbed, trosiannol a chanlyniadol.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**199 - Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a
Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r
UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 15 Hydref 2020

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	4 Tachwedd 2020
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	27 Hydref 2020

Y cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraffau 1 a 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, a chan adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 a pharagraff 12 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

Crynodeb

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chemegion ac organeddau a addaswyd yn enetig.

Mae Cyfundrefn Cemegion y DU yn cynnwys materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl, gan ei bod wedi cael ei dylunio i warchod iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd (sydd wedi'u datganoli yng Nghymru) yn ogystal ag iechyd a diogelwch gweithwyr (mater a gedwir yn ôl yng

Nghymru). Mae rheoli mewnforion ac allforion hefyd yn fater a gedwir yn ôl ar gyfer cemegion, ar wahân i wrteithiau a phlaladdwyr, fel y mae profion ar anifeiliaid at ddibenion gwyddonol.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/720) i sicrhau bod deddfwriaeth y DU ar gemegion ac organeddau a addaswyd yn enetig yn parhau i weithio'n effeithiol ar y cyd â'r Cytundeb Ymadael ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 30 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaeth gwneud Rheoliad i'r Ysgrifennydd Gwladol y mae ei harfer yn ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r swyddogaeth yn swyddogaeth un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Senedd yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaeth hon, gallai hynny ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau adrodd technegol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn Awdurdodau datganoledig Cymru at ddibenion Atodiad 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, mae'n bosibl y bydd hon yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Senedd i ddeddfu mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny yn y dyfodol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru yn ddilyffethair.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020
DYDDIAD	04 Tachwedd 2020
GAN	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Trosolwg Polisi o'r Offeryn Statudol

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli tybaco yn gyfuniad o ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd (UE): yn bennaf Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 a deddfwriaeth drydyddol yr UE sy'n uniongyrchol gymwys. Y ddau brif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thybaco a chynhyrchion cysylltiedig yw Cyfarwyddeb 2014/40/EU (y 'Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco') a Chyfarwyddeb 2003/33/EC (y 'Gyfarwyddeb Hysbysebu Tybaco').

Gwnaed deddfwriaeth ar gyfer y DU gyfan yn rhannol i weithredu'r Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco, fel y ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â safoni deunydd pacio a'r ddeddfwriaeth ddatganoledig sy'n gorfodi gofynion sy'n ymwneud â chyfyngiadau fel oedran gwerthu cynhyrchion tybaco ac e-sigaréts.

Mae Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, ('Rheoliadau 2019') a osodwyd ar gyfer sefyllfa lle na fyddai cytundeb, yn diwygio Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 yn y fath fodd fel eu bod yn gymwys ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio. Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 a roddodd y Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco ar waith. Gwnaed Rheoliadau 2019 i unioni diffygion mewn deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig sy'n gysylltiedig â thybaco a chynhyrchion mewnanadlu nicotin (e-sigaréts), neu fethiannau'r ddeddfwriaeth honno i weithredu'n effeithiol, a fyddai'n codi pe bai'r DU yn ymadael â'r UE, heb gytundeb.

Roedd y diwygiadau hyn yn cynnwys dau brif newid i'r gofynion o dan Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016:

- Caniatáu ar gyfer sefydlu systemau hysbysu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco gan gynnwys cynhyrchion newydd a chynhyrchion llysieuol i'w smygu, ac e-sigaréts
- Caniatáu ar gyfer defnyddio lluniau rhybudd Awstralia yn lle lluniau rhybudd yr UE, y caiff yr hawlfrant ar eu cyfer ei dal gan y Comisiwn

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 yn diwygio Rheoliadau 2019 er mwyn rhoi effaith i'r Cytundeb Ymadael ac maent yn diwygio'r diwygiadau a wnaed yn Rheoliadau 2019 i Reoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016. Er enghraifft, dilëir y cyfeiriadau at y DU, er mwyn i'r Gyfarwydddeb Cynhyrchion Tybaco barhau'n uniongyrchol gymwys i Ogledd Iwerddon gan sicrhau bod y Protocol yn cael ei adlewyrchu yn y gyfraith. Yn benodol, defnyddir y system hysbysu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco ac e-sigaréts ar gyfer marchnad Prydain Fawr yn unig, a bydd yn ofynnol i gynhyrchion tybaco a roddir ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon ddefnyddio lluniau rhybudd yr UE. Bydd y diwygiadau a gyflwynir gan Offeryn 2020 yn sicrhau bod deddfwriaeth sy'n rheoli tybaco yn parhau i weithio'n effeithiol wedi i'r Cyfnod Pontio ddirwyn i ben. Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad i'w cael yma: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukdsi/2020/9780348212532>

Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod o fewn cymhwysedd datganoledig a'i bod yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru, felly, cyn gosod yr offeryn, yn unol â thelerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Ni cheisiodd Llywodraeth y DU gydsyniad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Offeryn Statudol hwn. Rwyf i a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wedi ysgrifennu, felly, at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i fynegi ein pryderon na cheisiwyd cydsyniad ac i roi cydsyniad.

Nid yw'r Offeryn Statudol yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru nac ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ni throsglwyddir unrhyw swyddogaethau gan yr Offeryn Statudol, ac nid ydyw ychwaith yn rhoi unrhyw swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru.

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Ni cheir unrhyw ymwahanu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r polisi ar gyfer y cywiriad. O'r herwydd, byddai gwneud Offerynnau Statudol ar wahân i Gymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a byddai'n cymhlethu'r Llyfr Statud yn ddianghenraid. Mae cydsynio i un Offeryn Statudol ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau y ceir un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod

hwn o newid. Yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DEYRNAS UNEDIG SY'N GWEITHREDU MEWN
MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**201 - Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu
Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 28 Medi 2020

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	14/10/20
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	13/10/20

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8 ac 8C, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Crynodeb

Mae'r Rheoliadau'n ymdrin â materion sy'n deillio o'r Protocol ar Iwerddon / Gogledd Iwerddon yng Nghytundeb Ymadael yr UE ("y Protocol"), neu'n gysylltiedig ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/41) i ystyried cynnwys Cyfarwyddeb 2014/40/EU yn Atodiad 2 i'r Protocol. Mae angen y diwygiadau i sicrhau y bydd Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 (a weithredodd y Gyfarwyddeb) (OS 2016/507) yn parhau i weithredu ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, a hefyd i ddiweddarau'r ddarpariaeth drosiannol a wnaed i

ganiatáu i rai cynhyrchion sydd wedi'u rhoi ar y farchnad yn y Deyrnas Unedig cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu barhau i gael eu cyflenwi ym Mhrydain Fawr ar y diwrnod hwnnw ac wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Sigaréts Electronig (Ffioedd) 2016 (OS 2016/521) a Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig (Ffioedd) 2017 (OS 2019/409) fel bod un hysbysiad a ffi adrodd flynyddol yn parhau i fod yn daladwy os yw cynnyrch i gael ei gyflenwi ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 4 Tachwedd 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â diogelu iechyd ac maent o fewn cymhwysedd datganoledig, ond gwnaeth Llywodraeth y DU y Rheoliadau hyn heb geisio cydsyniad. Nid yw'n glir pam y methodd Llywodraeth y DU â cheisio cydsyniad. Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wedi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros lechyd i fynegi pryderon na cheisiwyd cydsyniad ac i roi cydsyniad.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020
DYDDIAD	04 Tachwedd 2020
GAN	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rh30C – Hysbysiad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nas gosodwyd gerbron y Senedd.

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol:

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (UE) Rhif 576/2013 ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol;
- Rheoliad (EU) Rhif 577/2013 ar y dogfennau adnabod enghreifftiol ar gyfer symud cŵn, cathod a ffureti yn anfasnachol, sefydlu rhestrau o diriogaethau a thrydydd gwledydd a gofynion fformat, cynllun ac iaith y datganiadau sy'n awgrymu cydymffurfiaeth ag amodau penodol;
- Rheoliad (UE) Rhif 2019/294 sy'n gosod y rhestr o diriogaethau a thrydydd gwledydd sydd wedi'u hawdurdodi i fewnforio cŵn, cathod a ffureti i'r Undeb a'r dystysgrif iechyd anifeiliaid enghreifftiol ar gyfer mewnfurion o'r fath;
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 535/2008, 13 Mehefin 2008, sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 708/2007 ynghylch defnyddio rhywogaethau estron a rhywogaethau sy'n absennol yn lleol mewn dyframaeth.

Deddfwriaeth ddomestig

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth (Diwygio) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae gan swyddogaethau a drosglwyddwyd fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydysniad Gweinidogion Cymru y potensial i gynnwys y gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai Bil Senedd yn y dyfodol yn ceisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hynny.

Mae gan y swyddogaethau cydamserol a geir yn y Rheoliadau y potensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac, fel y cyfryw, maent yn cyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 o dan y Ddeddf i ddiwygio Atodlen 7B i negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

Diben y gwelliannau

Mae'r Rheoliadau'n darparu bod swyddogaethau deddfwriaethol a roddir ar hyn o bryd gan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd i'r Comisiwn Ewropeaidd a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd yn arferadwy yn lle hynny gan awdurdodau priodol ym Mhrydain Fawr, fel y gellir eu harfer ar lefel genedlaethol ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Maent yn diwygio offerynnau statudol ymadael yr UE yn flaenorol er mwyn adlewyrchu'r newid mewn sefyllfa ddeddfwriaethol yn dilyn y Cytundeb Ymadael a Phrotocol Iwerddon / Gogledd Iwerddon. Maent hefyd yn diwygio deddfwriaeth yr UE a wnaed ers i OSau Ymadael â'r UE gael eu gwneud a rhaid eu gwneud yn weithredol.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi tarddiad, diben ac effaith y Rheoliadau, ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214475/contents>

Pam y rhoddwyd caniatâd

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r gwelliannau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Nod y gwelliannau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**202 - Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron
mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a
Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau
Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 2 Tachwedd 2020

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Y cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Crynodeb

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth yr UE a'r ddeddfwriaeth ddomestig a ganlyn er mwyn adlewyrchu'r newid yn y sefyllfa ddeddfwriaethol yn dilyn y Cytundeb Ymadael a Phrotocol Iwerddon / Gogledd Iwerddon. Maent hefyd yn diwygio deddfwriaeth yr UE a wnaed ers i'r rheoliadau Ymadael â'r UE a restrir isod gael eu gwneud fel y byddant yn weithredol:

Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd

- Rheoliad (UE) Rhif 576/2013 ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol;
- Rheoliad (UE) Rhif 577/2013 ar y dogfennau adnabod enghreifftiol ar gyfer symud cŵn, cathod a ffuredau yn anfasnachol, sefydlu rhestrau o diriogaethau a thrydydd gwledydd a fformat, cynllun a gofynion iaith y datganiadau sy'n tystio o ran cydymffurfio â rhai amodau;
- Rheoliad (UE) Rhif 2019/294 sy'n nodi'r rhestr o diriogaethau a thrydydd gwledydd sydd wedi'u hawdurdodi ar gyfer mewnforio cŵn, cathod a ffuredau i'r Undeb a'r dystysgrif iechyd anifeiliaid enghreifftiol ar gyfer mewnforien o'r fath; a
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 535/2008 ar 13 Mehefin 2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 708/2007 ynghylch defnyddio rhywogaethau estron a rhywogaethau sy'n absennol yn lleol mewn dyframaethu.

Deddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth (Diwygio) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol ac Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Mae'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â saith maes polisi, sef: hadau, planhigion a deunyddiau lluosogi; iechyd anifeiliaid dyfrol; Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid; da byw; afiechydon milheintiol; teithio gan anifeiliaid anwes; a defnyddio rhywogaethau estron a rhywogaethau sy'n absennol yn lleol mewn dyframaethu. Bydd cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â'r meysydd polisi hyn yn parhau i weithredu ar ddiwedd y cyfnod pontio mewn ffordd debyg i'r hyn yr oedd o'r blaen. Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu darpariaethau diangen sy'n ymwneud â chyfraith yr UE, yn galluogi'r DU i gadw at ymrwymadau y mae wedi'u gwneud yn y Cytundeb Ymadael, ac yn trosi gweithdrefnau'r UE yn weithdrefnau'r DU, fel sy'n briodol.

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer swyddogaethau deddfwriaethol a roddir ar hyn o bryd gan deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd i'r

Comisiwn Ewropeaidd a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd i fod yn arferadwy, yn hytrach, gan awdurdodau priodol ym Mhrydain Fawr, fel y gellir eu harfer ar lefel genedlaethol ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Ar ôl adolygu'r Memorandwm Esboniadol ar y Rheoliadau, mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 4 Tachwedd 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

Nid yw datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol y Senedd na pha rai o bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arnynt. Nodir bod y datganiad yn darparu:

Mae gan swyddogaethau a drosglwyddwyd fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y potensial i gynnwys y gofyniad i ymgynghori â Llywodraethy DU o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai Bil Senedd yn y dyfodol yn ceisiodileu neu addasu'r swyddogaethau hynny.

Mae gan y swyddogaethau cydamserol a geir yn y Rheoliadau y potensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac, fel y cyfryw, maent yn cyfyngu obosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 o dan y Ddeddf i ddiwygio Atodlen 7B i negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn argymhell y dylid gofyn am eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt; ac y dylid gofyn am wybodaeth a diweddariadau pellach o ran cynnydd y trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â'r Gorchymyn adran 109 y cyfeirir ato uchod.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Gan ei bod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 4 Tachwedd 2020, beth fydd effaith bosibl y Rheoliadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu asesu a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr

Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

DYDDIAD 04 Tachwedd 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

OS a osodwyd yn y Senedd, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig

**Rheoliadau Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol (Diwygio) (Ymadael â'r UE)
2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

Deddfwriaeth yr UE:

- Penderfyniad y Comisiwn 2002/657/EC ar 12 Awst 2002 sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 96/23/EC y Cyngor ynghylch perfformiad dulliau dadansodol a dehongli canlyniadau;
- Rheoliad y Comisiwn (UE) 2019/1871 ar 7 Tachwedd 2019 ar bwyntiau cyfeirio ar gyfer gweithredu o ran sylweddau sy'n weithredol yn ffarmacolegol na chaniateir iddynt fod yn bresennol mewn bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid; a
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2090 ar 19 Mehefin 2019 gan ategu Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch achosion o amheuaeth neu peidio â chydymffurfio â rheolau'r Undeb sy'n gymwys i ddefnyddio neu weddillion sylweddau sy'n weithredol yn ffarmacolegol a awdurdodwyd mewn cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol neu fel ychwanegion porthiant neu â rheolau'r Undeb sy'n gymwys i ddefnyddio neu weddillion sylweddau gwaharddedig neu anawdurdodedig yn ffarmacolegol.

Is-ddeddfwriaeth:

- Rheoliadau Bwyd, Diod, Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio Gweddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;

- Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013 (Prydain Fawr); a
- Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio Gweddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Lloegr a'r Alban) 2015.

Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a'r rhai a ddargedwir i sicrhau bod y cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer gwyliadwriaeth meddyginiaethau a gweddillion milfeddygol yn parhau i fod yn weithredol ac yn orfodadwy yn y Deyrnas Unedig (DU) ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu, a bod y DU yn bodloni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r cytundeb ymadael.

Mae'r diwygiadau hefyd yn cyflwyno rheolaethau rheoleiddio llai uniongyrchol ar feddyginiaethau a gymeradwyir yng Ngogledd Iwerddon ac nid Prydain Fawr ac sy'n symud o Ogledd Iwerddon i farchnad Prydain Fawr. Mae angen y rheolaethau hyn er mwyn sicrhau bod rheoleiddiwr y DU yn cael y sicrwydd angenrheidiol o ansawdd ac effeithiolrwydd diogelwch meddyginiaethau ar farchnad y DU at ddibenion sicrhau iechyd y cyhoedd, iechyd a lles anifeiliaid a diogelwch defnyddwyr.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214345>

Pam y rhoddwyd caniatâd

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd ym mis Mai.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**203 - Rheoliadau Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 2 Tachwedd 2020

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Y cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8 ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

Crynodeb

Mae Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ddomestig ac uniongyrchol yr UE a'r rhai a ddargedwir i sicrhau bod y cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer gwyliadwriaeth meddyginiaethau a gweddillion milfeddygol yn parhau i fod yn weithredol ac yn orfodadwy yn y Deyrnas Unedig (DU) ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu, a bod y DU yn bodloni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r cytundeb ymadael.

Mae'r diwygiadau hefyd yn cyflwyno rheolaethau rheoleiddio llai uniongyrchol ar feddyginiaethau a gymeradwyir yng Ngogledd Iwerddon ac nid Prydain Fawr ac sy'n symud o Ogledd Iwerddon i farchnad Prydain Fawr. Mae angen y rheolaethau hyn er mwyn sicrhau bod rheoleiddiwr y

DU yn cael y sicrwydd angenrheidiol o ansawdd ac effeithiolrwydd diogelwch meddyginiaethau ar farchnad y DU at ddibenion sicrhau iechyd y cyhoedd, iechyd a lles anifeiliaid a diogelwch defnyddwyr

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 4 Tachwedd 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Mick Antoniw MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd

SeneddLJC@senedd.wales

9 November 2020

Dear Mick

Thank you for your letter following the Legislation, Justice and Consultation Committee's consideration of regulations amending The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No.2) (Wales) Regulations 2020 and the committee's feedback.

We have worked very hard to make easy-to-access and relevant frequently asked questions and guidance available on our website to help the public understand the coronavirus regulations, which are in effect at both a national and a local level.

The FAQs for the main coronavirus regulations are extensive and have been structured in such a way to include a number of scenarios, as you suggest. While it is not possible for these to cover every possible scenario, some examples include: I live alone in an area with local restrictions, can I meet up with another household? I have a [restaurant] booking for more than six people – can it still go ahead? My hairdresser is open, can they now provide other services such as doing my nails?

Similar FAQs and guidance also cover other topics and scenarios, including when and how to self-isolate; testing; support for business; volunteering; education and schools and the wearing of face coverings.

We keep all our FAQs under regular review to make sure they are relevant to the public and these are updated in line with feedback from the public and from other sources, such as common questions from Members of the Senedd, to make sure we are providing the most up to date advice to the people.

The Committee also queried the use of the concept of a "reasonable excuse" in regulations. The concept of a 'reasonable excuse' is a well-recognised legal concept that is used in various contexts across the statute book, including tax and finance legislation (see sections 114, 115, 126 and 149 of the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016); asylum and immigration legislation (see section 2 of the Asylum and Immigration (Treatment of Claimants etc.) Act 2004) and housing legislation (see section 11(2) of the Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

In relation to Covid-19 related legislation specifically, all four UK nations have imposed key restrictions on citizens and have made it an offence for a person to contravene them unless a 'reasonable excuse' exists. Examples of such restrictions are found in Regulations 5 and 6 of The Health Protection (Coronavirus, Restrictions) (No. 2) (England) Regulations 2020; several Regulations in The Health Protection (Coronavirus) (Restrictions and Requirements) (Additional Temporary Measures) (Scotland) Regulations 2020; and Regulations 5 and 6 of The Health Protection (Coronavirus, Restrictions) (No. 2) Regulations (Northern Ireland) 2020.

Exhaustive lists of circumstances in which general prohibitions do not apply are not possible for a set of rules that apply to so many different circumstances and where there are so many individual variables. What will be reasonable in any particular set of circumstances will always be a judgement that an individual or business needs to make for themselves in all the circumstances of their case. An action can be reasonable in one circumstance and not in another.

We do recognise that this causes challenges for people across Wales in determining what is allowable, which is why we agree with the Committee that providing examples is useful, and we strive to do so where possible. An example of where we have done this is in the guidance on the requirement to wear face coverings in public places. In this guidance, examples of things we consider reasonable excuses for not wearing a face covering are provided throughout. This includes excuses which are listed in the non-exhaustive list in the regulations, but also others which are not such as if:


- You are asked to do so by someone who will otherwise find it difficult to communicate with you;
- You are asked to do so in a bank, building society or post office for identification;
- You are asked to do so by shop staff or relevant employees for identification, for assessing health recommendations (e.g. by a pharmacist), or for age identification purposes including when buying age restricted products such as alcohol

All the FAQs and guidance are available on our main coronavirus pages at www.gov.wales/coronavirus and <https://llyw.cymru/coronafeirws>. This information is supplemented by the work we do through our social media channels to raise awareness and reinforce the core messages about the coronavirus rules and the televised Welsh Government press briefings, which are currently held three times a week.

Ultimately, however, while we agree people should have as much guidance as possible on what is legally permissible, we do consistently ask people to ask themselves not what they are permitted to do, but what is sensible, given the overriding objective to minimise the spread of coronavirus.

Thank you very much for the committee's feedback and for your ongoing scrutiny of the Welsh Government's coronavirus regulations.

Best Wishes



MARK DRAKEFORD

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/our ref MA/RE/3252/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

12 Tachwedd 2020

Annwyl Mick,

Ymhellach i'm llythyr ar 6 Tachwedd a'ch adroddiad chithau ar 12 Tachwedd ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a osodwyd yn y Senedd ar 21 Hydref mewn perthynas â Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau").

Er bod y Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac mae'r diwygio hwnnw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'r diwygiad yn un technegol ei natur ac, yn unol â llythyr y Prif Weinidog ar 4 Tachwedd, penderfynwyd peidio â threfnu dadl mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn. Nid yw'r offeryn statudol yn ddadleuol ac nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng polisi Llywodraeth Cymru a pholisi Llywodraeth y DU.

Yn gywir,

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 241



Mick Antoniwn AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

12 Tachwedd 2020

Dear Mick

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 6 Tachwedd ynghylch craffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Rwy'n fodlon â'r Protocol diwygiedig sydd ynghlwm wrth eich llythyr. Dylai hwn ddod i rym ar unwaith, a hynny tan ddiwedd y Bumed Senedd.

Dylid parhau i adolygu'r cytundeb hwn, gan drafod a chytuno ar unrhyw ddiwygiadau pellach i'r Protocol pan fo angen.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon